

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

33/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

21/05/2020

Yr Arolwg Cyfranogwyr ESF: Canfyddiadau Gwaith Maes Ansoddol Rhagfyr 2019

Yr Arolwg Cyfranogwyr ESF: Canfyddiadau Gwaith Maes Ansoddol

Nia Bryer, Ymchwil OB3



Bryer, N (2019). *Yr Arolwg Cyfranogwyr ESF: Canfyddiadau Gwaith Maes Ansoddol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 33/2020.
Available at: <https://llyw.cymru/cronfa-gymdeithasol-ewrop-arolwg-cyfranogwyr-canfyddiadau-gwaith-maes-ansoddol>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Charlotte Guinee

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5734

E-bost: charlotte.guinee@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr Termiau	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	10
2. Methodoleg	12
3. Canfyddiadau – Gweithrediadau Echel Blaenoriaeth 1	19
4. Canfyddiadau – gweithrediadau Echel Blaenoriaeth 3	38
5. Casgliadau	64
Atodiad I: Canllaw trafod ar gyfer cyfweiliadau ansoddol.....	67
Atodiad II: Canllaw trafod ar gyfer grwpiau ffocws	81

Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Proffil yr unigolion a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol ESF	16
Tabl 3.1: Yr hyn yr oedd cyfweleion EB1 yn ei wneud pan ddaethant yn rhan o'r prosiect ..	22
Tabl 3.2: Yr hyn yr oedd cyfweleion EB1 wedi bod yn ei wneud yn bennaf ers gadael yr ysgol.....	23
Tabl 3.3: Lefel cymwysterau uchaf cyfweleion EB1 adeg ymuno â'r prosiect.....	23
Tabl 3.4: Rheswm pam nad oedd cyfweleion o weithrediadau EB1 yn chwilio am waith.....	25
Tabl 3.5: Y prif ffactorau a oedd yn ei gwneud yn anodd i gyfweleion o weithrediadau EB1 ddod o hyd i waith	26

Rhestr Termau

Acronym	Diffiniad
AA	Alcoholigion Anhysbys
AB	Addysg Bellach
ACE	Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd
AP	Amcan Penodol
ASDAN	Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu
BTEC	Y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg
CAD	Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur
CAMHS	Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CBAC	Cydbwyllgor Addysg Cymru
CCAUC	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
CGGC	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
ClauW	Cymru Iach ar Waith
COSHH	Rheoli Sylweddol Peryglus i Iechyd
CPM	Coleg Paratoi Milwrol
CSCS	Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu
CV	Curriculum Vitae
DBS	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
EB	Echel Blaenoriaeth
EESW	Cynllun Addysg Beirianeg Cymru
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
ESI	Y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
F1	Fformiwla 1
IELTS	System Ryngwladol Profion Saesneg
SQA	Awdurdod Cymwysterau'r Alban
TAR	Tystysgrif Addysg i Raddedigion
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
UCAS	Y Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Cafodd Ymchwil OB3, ar y cyd ag IFF Research, gomisiwn gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i gynnal yr Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer 2016-2018. Mae'r arolwg hwn yn adeiladu ar yr [Arolygon Ymadawyr ESF 2007- 2013](#) a gynhaliwyd gan yr un tîm ymchwil yn ystod cyfnod rhaglenni blaenorol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI).

Roedd un agwedd ar yr ymchwil yn amcanu at gasglu barn cyfranogwyr a allai fod heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr arolwg ar raddfa fawr, yn anad neb pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaith maes ansoddol a wnaed gyda 129 o unigolion a gefnogwyd gan wyth gweithrediad ar draws Echel Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy (EB1) a Echel Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth leuenctid (EB3) o'r rhaglen ESI gyfredol.

Dull

Roedd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil yn golygu mynd i gyfarfod cychwynnol gyda'r cleient, datblygu canllaw trafod, dethol wyth gweithrediad ESF i'w cynnwys yn yr ymchwil a chynnal cyswllt â hwy a'u priod bartneriaid darparu i sicrhau cyfraniad cyfranogwyr ac ymadawyr. Roedd hefyd yn golygu sicrhau cyfraniad 129 o unigolion naill ai trwy gyfweiliadau un i un (52 o unigolion) neu drafodaethau grwpiau ffocws (77 o unigolion). Ar y cyfan, roedd 96 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan bum gweithrediad Echel Blaenoriaeth 3 a 33 wedi cael eu cefnogi gan dri gweithrediad Echel Blaenoriaeth 1. Roedd y gweithrediadau a nifer y cyfranwyr o bob un ohonynt fel a ganlyn:

Echel Blaenoriaeth 1: 33 unigolyn

- *Gwasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith: 13 unigolyn*
- *Cynhwysiant Gweithredol: 12 unigolyn*
- *Sicrhau Newid trwy Gyflogaeth (ACE): 8 unigolyn*

Echel Blaenoriaeth 3: 96 unigolyn

- *STEM Cymru 2: 35 unigolyn*
 - *Cynhwysiant Gweithredol leuenctid: 6 unigolyn*
 - *Cynnydd: 22 unigolyn*
 - *TRAC 11 -24: 22 unigolyn*
 - *Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales: 11 unigolyn*
-

Proffil yr unigolion

Roedd ychydig dros hanner y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil yn fenywod (70 unigolyn) ac ychydig o dan hanner yn ddynion (59 unigolyn). Roedd y cyfrannau'n debyg ar draws EB1 ac EB3. Roedd oedran cyfweleion yn amrywio o 20 i 63 oed ar draws gweithrediadau EB1 ac o 12 i 23 oed ar gyfer gweithrediadau EB3. Disgrifiodd y mwyafrif o'r holl gyfranwyr eu cefndir ethnig fel Cymreig neu Brydeinig arall. Roedd gan draean o'r rhai y cyfwelwyd â hwy afiechyd neu broblem iechyd hirdymor neu anabledd.

Roedd ymwybyddiaeth bod ESF wedi helpu i dalu am y ddarpariaeth a gawsant yn uwch ymhlith unigolion EB1 (dwy ran o dair) nag unigolion EB3 (traean), sy'n awgrymu naill ai bod gweithrediadau sy'n targedu pobl ifanc wedi bod yn effeithiol o ran gwreiddio ymyriad mewn darpariaeth addysgol yr oedd y cohort hwn eisoes yn ei chael neu fod pobl ifanc yn llai ymwybodol ar y cyfan sut y mae darpariaeth wedi cael ei hariannu.

Unigolion Echel Blaenoriaeth 1

Disgrifiodd llawer o unigolion EB1 sut yr oeddent wedi byw bywydau anhrefnus iawn cyn bod yn rhan o'u priod ddarpariaeth ESF, gyda materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'n gyffredin ymhlith y rhai a gefnogwyd gan Wasanaeth Di-waith Iechyd ar Waith Cymru. Roedd unigolion a gefnogwyd gan Wasanaeth Di-waith Iechyd ar Waith Cymru wedi ei chael yn anodd cynnal swyddi dros dro â chyflog cymharol isel yn y gorffennol. Roedd y cefndiroedd a nodwyd gan unigolion ACE yn amrywio'n eang, gyda rhai'n bobl a oedd wedi cael addysg dda yn eu gwlad enedigol ond a oedd yn methu â gweithio yn y DU oherwydd eu statws ceisio lloches neu am nad oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o gyflogaeth. O'i gymharu, roedd gan gleientiaid Cynhwysiant Gweithredol gefndir cyflogaeth cryfach.

Roedd y mwyafrif yn chwilio am waith pan ddaethant i gysylltiad â'r prosiect er nad oedd llawer, yn enwedig unigolion Gwasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith ac unigolion ACE, yn barod i ddod o hyd i gyflogaeth a'i gynnal ar y pryd. Cafodd problemau iechyd a chaethiwed i sylweddau eu henwi fel ffactorau a oedd yn cyfyngu ar allu nifer ohonynt i ddod o hyd i waith, ynghyd â materion personol megis diffyg hyder a hunan-fri isel.

Fe wnaeth pob gweithrediad recriwtio cyfranogwyr trwy wahanol lwybrau, gydag atgyfeiriadau gan sefydliadau eraill sy'n cefnogi pobl yn cyflawni rôl bwysig ym mhob achos. Roedd cymhelliad unigolion dros ddod yn rhan o weithrediadau'n cynnwys awydd i ymdopi â materion personol, i roi heibio ymddygiadau negyddol ac i ymdrin â'u rhwystrau i gyflogaeth. Roedd rhwystrau i ddod o hyd i waith yn cynnwys materion iechyd meddwl, materion dicter, gorbryder, iselder, caethiwed i sylweddau, arwahanrwydd, sgiliau

cymdeithasol gwael, sgiliau ieithyddol gwan, problemau ariannol, materion tai ac addasu i wlad a diwylliant newydd.

Roedd y ddarpariaeth a gafodd unigolion yn amrywio ac yn dibynnu ar y dull a ddefnyddiwyd gan y prosiect a'i ddarparwyr yn ogystal ag anghenion unigolion. Fodd bynnag, roedd yr holl unigolion wedi cael cymorth gan fentor neu ymgynghorydd wedi'i neilltuo ac roedd rhai wedi mynychu cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli. Ar y cyfan, roedd unigolion yn fodlon iawn ar y cymorth a gawsant ac roedd cryfderau canfyddedig y ddarpariaeth yn cynnwys teilwra'r dull yn ôl angen y cleient, rhyngweithio â chleientiaid eraill ac ansawdd yr ymgynghorydd a'r dull a ddefnyddiwyd ganddynt.

O'r wyth ymadawr y cyfwelwyd â hwy, roedd pump wedi sicrhau gwaith ac yn cael eu cyflogi ar adeg y cyfweliad, roedd un wedi cael gwaith ond ddim yn gweithio ar adeg y cyfweliad ac roedd y ddau arall yn gwirfoddoli. Er bod mwyafrif y cyfranogwyr cyfredol yn ddi-waith ac yn dal wrthi'n chwilio am waith, roedd tri naill ai'n gweithio neu ar fin dechrau gweithio, roedd chwech yn gwirfoddoli ac roedd un ar fin ailgydio yn ei addysg.

Roedd nifer o gyfranogwyr cyfredol yn cydnabod eu bod yn dal 'ddim yn barod ar gyfer gwaith' ac yn rhagweld y byddent yn parhau â naill ai hyfforddiant neu waith gwirfoddol am y tro. Roedd manteision canfyddedig cyfranogi'n cynnwys ystod o fanteision personol a newidiadau ymddygiadol gan gynnwys trefn ddyddiol well, perthynas well ag eraill, mwy o ryngweithiadau cymdeithasol, hunan-fri a hyder gwell. Roedd nifer o unigolion wedi gwella'u sgiliau neu ennill sgiliau newydd o ganlyniad i gyfranogi.

I unigolion mewn gwaith, y farn oedd bod y prosiect wedi gwneud cyfraniad pwysig iawn at eu gallu i sicrhau cyflogaeth. Roedd y mwyafrif llethol o unigolion yn meddwl bod y prosiect wedi gwneud cyfraniad sylfaenol at eu bywydau a'u hamgylchiadau personol, gyda sawl enghraifft lle'r oedd cyfranogwyr wedi gwella'u sefyllfa mewn bywyd o ganlyniad i'r ymyriad.

Unigolion Echel Blaenoriaeth 3

Roedd mwyafrif yr unigolion EB3 y cyfwelwyd â hwy neu a gyfranogodd yn nhrafodaethau'r grwpiau ffocws yn dal mewn addysg neu hyfforddiant neu'n nesáu at ddiwedd eu haddysg neu hyfforddiant (89 o unigolion). O'r rhain, roedd 66 o unigolion yn yr ysgol, roedd 12 yn y coleg ac roedd 11 yn y brifysgol. Roedd ychydig (saith unigolyn) yn ddi-waith ac yn chwilio am waith ac roedd pob un o'r chwe chyfranogwr yn y gweithrediad Cynhwysiant Gweithredol leuenctid yn perthyn i'r categori hwn.

STEM Cymru

Roedd pob un o gyfranogwyr STEM Cymru a ddaeth i grwpiau ffocws yn ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd, naill ai ym Mlynnyddoedd 7, 9 neu 12. Fe ddaethant yn rhan o'r gweithrediad er mwyn ehangu eu profiadau allgyrsiol, er mwyn bod yn rhan o weithgaredd sy'n hwyl ac er mwyn ennill profiad ym maes technoleg a pheirianneg.

Roedd cyfranogwyr STEM Cymru yn fodlon iawn ar eu profiad o'r prosiect ac fe ddwedon nhw eu bod wedi ennill sgiliau gwyddonol a generig newydd yn ogystal â dealltwriaeth am ddiwydiant o ganlyniad. Awgrymodd rhai fod y prosiect yn un a oedd yn gofyn mwy na'r disgwyl o ran ymrwymiad amser.

Roedd eu hymwneud â'r prosiect wedi cryfhau diddordeb disgyblion mewn peirianneg ac wedi ehangu eu gorwelion ynglŷn â gyrfaedd posibl yn y sector. Roedd disgyblion benywaidd, hŷn a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect F1 yn arbennig yn cydnabod bod y profiad wedi gwneud iddynt ystyried gyrfa ym maes STEM.

Cynnydd a TRAC

Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion Cynnydd a TRAC fod eu profiadau o'r ysgol wedi bod yn negyddol a dywedodd disgyblion iau eu bod wedi ei chael yn anodd mynd drwy'r broses bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Roedd dyrnaid o ddisgyblion cynradd wedi cael eu gwahardd yn barhaol ac roedd nifer mewn perygl o gael eu gwahardd. Roedd yr holl ddisgyblion yn ymdrin ag ystod eang o faterion personol ac ymddygiad a oedd yn effeithio ar eu gallu i fynychu ac ymgysylltu ag addysg. Roedd y materion hyn yn cynnwys gorbryder, straen, hyder isel, bwlio, paranoia, dicter, pyliau o banig, hunan-fri isel, anawsterau sy'n gysylltiedig ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD), ymgysylltiad gwael yn yr ysgol ac anawsterau gartref.

Roedd gan ysgolion a cholegau rôl allweddol o ran hysbysu disgyblion ynglŷn â phrosiectau Cynnydd a TRAC.

Cafodd disgyblion fynediad at ystod o weithgareddau strwythuredig, sesiynau grŵp a chymorth emosiynol, bugeiliol gan eu gweithiwr prosiect Cynnydd neu TRAC. Fe wnaethant gyfleu lefelau uchel o fodlonrwydd ar y cymorth a gafwyd ac, yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent yn meddwl ei fod wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau personol a'u hymgysylltiad ag addysg. Nodwyd mai prif gryfder y prosiect oedd y perthnasoedd clòs a llawn ymddiriedaeth yr oedd disgyblion wedi'u sefydlu gyda gweithwyr prosiect.

Roedd prif fanteision bod yn rhan o Cynnydd neu TRAC yn ôl disgyblion yn cynnwys ymddygiad gwell yn yr ysgol, llai o orbryder ynghylch mynychu'r ysgol, gwell presenoldeb ac

ymgysylltiad ag astudiaethau a gallu gwell i ymdopi â sefyllfaoedd penodol. Roedd manteision eraill yn cynnwys gwell rhyngweithiadau cymdeithasol â ffrindiau a theulu a gallu ymdopi'n well â bywyd a chan hynny bod yn fwy digynnwrf, yn fwy hyderus, yn hapusach ac yn llai dig. Yn niffyg ymwneud â phrofiad o'r fath, roedd nifer fach yn meddwl y byddent fel arall wedi gadael yr ysgol neu'r coleg tra bo eraill yn meddwl y byddai eu presenoldeb wedi bod yn waeth.

Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales

O'r 11 cyfranogwr yng ngweithrediad Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales y cyfwelwyd â hwy, roedd saith yn gyfranogwyr cyfredol a phedwar yn ymadawyr. Roeddent yn amrywio o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf i fyfyrwyr blwyddyn olaf. Roedd un yn fyfyrwr ôl-raddedig. Roedd bron pob unigolyn wedi mynd i'r brifysgol yn syth ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg ac wedi ennill cymwysterau Safon Uwch ond heb gael unrhyw brofiad gwaith blaenorol. Roedd unigolion wedi dod i glywed am y prosiect trwy ystod o ddulliau gan gynnwys trwy e-gylchlythyrau, gwefannau prifysgolion, arddangosfeydd hyrwyddo a sgysiau gyda thiwtoriaid a staff cymorth i fyfyrwyr.

Roedd unigolion wedi cael ystod eang o brofiadau cysgodi a phrofiadau gwaith mewn sefydliadau lletyol, a'r rheiny wedi'u trefnu gan y prosiect yn ôl diddordebau ac anghenion unigolion. Roedd prif gryfderau'r prosiect yn cynnwys y cyfle i gael profiad gwaith uniongyrchol gyda sefydliad a oedd yn gyflogwr a'r cyfle i drafod posibilïadau ar gyfer gyrfa gydag ymgynghorwyr a oedd o gryn gymorth. Fodd bynnag, dim ond y profiad cysgodi gwaith cychwynnol yr oedd rhai unigolion wedi'i gael, yn bennaf am eu bod wedi ymuno â'r gweithrediad yn eu blwyddyn astudio olaf a heb gael y cyfle i gael budd o'r holl brofiadau gwaith a oedd yn cael eu cynnig.

Roedd manteision canfyddedig cymryd rhan yn cynnwys sgiliau gwell, hyder gwell, CVs gwell ac adnabod ffyrdd o oresgyn rhwystrau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd ac anabledl yn y gweithle. Nid oedd y rhan fwyaf yn disgwyl y byddai eu profiad yn arwain yn uniongyrchol at unrhyw gyfleoedd cyflogaeth, yn anad dim am nad dyma oedd amcan y prosiect ar y cyfan ond hefyd am bod yr ymyriad yn un â chyffyrddiad gweddol ysgafn.

Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid

Roedd pob un o'r chwe chyfranogwyr yn y gweithrediad Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid yn ddi-waith pan ddaethant yn rhan o'r prosiect. Roeddent wedi gadael yr ysgol neu'r coleg ar wahanol adegau, a hwythau wedi ennill cymysgedd o gymwysterau. Nid oedd yr un ohonynt wedi gweithio'n flaenorol ac roeddent yn ei chael yn anodd sicrhau gwaith oherwydd diffyg profiad, diffyg hyder a diffyg cymwysterau. Roedd unigolion wedi dod i

wybod am y prosiect trwy eu Canolfan Waith yn bennaf. Un o'r ffactorau pwysig a'u hysgogodd i ddod yn rhan o'r gweithrediad oedd er mwyn cael cymorth i baratoi ar gyfer gwaith ac i ddod o hyd i waith. Cafodd unigolion gymorth gyda'u datblygiad personol yn ogystal â chanllawiau ynghylch dod o hyd i waith, megis datblygu CV, chwilio am swydd, ymgeisio am waith a pharatoi ar gyfer cyfweiliad. Cafodd rhai fynediad at gyfleoedd hyfforddi a gwaith gwirfoddol hefyd.

Roedd unigolion yn fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd trwy'r prosiect a chafodd rôl ac ymagwedd swyddogion y prosiect eu henwi'n benodol fel cryfder allweddol. Elfen bwysig arall oedd y cyfle i ryngweithio ag eraill a oedd yn profi materion tebyg.

Roedd manteision ymwneud â'r prosiect yn cynnwys rhai personol megis teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn â'r dyfodol, bod ag ymdeimlad newydd o gyfeiriad a mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn yr oeddent am ei wneud yn y dyfodol a sut i fynd ati. Yn niffyg cymorth, roedd unigolion yn meddwl na fyddai eu sefyllfaoedd wedi gwella na newid rhyw lawer. Roedd unigolion a oedd naill ai wedi dod o hyd i waith neu a oedd yn ailgydio yn eu haddysg yn meddwl bod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth pendant i'r deilliant hwn.

Y sefyllfa gyfredol a'r dyfodol

Ychydig bach o newid a fu yn amgylchiadau cyflogaeth neu addysg unigolion a gefnogwyd ar draws y pum gweithrediad, yn anad dim gan bod y mwyafrif yn dal yn yr ysgol neu mewn addysg bellach neu uwch. Cyfranogwyr yn y gweithrediad Cynhwysiant Gweithredol leuenctid oedd fwyaf tebygol o ddweud bod newidiadau wedi bod yn eu hamgylchiadau cyflogaeth neu hyfforddiant: roedd tri'n bwriadu ailgydio yn eu haddysg ac roedd un wedi dod o hyd i gyflogaeth.

Roedd rhai disgyblion STEM Cymru a gyfrannodd at yr ymchwil bellach yn ystyried gyrfa ym maes peirianeg ac roedd eu hymwneud â'r prosiect wedi cyfrannu at eu penderfyniadau. Dywedodd nifer o ddisgyblion a fu'n rhan o'r elfen F1 o STEM Cymru eu bod yn rhagweld neu y byddent yn croesawu bod yn rhan o'r prosiect eto yn y dyfodol.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion Cynnydd a TRAC yn rhagweld y byddent yn parhau yn yr ysgol tan ddiwedd Blwyddyn 11 i ennill cymwysterau TGAU ond mewn rhai achosion roedd disgyblion yn bwriadu astudio ar gyfer cymwysterau eraill neu ystod gulach o gymwysterau. Roedd gan y rhan fwyaf o'r rhai ym Mlwyddyn 11 gynlluniau i fynychu addysg bellach yn y flwyddyn academaidd nesaf i astudio amryw gyrsiau. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion AB yn bwriadu dychwelyd yn y flwyddyn academaidd ganlynol naill ai i fynd ymlaen i astudio cwrs ar y lefel nesaf neu i gwblhau eu cwrs dwy flynedd cyfredol.

Gan mai myfyrwyr israddedig oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr GO Wales, roeddent yn rhagweld dychwelyd i'r brifysgol i gwblhau eu gradd yn y lle cyntaf. Ar y cyfan, roedd wythn o'r 11 o unigolion naill ai'n bwriadu neu'n ystyried astudio cwrs ôl-raddedig, boed yn gwrs TAR, yn radd Meistr neu'n gymhwyster PhD yn y dyfodol.

Casgliadau

Mae'r gwaith maes ansoddol wedi esgor ar beth dealltwriaeth benodol a manwl am brofiadau nifer fach o gyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu ag wyth o weithrediadau ESF a oedd yn amcanu at gefnogi pobl ifanc a grwpiau agored i niwed. Fodd bynnag, ceir nifer o ystyriaethau methodolegol sy'n cyfyngu ar werth a defnyddioldeb y data a'r dystiolaeth a gasglwyd. Maent yn ymwneud â'r gallu i'w cymharu â data o arolygon meintiol o weithrediadau ESF, maint cyfyngedig y sampl o gyfweleion yn berthynol i raddfa gweithrediadau ac anawsterau a oedd yn gysylltiedig â dadansoddi canfyddiadau ansoddol ar lefel rhaglen. Maent yn codi cwestiynau ynglŷn â gwerth ailadrodd y math hwn o ymarfer ymchwil eto ac rydym yn argymhell y dylid ystyried dulliau eraill, megis defnyddio tystiolaeth werthuso ar weithrediadau a ariennir, yn y dyfodol.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Ymchwil OB3, ar y cyd ag IFF Research, gomisiwn gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i gynnal yr Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer 2016-2018. Mae'r arolwg hwn yn adeiladu ar yr [Arolygon Ymadawyr ESF 2007- 2013](#) blaenorol a gynhaliwyd gan yr un tîm ymchwil yn ystod cyfnod rhaglenni blaenorol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI). Nod y rhain oedd asesu effeithiolrwydd ymyriadau yn y farchnad lafur ac roeddent yn cynnwys arolygon dros y ffôn gyda phobl a oedd wedi gadael prosiect ESF yn ogystal â chyfweliadau ansoddol manwl gydag ymadawyr a chyfranogwyr cyfredol.
- 1.2 Amcan yr Arolwg Cyfranogwyr ESF 2015-2018, a fu'n rhedeg am dair blynedd, oedd gwerthuso'r deilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr a oedd naill ai wedi ymuno neu wedi ymadael â darpariaeth ar unrhyw adeg rhwng 2014 a 2018. Y bwriad oedd y byddai'r Arolwg Cyfranogwyr ESF yn cynnwys nifer fach o gyfweliadau arolwg (tua 400) a fyddai'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb, gan fabwysiadu holiadau yr Arolwg Cyfranogwyr ESF. Rhagwelwyd y byddai rhyw 100 o gyfweliadau arolwg wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal yn flynyddol, ar draws gweithrediadau a oedd yn targedu pobl ifanc trwy weithrediadau Echel Blaenoriaeth 3 a phobl agored i niwed a oedd yn cael cymorth trwy weithrediadau Echel Blaenoriaeth 1. Fodd bynnag, am nifer o resymau, gan gynnwys oedi a oedd yn gysylltiedig â chael mynediad at ddata a heriau mabwysiadu'r un holiadur arolwg mewn lleoliadau wyneb yn wyneb, cafodd y dull ei addasu.
- 1.3 Cytunwyd gyda WEFO felly y byddai'n well defnyddio'r elfen wyneb yn wyneb o'r astudiaeth fel cyfweliadau a grwpiau ffocws ansoddol gyda cohort llai o gyfranogwyr. Roedd yn dal i fod yn wir y byddai'r gwaith maes yn canolbwyntio ar y grwpiau hynny a oedd o bosibl heb gynrychiolaeth ddigonol yn yr arolwg ar raddfa fawr, yn anad neb pobl ifanc a gweithrediadau a oedd yn targedu oedolion agored i niwed.

Strwythur yr Adroddiad

- 1.4 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:
- mae **pennod 2** yn amlinellu'r fethodoleg a fabwysiadwyd wrth wneud y gwaith maes ansoddol
 - mae **pennod 3** yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes gyda chyfranogwyr a gefnogwyd gan dri gweithrediad a ariannwyd trwy Amcan Penodol 1, gan

gynnwys proffil o'r rhai a gyfrannodd, eu hamgylchiadau cyn ac ar ôl yr ymyriad, natur y cymorth a gafwyd, eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a gafwyd, yn ogystal â'r gwahaniaeth a wnaed gan yr ymyriad

- mae **pennod 4** yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith maes gyda phobl ifanc a gafodd gymorth gan bum gweithrediad Echel Blaenoriaeth 3, gan fabwysiadu strwythur tebyg i'r un ar gyfer pennod 3.
- mae **pennod 5** yn cyflwyno'r casgliadau sy'n deillio o'r gwaith maes ac yn ystyried gwerth a defnyddioldeb y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r dull hwn.

2. Methodoleg

2.1 Roedd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer yr ymchwil yn cynnwys:

- mynd i gyfarfod cychwynnol gyda swyddogion WEFO ym mis Ionawr 2019 i drafod rhaglen waith ar gyfer y gwaith maes ansoddol a nodi hon mewn dogfen rhaglen waith
- datblygu canllawiau trafod i lywio trafodaethau mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda chyfranogwyr cyfredol ac ymadawyr. Roedd y canllaw trafod ar gyfer cyfweiliadau unigol yn cynnwys nifer fach o gwestiynau caeedig a ddefnyddiwyd yn yr arolwg ffôn meintiol hefyd er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu data. Caiff y canllawiau trafod eu nodi yn Atodiad I a II
- ddethol a chytuno ar wyth gweithrediad ESF i'w cynnwys yn y gwaith maes ansoddol
- cael data cyswllt ar gyfer y sefydliadau darparu arweiniol a oedd yn gyfrifol am y gweithrediadau hyn
- cynnal cyswllt â phob sefydliad darparu arweiniol, a lle y bo'n briodol darparwyr a is-gontractiwyd, i drafod y dull mwyaf addas ar gyfer dethol cyfweleion a chyfranogwyr mewn grwpiau ffocws. Cafodd cyfranwyr eu recriwtio mewn dwy ffordd:
 - trwy ddulliau oportiwnistaidd: yn yr achosion hyn, roedd ymchwilydd yn bresennol mewn digwyddiadau a drefnwyd gan weithrediadau lle byddai cyfle i gyfweld neu hwyluso grwpiau trafod gyda'r rhai a oedd yn bresennol, a
 - thrwy ddethol a recriwtio darparwyr: darparwyd canllawiau ar gyfer pob sefydliad darparu arweiniol a/neu ddarparwyr wedi'u his-gontractio ar y proffil cyfranwyr a oedd yn ofynnol i sicrhau bod yr ymchwil yn casglu barn trawstoriad o gyfranogwyr o ran rhywedd, oedran, daearyddiaeth a'r cymorth a gafwyd. Yn yr achosion hyn, fe wnaeth sefydliadau darparu arweiniol gysylltu â sampl o gyfranogwyr a naill ai gwneud trefniadau i'r tîm ymchwil gwrdd â hwy neu rannu eu data cysylltu gyda'r tîm ymchwil er mwyn iddo gysylltu â hwy'n uniongyrchol.
- gwneud y trefniadau angenrheidiol i gyfweld â chyfranogwyr cyfredol ac ymadawyr: y bwriad gwreiddiol oedd cyfweld â chyfanswm o 126 o unigolion,

gydag 80 o'r rhain yn cyfrannu'n unigol a'r unigolion a oedd yn weddill yn cyfrannu at draws trafodaethau mewn 10 grŵp ffocws

- sicrhau cyfraniad cyfanswm o 129 o unigolion rhwng mis Mai a mis Awst 2019. O'r rhain:
 - fe gyfrannodd 77 o unigolion ar draws 19 o grwpiau ffocws
 - fe gyfrannodd 52 o unigolion mewn cyfweiliadau un i un
 - roedd 96 o unigolion wedi cael eu cefnogi gan weithrediadau Echel Blaenoriaeth 3, a 33 wedi cael eu cefnogi gan weithrediadau Echel Blaenoriaeth 1
- dadansoddi canfyddiadau gwaith maes a drafftio'r adroddiad hwn.

Crynodeb o weithrediadau ESF

- 2.2 Yr wyth gweithrediad ESF a oedd wedi cefnogi cyfweleion a phobl a ddaeth i'r grwpiau ffocws oedd:

Echel Blaenoriaeth 1

- *Gwasanaeth Di-waith Cymru lach ar Waith*: mae'r prosiect hwn, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn cynorthwyo unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl i gael cyflogaeth neu ddychwelyd i'r gwaith. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi gan ddau o ddarparwyr Gwasanaeth Di-waith Cymru lach ar Waith (Claw) sy'n gweithredu ledled Dwyrain Cymru – Cyfle Cymru a'r Gwasanaeth Mentora gan Gymheiriaid a ddarperir gan Gofal
- *Cynhwysiant Gweithredol*: darperir y prosiect hwn gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'i nod yw cefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar ac wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor i gael gwaith. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil wedi cael eu cefnogi gan ddau ddarparwr – Creu Menter a Prime Cymru
- *Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth (ACE)*: Mae'r prosiect hwn yn rhoi cymorth grymuso a mentora i helpu pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ymfudwyr yng Nghymru i gael hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi gan Change, Grow, Live (a adwaenid yn flaenorol fel SOVA).

- *STEM Cymru 2*: Mae'r prosiect hwn, dan arweiniad Cynllun Addysg Beirianeg Cymru (CABC) yn cynorthwyo pobl ifanc 11-19 oed i astudio pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) gyda'r amcan o wella'u cymwysterau, sgiliau a rhagolygon gyrfa. Roedd y rhai a ddaeth i'r grwpiau ffocws wedi cael eu cefnogi gan ddau o bum elfen y prosiect – y prosiect Fformiwla 1 (F1) sy'n targedu disgyblion 11 – 19 oed a phrosiect Chweched Dosbarth CABC sy'n targedu disgyblion 16 – 17 oed. Cafodd y rhai a ddaeth i'r grwpiau ffocws eu recriwtio o saith ysgol yn Ne Cymru
- *Cynnydd*: Mae'r prosiect hwn yn darparu rhaglenni cymorth wedi'u teilwra'n unigol, gan gynnwys hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith am dâl i wella rhagolygon gyrfa pobl ifanc 11-19 oed ledled de orllewin Cymru. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi ar draws pedair ysgol ac un Sefydliad Addysg Bellach yn Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe
- *TRAC 11 -24*: Nod y prosiect hwn yw gwella rhagolygon gyrfa a bywyd pobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio a gadael addysg a hyfforddiant ac fe'i harweinir gan Gyngor Sir Ddinbych ar ran awdurdodau lleol gogledd Cymru. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi gan chwe ysgol ac un Sefydliad Addysg Bellach ar draws Sir y Fflint a Wrecsam
- *Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales*: Nod y prosiect hwn, a arweinir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw hybu rhagolygon gyrfa myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig i wella'u rhagolygon swyddi tymor hwy ar ôl iddynt raddio. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi gan bedwar sefydliad addysg uwch – Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Bangor
- *Cynhwysiant leuenctid Gweithredol*: mae'r prosiect hwn, a ddarperir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn rhoi cymorth wedi'i dargedu i bobl ifanc 16 – 24 oed sydd bellaf o'r farchnad lafur ac sy'n wynebu nifer o rwystrau i gyflogaeth. Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil hon wedi cael eu cefnogi gan ddau ddarparwr – Rewise, sydd wedi'i leoli yn Abertawe, a Siawns Teg, sydd wedi'i leoli ym Mhowys.

- 2.3 Caiff proffil cyfranwyr at yr ymchwil yn ôl pob gweithrediad ESF ei nodi yn Nhabl
2.1. O'r 129 o unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil, roedd 70 yn fenywod a 59 yn
ddynion.

Tabl 2.1: Proffil yr unigolion a gyfrannodd at y gwaith maes ansoddol ESF

Cod	Ardal	Amcan Penodol	Gweithrediad	Dull	Cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws	Cyfweleion un i un	Cyfanswm y cyfranogwyr
80737	DC	1.1	Gwasanaeth Di-waith ClaW	Cyfweliadau unigol	0	13	13
80727	GCC	1.2	Cynhwysiant Gweithredol	1 grŵp ffocws a chyfweliadau	3	9	12
80930	GCC	1.2	Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth (ACE)	1 grŵp ffocws a chyfweliadau	3	5	8
Is-gyfanswm Echel Blaenoriaeth 1					6	27	33
80744	DC	3.1	Cynhwysiant Gweithredol leuenctid	2 grŵp ffocws a chyfweliadau	4	2	6
80833	GCC	3.2	Cynnydd	6 grŵp ffocws mewn 5 ysgol/SAB	22	0	22
80753	DC	3.2	TRAC 11-24	2 grŵp ffocws a chyfweliadau	10	12	22
80884	GCC	3.2	Cyflawni drwy Brofiad Gwaith GO Wales	Cyfweliadau unigol	0	11	11
80726	GCC	3.3	Stem Cymru	7 grŵp ffocws ar draws 7 ysgol	35	0	35
Is-gyfanswm Echel Blaenoriaeth 3					71	25	96
CYFANSWM					77	52	129

Ffynhonnell: Ymchwil OB3

Ystyriaethau methodolegol

- 2.4 Wrth wneud yr ymchwil, daethpwyd ar draws nifer o faterion methodolegol.
- 2.5 Nid oedd y tîm ymchwil yn gallu cyflawni'r amcan gwreiddiol, sef cynnal cyfweliadau arolwg wyneb yn wyneb yn flynyddol dros gyfnod yr astudiaeth oherwydd nifer o ffactorau. Roedd y rhain yn cynnwys oedi cyn cael mynediad at ddata a heriau a oedd yn gysylltiedig â mabwysiadu'r un holiadur arolwg gyda chohortau penodol, megis pobl ifanc a chyfranogwyr cyfredol. Felly mae'r canfyddiadau ansoddol wedi cael eu goleuo gan farn sampl lai o gyfranwyr a dylid arfer rhywfaint o bwyll wrth ddehongli data ar lefel gweithrediadau unigol. Er gwaethaf hyn, mae'r canfyddiadau'n darparu dealltwriaeth fwy manwl am brofiadau cyfranwyr unigol a gefnogwyd gan y gweithrediadau hyn. Hefyd, roedd y canllaw trafod wedi'i fwriadu i gwmpasu'r un themâu â'r rhai a nodwyd yn yr holiadur arolwg ac yn cynnwys nifer fach o gwestiynau caeedig y gellir eu cymharu'n uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cymharu data.
- 2.6 Cyfrannodd nifer uwch o gyfranogwyr Echel Blaenoriaeth 3 (96 yn erbyn targed o 85) a nifer is o gyfranogwyr Echel Blaenoriaeth 1 (33 o'i gymharu â 45) at yr ymchwil. Profodd yn haws recriwtio nifer fwy o bobl ifanc a oedd wedi cael eu cefnogi trwy weithrediadau Echel Blaenoriaeth 3 trwy ysgolion a cholegau tra bo gweithrediadau a ariannwyd trwy Echel Blaenoriaeth 1 wedi darparu llai o fanylion cysylltu i'r tîm ymchwil ar gyfer unigolion a oedd yn barod i gyfrannu.
- 2.7 Cyfrannodd nifer uwch o gyfranogwyr at yr ymchwil mewn grwpiau ffocws a chyfrannodd nifer is trwy gyfweliadau un i un nag a ragwelwyd. Y rheswm dros hyn oedd bod darparwyr prosiectau'n meddwl y byddai pobl ifanc (a oedd yn rhoi cyfrif am nifer uwch o gyfranwyr na'r disgwyl) yn fwy cysurus yn cyfrannu trwy drafodaethau mewn grwpiau bach yn yr ysgol a Sefydliadau Addysg Bellach yn ogystal â'r ffaith bod rhai sesiynau wedi'u trefnu'n oportiwnistaidd (lle cafodd ymchwilydd ei wahodd i gwrdd â grwpiau o gyfranogwyr yn ystod digwyddiadau hyfforddi neu ddathlu). O ystyried bod nifer y rhai a ddaeth i'r grwpiau ffocws yn aml yn fach iawn (tua 2-3 unigolyn mewn nifer o achosion) roedd yn bosibl i'r tîm ymchwil gasglu adborth manwl gan bob unigolyn am eu profiadau o'r cymorth a gafwyd er nad oedd data megis proffil demograffig wastad yn cael ei gasglu mewn cymaint o fanylder.

2.8 Ym mhob achos, roedd y tîm ymchwil yn dibynnu ar y gweithrediadau (neu eu darparwr wedi'i gontractio) i enwi unigolion a fyddai'n barod i gyfrannu at yr ymchwil. Defnyddiwyd y dull hwn yng ngoleuni profiad blaenorol o gynnal cyfweiliadau ansoddol fel rhan o'r Arolwg Ymadawyr ESF. Yn ystod yr astudiaethau hyn, roedd y gyfradd ymateb wrth recriwtio unigolion o sampl gynrychiadol a ddewiswyd ar hap o gronfeydd data gweithrediadau'n isel a bu'n rhaid ei 'hategu' â sampl a nodwyd gan staff gweithrediadau ym mhob achos. Roedd hefyd yn wir y byddai wedi bod yn amhriodol i'r tîm ymchwil fod wedi cael gafael ar ddata cysylltu ar gyfer pobl ifanc a gefnogwyd trwy weithrediadau Echel Blaenoriaeth 3; felly roedd dibyniaeth ar ysgolion a cholegau i recriwtio cyfranwyr a hwyluso mynediad atynt ar ein rhan.

3. Canfyddiadau – Gweithrediadau Echel Blaenoriaeth 1

- 3.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y canfyddiadau ansoddol ar gyfer unigolion a gefnogwyr gan y tri gweithrediad Echel Blaenoriaeth 1: Gwasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith (13 o unigolion), Cynhwysiant Gweithredol (12 o unigolion) a Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth (ACE) (wyth unigolyn). Caiff y canfyddiadau eu hystyried ar gyfer pob prosiect, fel y bo'n briodol.
- 3.2 Mae'n tynnu ar yr adborth a gasglwyd gan gyfanswm o 33 o unigolion. O'r rhain, cyfwelwyd â 27 yn unigol ac fe gyfranogodd chwech yn nhrefodaethau'r grwpiau ffocws. Roedd y mwyafrif (25 o unigolion) yn gyfranogwyr cyfredol ac roedd lleiafrif (wyth unigolyn) yn ymadawyr. Roedd yr holl gyfranwyr at y grwpiau ffocws yn gyfranogwyr cyfredol.

Proffil unigolion

- 3.3 Roedd ychydig dros hanner yr holl unigolion yn fenywod (17 ar y cyfan, 12 o gyfweleion a phump a gyfrannodd at y grwpiau ffocws) ac roedd 16 yn ddynion (15 o gyfweleion ac un a gyfrannodd at grŵp ffocws).
- 3.4 Roedd oedran y cyfweleion yn amrywio o 20 i 63. 41 oedd oedran cyfartalog y cyfweleion.
- 3.5 Roedd mwyafrif y cyfweleion (21 o gyfweleion) yn eu disgrifio'u hunain fel naill ai Cymreig neu Brydeinig arall tra bo dau'n eu disgrifio'u hunain fel pobl o gefndir gwyn arall. Roedd lleiafrif (chwe chyfwelai) yn eu disgrifio'u hunain fel grŵp ethnig arall. Cynhaliwyd un grŵp ffocws gyda thair menyw Fangladeshaid.
- 3.6 Ychydig iawn o unigolion oedd yn siarad Cymraeg (tri chyfwelai ddywedodd mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf). Dywedodd dwy ran o dair o'r cyfweleion (18 o gyfweleion) mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf tra bo chwech wedi dweud mai iaith arall oedd eu hiaith gyntaf. Hefyd, dywedodd tri o'r cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws mai iaith arall (Bangladeshi) oedd eu hiaith gyntaf.
- 3.7 Roedd gan draean o'r cyfweleion (naw chyfwelai) afiechyd neu broblem iechyd hirdymor neu anabledd, ac mewn saith achos roeddent yn meddwl bod hyn yn effeithio ar faint o waith neu'r math o waith y gallent ei wneud.
- 3.8 Roedd dwy ran o dair (17 o gyfweleion) yn ymwybodol bod ESF wedi helpu i dalu am y ddarpariaeth a gafwyd o'i gymharu â thraean (10 chyfwelai) nad oeddent yn ymwybodol o hyn.

Cefndir

Gwasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith

- 3.9 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r 13 o unigolion a oedd wedi cael eu cefnogi gan Wasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith ddisgrifio sut yr oeddent wedi byw bywydau anhrefnus cyn dod yn rhan o'r gweithrediad. Dywedodd un cyfwelai o'r fath:

'Rwyf wastad wedi byw gyda fy mam, rwyf wedi bod â phroblemau iechyd meddwl am ychydig o amser ac rwy'n dod dros gaethiwed i heroin a chrac cocên. Rwyf mewn llety â chymorth yn awr ac yn disgwyl am fy lle fy hun gan y Cyngor. Mae ADHD¹ arnaf a chefais gymorth gan Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed² pan oeddwn yn yr ysgol. Cefais fy nerbyn i loches pan oeddwn yn 15 oed oherwydd fy nhad. Pan oeddwn yn 17 oed cefais ddiagnosis bod sgitsoffrenia paranoiaidd arnaf.'

- 3.10 Trafodwyd methiant priodas neu berthynas gan o leiaf ddau o gyfweleion o Wasanaeth Di-waith ClaW, tra bo un arall wedi colli ei gŵr ar ôl bod yn ofalwr iddo am nifer o flynyddoedd:

'Fe wahanais oddi wrth fy mhartner, yr oeddwn wedi bod gydag ef am 20 mlynedd mae gennym bedwar o blant...fe waethygodd fy amgylchiadau'n weddol gyflym ar ôl i ni wahanu ac ar un adeg roeddwn yn cysgu mewn slym...yn awr mae gen i fy fflat fy hun...mae pethau'n gwella llawer'.

Dywedodd un cyfwelai ei bod wedi dioddef problemau iechyd meddwl a diffyg hyder pan ddaeth ei pherthynas ddeng mlynedd gyda phartner i ben, gan ychwanegu bod pwysau gorfod 'ymorol amdani hi ei hun a'i phlant' wedi ei rhoi dan straen enfawr.

- 3.11 Nid oedd yn beth anghyffredin i gyfweleion Gwasanaeth Di-waith ClaW ddweud eu bod wedi bod yn brwydro â phroblemau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a chyffuriau, a oedd yn aml yn cyd-ddigwydd â materion iechyd meddwl, perthnasoedd camdriniol a hunan-niweidio. O ganlyniad, roedd cyfweleion yn aml yn dod i gysylltiad â'r prosiect pan oeddent 'ar eu gwaethaf':

- dywedodd un cleient ei bod wedi mynd i drybini pan oedd yn ifanc iawn, gan adael yr ysgol pan oedd yn 15. Roedd wedi dechrau cymryd cyffuriau ac wedi cael ei cham-drin, dau ddigwyddiad a arweiniodd at ddirywiad yn ei hiechyd

¹ Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.

² Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

meddwl. Fe waethygodd ei defnydd o gyffuriau dros amser ac fe achosodd hyn iddi orfod byw mewn lloches i ddianc rhag partner camdriniol

- dywedodd un cyfwelai oedd â hanes troseddol ac wedi treulio cyfnod yn y carchar ei fod wedi ariannu ei arferion camddefnyddio alcohol a chyffuriau â gwaith byrdymor yr oedd yn cael tâl amdano mewn arian parod. Roedd yn cydnabod bod iechyd meddwl gwael a phroblemau dicter ganddo ar adeg dod i gysylltiad â'r prosiect.

3.12 Dywedodd nifer o gyfweleion o Wasanaeth Di-waith ClaW eu bod wedi cael ystod o swyddi byrdymor a thros dro ers gadael yr ysgol, gyda swyddi yn y sectorau manwerthu, arlwy, diogelwch, gwasanaethau cwsmeriaid a gofal yn cael eu crybwyll yn fynych. Mewn o leiaf bum achos, roedd cyfweleion yn cyfaddef iddynt ei chael yn anodd cadw eu cyflogaeth oherwydd materion iechyd a/neu gaethiwed i sylweddau. Er enghraifft, soniodd un am fod 'yn absennol oherwydd salwch am gyfnod' tra bo un arall wedi sôn am 'waeledd iechyd meddwl a oedd yn golygu fy mod yn absennol o'r gwaith am oddeutu blwyddyn'. Roedd hefyd yn wir bod cyfweleion wedi methu â chadw swyddi am gyfnodau hwy oherwydd natur eu cyflogaeth ar 'gontract dim oriau'.

3.13 Roedd dod yn rhiant yn rheswm arall a grybwyllwyd gan gyfweleion o Wasanaeth Di-waith ClaW dros roi'r gorau i swydd flaenorol. Er enghraifft, meddai un, 'ar ôl i'r plant gyrraedd, fe benderfynodd fy mhartner yr hoffai fynd yn ôl i'r gwaith...wedyn fi oedd prif ofalwr y plant'.

Cynhwysiant Gweithredol

3.14 Mewn cyferbyniad efallai, roedd gan gleientiaid Cynhwysiant Gweithredol gefndiroedd cyflogaeth cryfach ac nid oedd yn beth anghyffredin i unigolion ddweud mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt fod yn ddi-waith. Er enghraifft, dywedodd pob un o'r tri chleient o Prime Cymru iddynt gael cyfnodau hir o gyflogaeth, ac mai dim ond yn ddiweddar yr oeddent wedi bod yn ddi-waith. Dywedodd dau iddynt golli eu swyddi'n ddiweddar oherwydd amodau masnachu anodd neu am bod busnes wedi cau, tra bo'r trydydd wedi colli ei swydd oherwydd effaith bwlio yn y gwaith. Dywedodd pob un o'r tri unigolyn eu bod yn mwynhau eu gwaith nes iddynt golli eu swyddi.

Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth

- 3.15 Roedd pedwar o'r wyth unigolyn a gefnogwyd gan y prosiect ACE naill ai'n geiswyr lloches neu wedi cael statws lloches, ac wedi symud i Gymru'n weddol ddiweddar o Swdan, Afghanistan, Syria ac Iran. Mewn tri o'r achosion hyn, roedd unigolion wedi cael addysg dda ac wedi dal swyddi proffesiynol yn eu gwlad enedigol (e.e. fel darlithydd academaidd neu feddyg pediatrig). Mewn un achos, nid oedd cymwysterau'r unigolyn yn cael eu cydnabod yn y DU i ganiatáu iddi weithio fel meddyg pediatrig tra bo cyfyngiadau ar allu dau i ddod o hyd i waith oherwydd eu statws fel ceiswyr lloches. Roedd tri unigolyn arall, a oedd wedi symud i Gymru o Fangladesh, wedi gwneud hynny o leiaf ddeng mlynedd yn ôl ond nid oedd ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o gyflogaeth oherwydd ei cyfrifoldebau gofal plant a gwraig tŷ. Er bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn rhwystrau i ddod o hyd i waith, roedd un yn cydnabod bod ei sgiliau iaith Saesneg gwan yn rhwystr ychwanegol. Roedd y cyfwelai olaf o ACE, a oedd wedi symud i fyw yng Nghymru o Sbaen er mwyn gwella'i Saesneg, wedi gweithio mewn rôl gwasanaethau cwsmeriaid am gyfnod ond roedd yn ddi-waith ar adeg y cyfweliad.

Gwaith blaenorol a chymwysterau

- 3.16 Roedd mwyafrif y cyfweleion yn chwilio am waith pan ddaethant i gysylltiad â'r prosiect, fel a ddangosir yn Nhabl 3.1.

Tabl 3.1: Yr hyn yr oedd cyfweleion EB1 yn ei wneud pan ddaethant yn rhan o'r prosiect

Statws blaenorol	Nifer y cyfweleion
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	19
Ddim mewn gwaith am dâl nac yn chwilio am hynny	4
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl	2
Yn gyflogedig	1
Mewn addysg neu hyfforddiant	1
	27
Cyfanswm	

Ffynhonnell: Unigolion y cyfwelwyd â hwy o weithrediadau EB1

- 3.17 Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion wedi bod yn gyflogedig ar ryw adeg ers gadael yr ysgol, fel a ddangosir yn Nhabl 3.2. Dywedodd sawl un eu bod wedi cael eu cyflogi mewn swyddi byrdymor neu dros dro, ond bod 'dal ati gydag unrhyw beth wedi bod

yn anodd iawn'. Roedd dynaid wedi bod yn ddi-waith am gyfnodau hwy, yn aml o ganlyniad i fagu teulu neu oherwydd problemau iechyd a chaethiwed i sylweddau.

Tabl 3.2: Yr hyn yr oedd cyfweleion EB1 wedi bod yn ei wneud yn bennaf ers gadael yr ysgol

Yn ei wneud yn bennaf ers gadael yr ysgol	Nifer y cyfweleion
Yn gyflogedig	16
Ddim mewn gwaith nac yn chwilio am hynny	5
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	2
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl	1
Mewn addysg neu hyfforddiant	1
Cyfanswm	25

Ffynhonnell: Unigolion y cyfwelwyd â hwy o weithrediadau EB1

- 3.18 Roedd lefel cymwysterau unigolion yn amrywio o'r rhai a oedd heb unrhyw rai am eu bod wedi gadael yr ysgol cyn sefyll unrhyw arholiadau, i'r rhai a oedd â rhai cymwysterau TGAU i'r rhai â chymwysterau uchel iawn a oedd yn gyfwerth â Lefel 6 ac uwch. O ran eu cymwysterau uchaf, roedd gan gyfweleion ystod o gymwysterau, fel a nodir yn Nhabl 3.3.

Tabl 3.3: Lefel cymwysterau uchaf cyfweleion EB1 adeg ymuno â'r prosiect

Cymhwyster uchaf	Nifer y cyfweleion
Lefel mynediad	1
Lefel 1	3
Lefel 2	4
Lefel 3	5
Lefel 4	2
Lefel 5	1
Lefel 6	7
Lefel 7	0
Lefel 8	1
Arall	3
Cyfanswm	27

Ffynhonnell: Unigolion y cyfwelwyd â hwy o weithrediadau EB1

3.19 Yn wir, dywedodd rhai cyfweleion eu bod wedi sicrhau cymwysterau da iawn tra bo eraill wedi awgrymu nad oedd eu dechrau cryf yn wreiddiol yn eu haddysg a'u bywyd proffesiynol wedi cael ei gynnal am bod eu caethiwed i sylweddau wedi cael effaith ar eu bywydau:

'Roeddwn yn ffodus i gael ysgoloriaeth...a dod yn banydd cyngherddau...ond ni aeth [y swydd] yn dda. Daeth alcohol yn broblem yn fy ugeiniau...dydw i ddim wedi gweithio'n llawn-amser mewn ugain mlynedd'.

3.20 Nid oedd eraill wedi gallu cwblhau eu haddysg, boed yn yr ysgol neu yn y coleg, oherwydd eu hamgylchiadau personol a materion iechyd. Meddai un a oedd wedi gadael yr ysgol yn gynnar cyn troi'n 16:

'Ni chefais fy nghofrestru ar gyfer arholiadau ac roedd fy mam yn tueddu i'm cadw gartref o'r ysgol am bod ganddi broblemau a'i bod hi'n unig'.

3.21 Roedd rhyw ddau unigolyn naill ai mewn, neu newydd adael addysg neu hyfforddiant pan ymunon nhw â'r prosiect. Cafodd un ei atgyfeirio at y prosiect gan eu bod yn cwblhau eu hastudiaethau BTEC³ mewn teithio, twristiaeth a lletygarwch yn yr ysgol. Roedd un arall yn astudio cwrs dwys Saesneg fel ail iaith pan gafodd ei atgyfeirio at y prosiect.

Ffactorau a effeithiodd ar allu unigolion i gael gwaith

3.22 Gofynnwyd i gyfweleion nad oeddent mewn cyflogaeth pan ddaethant yn rhan o'r gweithrediad am y ffactorau a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio neu ddod o hyd i waith.

3.23 Dywedodd nifer o unigolion a gefnogwyd gan Wasanaeth Di-waith ClW nad oeddent wrthi'n chwilio am waith pan ddaethant i gysylltiad â'r prosiect, yn syml am nad oeddent yn barod i ddod o hyd i gyflogaeth a'i chynnal. Roedd unigolion a gefnogwyd gan Cynhwysiant Gweithredol, yr oedd rhai ohonynt wedi bod yn ddi-waith am gyfnod cymharol fyr yn unig, wrthi'n chwilio am gyflogaeth, tra nad oedd y rhai a gefnogwyd trwy'r prosiect ACE wedi gweithio ers symud i'r DU. Yn achos yr olaf, roedd nifer yn gwirfoddoli neu'n cael hyfforddiant ar adeg y cyfweiliad am nad oeddent yn cael gweithio yn y DU. Dywedodd cyfranogwyr eraill yn y prosiect ACE nad oeddent wedi chwilio am waith oherwydd eu cyfrifoldebau magu teulu.

³ Y Cyngor Addysg Busnes a Thechnoleg.

- 3.24 O ystyried natur y gweithrediadau, nid oedd yn syndod bod problemau iechyd a chaethiwed i sylweddau'n cael eu crybwyll gan gyfweleion fel rhesymau pam eu bod yn ddi-waith neu'n methu â dod i hyd i waith, fel a ddangosir yn Nhabl 3.4. Yn wir, pwysleisiodd nifer o gyfweleion eu bod 'yn mynd trwy adferiad' a bod arnynt angen amser i ymdrin â materion iechyd meddwl a chaethiwed i sylweddau. Yn aml, roedd cyfranogwyr o'r farn bod materion a oedd yn ymwneud â dibyniaeth ar feddyginiaeth, diffyg hyder, hunan-fri isel ac arwahanrwydd yn ei gwneud yn anos chwilio am waith.

Tabl 3.4: Rheswm pam nad oedd cyfweleion o weithrediadau EB1 yn chwilio am waith⁴

Ffactorau	Nifer y cyfweleion
Problemau iechyd neu anaf dros dro	7
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	7
Problemau iechyd hirdymor neu anabledd	6
Ffactorau eraill	5
Gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl	4
Dim swyddi ar gael	1

Ffynhonnell: Unigolion y cyfwelwyd â hwy o weithrediadau EB1

- 3.25 Fel a ddangosir yn Nhabl 3.5, y prif ffactorau y dywedodd cyfweleion eu bod yn ei gwneud yn anodd dod o hyd i waith oedd problemau iechyd, ac yna diffyg cymwysterau a sgiliau. Roedd y rhai a gefnogwyd gan Wasanaeth Di-waith ClauW fod ffyrdd anhrefnus o fyw ac iechyd gwael yn rhwystrau pwysig i ddod o hyd i gyflogaeth barhaus, a oedd yn aml yn arwain at, neu'n atgyfnerthu, ymddygiadau negyddol pellach. Roedd y rhai a gefnogwyd gan y prosiect Cynhwysiant Gweithredol yn fwy tebygol o enwi rhwystrau eraill i ddod o hyd i waith megis y diffyg cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael tra bo'r rhai a gefnogwyd gan y prosiect ACE yn enwi ffactorau fel diffyg cymwysterau a sgiliau, gan gynnwys diffyg sgiliau iaith Saesneg, a methu â gyrru.

⁴ Gallai'r cyfweleion ddewis mwy nag un ymateb.

Tabl 3.5: Y prif ffactorau a oedd yn ei gwneud yn anodd i gyfweleion o weithrediadau EB1 ddod o hyd i waith⁵

Ffactorau	Nifer y cyfweleion
Problemau iechyd	14
Peidio â bod â'r cymwysterau cywir	10
Peidio â bod â'r sgiliau cywir	8
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	8
Rhesymau eraill	7
Bod heb brofiad gwaith perthnasol	5
Anodd cyrraedd gwaith priodol	5
Bod â chyfrifoldebau gofalu	4
Dim swyddi priodol yn agos	4

Ffynhonnell: Unigolion y cyfwelwyd â hwy o weithrediadau EB1

Clywed am y prosiect

- 3.26 Roedd unigolion wedi dod i wybod am y prosiectau ESF mewn nifer o ffyrdd. Yn achos Gwasanaeth Di-waith ClaW, soniodd unigolion eu bod wedi clywed am y prosiect trwy ffynonellau megis Canolfan Byd Gwaith (pedwar achos), cyswllt blaenorol â darparwyr megis Cais, Cyfle a Kaleidoscope yn ogystal â ffeiriau swyddi, aelodau o'r teulu neu gael eu hatgyfeirio gan sefydliadau megis Gyrfa Cymru, canolfannau dadwenwyno a Barod.
- 3.27 Roedd unigolion a gefnogwyd trwy brosiectau Cynhwysiant Gweithredol yn tueddu i amlygu ffynonellau megis mewn digwyddiadau ceisio gwaith, ar y cyfryngau cymdeithasol a chwiliadau rhyngrwyd fel dulliau o glywed am y prosiect yn ogystal â chael eu hatgyfeirio gan Ganolfan Byd Gwaith a chymdeithasau tai.
- 3.28 Yn achos y prosiect ACE, dywedodd unigolion fod canolfannau cymunedol lleol a swyddogion cymunedol prosiectau wedi bod â rôl bwysig o ran dod i glywed am y prosiect ynghyd â ffynonellau megis digwyddiadau lleol a chael eu hatgyfeirio gan sefydliadau megis Cyngor Ffoaduriaid Cymru neu awdurdodau lleol. Fe wnaeth dau gyfranogwr mewn grwpiau ffocws bwysleisio pwysigrwydd rhwydweithiau cymunedol i ddod i glywed am y prosiect:
- roedd dwy fenyw wedi dod i glywed am ACE trwy grŵp *What's App* a sefydlwyd ar gyfer menywod Bangladeshaidd yn eu cymuned. Bu gan aelod

⁵ Gallai'r cyfweleion ddewis mwy nag un ymateb.

hysbys o'r gymuned â chysylltiadau da, a oedd eisoes wedi cofrestru ar gyfer y prosiect, rôl bwysig o ran hyrwyddo'r cyfleoedd a oedd ar gael trwy'r prosiect yn yr achos hwn.

Cymhelliad i ddod yn rhan o brosiectau

3.29 Yn ogystal â bod arnynt eisiau dod o hyd i waith, daeth unigolion yn rhan o brosiectau am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys er mwyn:

- gwella'u bywydau a dod o hyd i ffyrdd o ymdopi â materion personol.
Awgrymodd un bod 'Angen i mi gael trefn ar fy mywyd eto. Roedd angen i mi fynd allan, roeddwn wedi diflasu ac yn isel fy ysbryd. Roeddwn i wedi mynd i rigol ac roedd arnaf angen rhywbeth i'w wneud â'm bywyd'
- cwrdd â phobl, cael ymdeimlad o drefn, lleddfu diflastod a rhoi heibio ymddygiadau negyddol. Dywedodd un unigolyn a oedd wedi bod ar gwrs eu bod wedi'i chael yn anodd gadael y tŷ a'r ffaith 'fy mod wedi gwneud wythnos ar ei hyd – mae hynny'n gamp fawr i mi'
- goresgyn materion megis diffyg hyder, caethiwed i sylweddau, gorbryder ac arwahanrwydd
- darganfod pa waith yr oeddent am ei wneud ac asesu eu dyfodol: 'ble'r oedd arnaf eisiau i'm gyrfa fynd' a 'pha un a oedd yn werth buddsoddi yn y coleg'
- cael cyswllt ag ymgynghorydd dibynadwy: 'roedd y prosiect yn taflu rhaff i mi, roedd cael rhywun i wyllo amdanaf yn enfawr...yn awr mae gen i rywun y gallaf ei alw beth bynnag fo'r broblem
- dod o hyd i gyfleoedd i wirfoddoli er mwyn dysgu pethau newydd a theimlo'n 'ddefnyddiol' unwaith eto
- cael cyfleoedd hyfforddi a chymwysterau
- mynd i'r afael â'u diffyg dealltwriaeth ynglŷn â sut yr oedd prosesau cyflogaeth yn gweithio yn y DU
- gwella'u rhagolygon o gael swydd, i ddod yn fwy cyflogadwy ac mewn sefyllfa well i gadw swydd
- cael cyfleoedd gwaith addas, yn enwedig y rhai sydd ar gael o amgylch oriau ysgol.

- 3.30 Enwodd nifer o unigolion faterion personol yr oeddent yn gobeithio y byddai'r prosiect yn helpu i fynd i'r afael â hwy. Mae llawer o'r rhain wedi cael eu trafod yn barod. Roedd eraill yn cynnwys materion iechyd meddwl, rheoli dictter, arwahanrwydd, sgiliau cymdeithasol gwael, sgiliau iaith gwan, problemau ariannol, materion tai, hunan-fri isel yn ogystal ag addasu i wlad a diwylliant newydd. Mewn rhai achosion, roedd unigolion yn gobeithio y byddai'r prosiect yn cyflawni rôl gyfryngu bwysig rhyngddynt hwy a sefydliadau a allai gynnig cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth. Er enghraifft, mewn un achos nodwyd fod cydlynnydd prosiect wedi helpu i bontio gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol rhwng cyfranogwyr ac ysgol leol trwy sicrhau lleoliadau gwirfoddoli ar gyfer cyfranogwyr yn yr ysgol.

Natur y ddarpariaeth a gafwyd

- 3.31 Roedd y ddarpariaeth a gafodd unigolion yn amrywio ac yn dibynnu ar y dull a ddefnyddiwyd gan y prosiect a'i ddarparwr.

Gwasanaeth Di-waith Cymru Iach ar Waith

- 3.32 Yn achos Gwasanaeth Di-waith ClaW, y math o ddarpariaeth y soniwyd amdani fwyaf fel yr un a gafwyd oedd cymorth mentora un i un gan gymheiriaid i ymdrin â materion bywyd ac i gael cymorth gyda materion iechyd a phersonol megis hyder isel a sgiliau cymdeithasol gwael. Siaradodd unigolion am fod wedi mynychu cyrsiau a oedd yn amrywio o sesiynau undydd, byr i gyrsiau 12 wythnos hwy a oedd yn cwmpasu ystod o bynciau megis sgiliau sylfaenol, TG, cwnsela a chyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol. Roeddent wedi cael mynediad at rai o'r cyrsiau hyn ar-lein. Soniodd nifer o gyfweleion hefyd eu bod wedi cael cymorth a oedd yn gysylltiedig â chyflogaeth megis datblygu CV, cyfeirio at gyfleoedd gwirfoddoli a chael mynediad am gyfleoedd gwaith. Dywedodd ychydig eu bod wedi cyfranogi mewn sesiynau grŵp megis grŵp celf, tîm pêl-droed a chôr.
- 3.33 Mewn nifer o achosion, pwysleisiodd cyfweleion o Wasanaeth Di-waith ClaW fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddatrys amgylchiadau byw personol a materion ariannol yn y lle cyntaf. Meddai un cyfwelai:
- 'fe helpon nhw fi i roi fy nhrefniadau ariannol a'm trefniadau byw dan reolaeth ac fe wnaeth hynny fy rhoi mewn sefyllfa well o lawer i fynd i'r afael â rhannau eraill o'm bywyd'.

3.34 Mewn achosion eraill, roedd eu hymwneud â'r gwasanaeth yn gam cyntaf i mewn i ryw fath o drefn reolaidd:

‘am y tro cyntaf mewn achau roeddwn yn dal bws ac yn gadael fy milltir sgwâr i gwrdd â phobl newydd – roedd hynny’n beth mawr i mi’.

3.35 I eraill, hwn oedd y tro cyntaf iddynt gael eu hannog i ystyried eu dyfodol:

‘fe ofynnon nhw i mi ble oeddwn i am fynd, a hwn oedd y tro cyntaf mewn cantoedd i mi gael fy ngorfodi i feddwl am y dyfodol’. Dyna'r hwb yr oedd ei angen arnaf mewn gwirionedd.

3.36 Nododd sawl cyfwelai mai dim ond ar ôl datrys y materion personol hyn y gallent ystyried camau ymarferol pellach i fynd i'r afael â'r rhwystrau i waith a fyddai'n weddill megis diffyg sgiliau, profiad a mynediad at y farchnad lafur. Roedd gallu gweithio tuag at nodau byrdymor yn bwysig i gyfweleion yn ystod eu siwrne gyda'r gwasanaeth fel yr oedd cael eu hannog gan fentor a oedd wedi'i neilltuo: ‘roedd fy mentor yn dda iawn am fy annog i edrych y tu hwnt i'm gorbryderon a'm gwthio fy hun’.

Cynhwysiant Gweithredol

3.37 Roedd profiad unigolion Cynhwysiant Gweithredol o'r prosiect yn cynnwys mynediad at gyrsiau megis cyrsiau yn-ôl-i'r-gwaith, iechyd a diogelwch, diogelu, TG ac ymwybyddiaeth ofalgar. Roedd hefyd yn cynnwys cymorth un-i-un gan anogwr swyddi neu ymgynghorydd wedi'i neilltuo. Yn achos un darparwr (Prime Cymru) roedd y cymorth wedi'i anelu'n fwy tuag at chwilio am swydd a chynorthwyo unigolion i ddiweddarau eu CV a'u hysbysu ynghylch cyfleoedd gwaith a oedd ar gael.

Sicrhau Newid drwy Gyflogaeth

3.38 I gyfranogwyr ACE, roedd natur y ddarpariaeth a gafwyd yn weddol eang ac yn cynnwys cymorth i ddod o hyd i'w ffordd drwy'r system gyflogaeth, chwilio am leoliad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli, chwilio am swyddi a oedd ar gael, paratoi ar gyfer cyfweiliadau, hogi sgiliau iaith Saesneg a helpu i gadarnhau cyfwerthedd cymwysterau unigolion o'u gwlad enedigol trwy gyrsiau trosi. Mewn rhai achosion, roedd cyfranogwyr wedi cael cymorth trwy sesiynau grŵp gydag unigolion yn mynychu sesiynau wythnosol rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant, mewn llyfrgell leol.

Bodlonrwydd ar y prosiect

- 3.39 Roedd unigolion yn fodlon iawn ar y cymorth a ddarparwyd gan y tri phrosiect ESF ac roeddent yn aml yn cyfeirio at y cymorth a gafwyd fel cymorth ‘campus’, ‘ardderchog’ ac ‘y tu hwnt i’r disgwyliadau’. Cyfleoedd unigolion negeseuon pwysig ynglŷn â sut yr oedd y cymorth a gafwyd wedi cael ei deilwra yn ôl anghenion unigol a bod prosiectau wedi gallu cyflawni ar eu haddewidion cychwynnol. Er enghraifft, dywedodd un cyfwelai o Wasanaeth Di-waith ClaW mai ‘hwn yw’r prosiect cyntaf sydd wedi cyflawni’r hyn a addawyd ganddynt’.
- 3.40 Amlygwyd yr elfennau canlynol fel cryfderau allweddol y ddarpariaeth:
- roedd prosiectau wedi gallu cefnogi unigolion gyda materion ac amgylchiadau personol a oedd wedi arwain at hyder gwell, sgiliau gwell, sicrhau cymwysterau a sgiliau bywyd gwell megis cadw amser
 - roedd unigolion wedi gallu cael budd o’u rhyngweithiad â chleientiaid eraill, ‘mae’n hyfryd bod yn rhan o grŵp, dim ond siarad gyda phobl’. Soniodd nifer o unigolion eu bod wedi mwynhau gweithio gyda phobl eraill a oedd yn wynebu heriau tebyg iddynt hwy eu hunain, gan eu bod yn ystyried eu bod yn ‘fwy parod i’w derbyn ac yn llai parod i farnu’. Mewn un achos dywedodd unigolyn ei fod wedi cael hyder o gael y cyfle i ddysgu Cymraeg i eraill yn ei grŵp.
 - peidio â bod dan bwysau i wneud cynnydd a gallu gweithio ‘wrth eu pwysau eu hunain’. Meddai un unigolyn: ‘wnaethon nhw ddim fy rhuthro ac fe aethon nhw â fi trwy bethau gam wrth gam. Nid oedd unrhyw bwysau i mi ruthro i mewn i waith cyn fy mod yn barod’
 - amlygodd rhai unigolion gyrsiau hyfforddi fel prif gryfder y ddarpariaeth. Meddai un unigolyn, a oedd wedi bod ar gwrs cyfansoddi dros bedwar diwrnod, ‘mae hyn wedi bod yn hwyl, [rwyf] wedi ei fwynhau shwt gymaint ... rwy’n drist ei fod yn dod i ben, ac na fyddaf yn cael dod yn ôl eto’
 - cymorth yn cael ei roi gan ymgynghorwyr neu fentoriaid a oedd yn gyfeillgar, yn llawn cydymdeimlad, ymddiriedaeth a pharch ac a oedd â digon o amser i gwrdd â chleientiaid. Meddai un unigolyn: ‘Roeddwn i’n teimlo’n gartrefol gyda’r tîm o’r dechrau ac fe helpodd hynny fi i fod yn agored a dechrau siarad’. Dywedwyd yn aml fod staff yn ‘barod iawn i helpu’ ac yn awyddus i ‘wneud ymdrech gwirioneddol’. Pwysleisiodd nifer o gyfweleion bwysigrwydd

cael digon o amser gyda'u mentor neu ymgynghorydd, a bod hyn wedi cymharu'n ffafriol â'r sesiynau byrrach yr oeddent wedi'u profi yn swyddfeydd Canolfannau Gwaith. Fe wnaeth ychydig o unigolion amlygu hefyd pa mor bwysig ydoedd bod ymgynghorwyr neu fentoriaid yn gweithredu ar bethau y cytunwyd arnynt yn ystod eu cyfarfodydd, e.e. darparu gwybodaeth ddilydol a manylion cysylltu fel a addawyd

- mewn rhai achosion, roedd mentoriaid yn gallu tynnu ar brofiadau tebyg yr oedd cyfranogwyr o'r farn eu bod wedi 'gwneud gwahaniaeth anferth...uniaethu â'r hyn yr wyf yn ei ddweud' a hefyd yn cynnig model rôl cadarnhaol i gleientiaid. Dywedodd un unigolyn o'r fath eu bod 'yn gwybod beth rydych chi'n mynd drwyddo ac yn gallu siarad eich iaith...[does] dim cachu rwtsh'
- roedd cael cymorth gan yr un mentor wedi bod yn bwysig i lawer o unigolion, ond nid oedd pob un ohonynt wedi gallu cael budd o'r parhad hwn. Roedd dau gyfwelai wedi cael bod newid mewn mentor wedi bod yn 'gythryblus' ac roeddent wedi bod yn orbryderus o ganlyniad.

3.41 Roedd y prif agweddau ar y cymorth y gellid eu gwella ym marn unigolion yn tueddu i ymwneud â materion a oedd yn gysylltiedig â'r canlynol:

- cymhwysra ar gyfer prosiectau – awgrymodd rhai y gallent fod wedi cael budd o'r prosiect yn gynharach, yn hytrach na gorfod aros nes oeddent wedi bod yn ddi-waith am 12 mis
- adnoddau digonol – roedd un unigolyn yn meddwl nad oedd digon o adnoddau wedi cael eu darparu ar gyfer y prosiect o ystyried eu bod wedi gorfod aros ychydig cyn y gallent gwrdd â mentor
- cymorth ariannol – yn enwedig yn achos ceiswyr lloches a ffoaduriaid a oedd yn dymuno astudio'r cwrs System Ryngwladol Profion Saesneg (IELTS) er mwyn dangos hyfedredd ieithyddol, gan bod hwn yn gwrs drud i'w astudio.

3.42 Roedd unigolion wedi ennill ystod o gymwysterau neu dystysgrifau achrededig o ganlyniad i gyfranogi ar gyrsiau wedi'u cwblhau a ddarparwyd gan y prosiectau. Cymwysterau Lefel 1 a 2 oedd y rhain yn bennaf, a hwythau'n cwmpasu pynciau megis cyflwyniad i gwnsela, mentora gan gymheiriaid, diogelwch bwyd, codi a chario, cymorth cyntaf, rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH), lleihau niwed, Assist (cymorth cyntaf hunanladdiad), y cynllun ardystio sgiliau adeiladu (CASA),

TG a diogelu. Roedd unigolyn o Wasanaeth Di-waith ClaW yn fwy tebygol nag eraill o fod wedi cyfranogi mewn hyfforddiant ac o enwi cymwysterau yr oeddent wedi'u hennill o ganlyniad iddo. Roedd y rhai a gefnogwyd gan ACE yn fwy tebygol o fod wedi cael eu hatgyfeirio gan y prosiect at ddarpariaeth hyfforddi arall, megis y cwrs IELTS ac, mewn un achos, cwrs Diploma mewn Cyfieithu ar y Pryd ym maes Gwasanaeth Cyhoeddus.

- 3.43 Fe wnaeth cyfweleion bwysleisio bod ennill cymwysterau cyfredol o bosibl yn bwysicach iddynt nag ennill cymwysterau ar lefel uwch nag oedd ganddynt yn flaenorol, gan eu bod yn ddefnyddiol i ddangos i ddarpar gyflogwyr bod ganddynt sgiliau a thrwyddedau cyfredol ac wedi'u diweddarau.
- 3.44 Ar adeg y cyfweiliad, roedd nifer o unigolion yn rhagweld y byddent yn parhau i fynychu cyrsiau eraill ac ennill cymwysterau pellach neu dystysgrifau achrededig gyda'r prosiect. Mewn rhai achosion, roedd unigolion wedi cael rhestr o gyrsiau a oedd ar gael iddynt ac wedi adnabod y rhai yr oeddent yn dymuno'u mynychu.

Y sefyllfa bresennol

- 3.45 O'r wyth ymadawr y cyfwelwyd â hwy, roedd pump wedi sicrhau gwaith ac yn gyflogedig ar adeg y cyfweiliad. O'r rhain, roedd tri wedi sicrhau cyflogaeth gyda darparwr eu prosiect ac roedd y ddau arall wedi sicrhau gwaith yn y sectorau gofal a manwerthu yn y drefn honno. Roedd cyfwelai arall wedi sicrhau cyflogaeth mewn canolfan gwasanaeth cwsmeriaid yn syth ar ôl gadael y prosiect ond roedd yn ddi-waith ar adeg y cyfweiliad gan mai dim ond ar gontract dros dro yr oedd y swydd hon. Roedd y ddau gyfwelai a oedd yn weddill yn gwirfoddoli.
- 3.46 I'r rhai a oedd yn dal i gyfranogi yn y prosiect, roedd y mwyafrif o'r cyfweleion a'r rhai a ddaeth i grwpiau ffocws yn ddi-waith ac yn dal wrthi'n chwilio am waith. Dim ond dau a ddywedodd eu bod yn gyflogedig – roedd un yn gweithio fel gweithiwr cymorth ar gontract dim oriau gydag asiantaeth ac un arall newydd sicrhau cyflogaeth gyda chymdeithas dai. Dywedodd nifer fach (chwe chyfwelai) ei bod yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl gydag amryw sefydliadau. Roedd gan nifer fach o gyfranogwyr cyfredol gynlluniau pendant ar gyfer y dyfodol – roedd un, er enghraifft, yn bwriadu dechrau ar gwrs iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Medi yn ei choleg lleol ac roedd un arall ar fin ymgymryd â swydd yn y sector gofal, ond yn disgwyl i wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gael eu cymeradwyo cyn ymgymryd â'r rôl hon. Roedd trydydd cyfranogwr yn bwriadu dod yn hunangyflogedig fel tiwtor.

- 3.47 Roedd y rhesymau a nodwyd fel rhai a oedd yn ei gwneud yn anodd i unigolion ddod o hyd i waith ar adeg y cyfweiliad yn debyg iawn i'r rhai a nodwyd ar adeg ymuno â'r prosiect – problemau iechyd, peidio â bod â'r sgiliau cywir a phedio â bod â'r cymwysterau cywir oedd y rhai a nodwyd fynyachaf. Yn ddiddorol ddigon, roedd materion a oedd yn gysylltiedig ag alcohol a dibyniaeth ar gyffuriau wedi mynd yn llai pwysig, gan mai dim ond un unigolyn ddywedodd fod hyn yn gyfyngiad ar adeg y cyfweiliad. Roedd materion ymarferol megis peidio â bod â thrwydded yrru a chyfrifoldebau gofal plant yn fwy tebygol o gael eu henwi gan gyfranogwyr a oedd yn chwilio am waith ar adeg y cyfweiliad.
- 3.48 Roedd nifer o gyfranogwyr yn cydnabod eu bod 'ddim yn barod ar gyfer gwaith' o hyd ac yn rhagweld y byddent yn parhau â'u hyfforddiant neu waith gwirfoddoli am y tro.

Manteision y ddarpariaeth

- 3.49 Enwodd unigolion nifer o fanteision o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect. Roedd nifer o'r manteision hyn yn ddeilliannau meddal megis manteision personol a newidiadau ymddygiadol, gan gynnwys:
- manteision personol megis teimlo'n 'hapusach', 'yn well amdanaf fi fy hun', 'yn fwy digynnwrf', 'â mwy o ffocws' ac 'yn fwy cadarnhaol'. Dywedodd nifer o unigolion eu bod hefyd wedi cael budd o gael 'amser i fyfyrto' ynghylch eu sefyllfa ac o ganlyniad wedi dod o hyd i ymdeimlad o 'bwrpas', wedi cael 'hwb', wedi 'cael fy nhynnu allan o rigol' ac wedi datblygu 'diddordebau newydd'
 - trefn ddyddiol well o ganlyniad i fynychu sesiynau gwirfoddoli, hyfforddi a chynghori. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai â chaethiwed i sylweddau a materion iechyd meddwl gan bod 'y prosiect wedi rhoi rhywle i mi ddod, trefn ddyddiol sy'n ddiogel i mi...mae presenoldeb rheolaidd yn lleihau diflastod i'r eithaf...ac yn lleihau i'r eithaf y risg y byddaf yn yfed eto'. Awgrymodd unigolyn arall fod y cwrs yr oedd wedi'i fynychu'n bwysig 'dim ond i allu codi o'r gwely – bod â phwrpas'
 - perthnasoedd gwell ag eraill, megis ffrindiau a theulu. Er enghraifft, dywedodd un unigolyn fod 'fy mhlant yn dweud wrthyf eu bod wrth eu bodd gyda'u mam hunan-hyderus newydd' a dywedodd un arall fod 'fy mam-gu yn

dechrau llefain pryd bynnag yr wyf yn sôn am fy swydd, gan ei bod mor falch o'r hyn rwyf wedi'i gyflawni'

- mwy o ryngweithiadau cymdeithasol a lleihad mewn teimladau o arwahanrwydd a oedd wedi deillio o 'gwrdd â phobl newydd' a chyfranogi mewn grwpiau megis 'corau'. Fe wnaeth ychydig o unigolion amlygu pwysigrwydd bod yng ngŵydd 'pobl gadarnhaol' gan bod hyn yn cael dylanwad ar eu hwyliau a'u hagweddau
- hyder gwell o ystyried bod unigolion wedi cael eu hannog i ganolbwyntio ar eu cryfderau yn hytrach na'u gwendidau. Mewn rhai achosion, roedd hyder wedi gwella o ganlyniad i ryngweithio a 'siarad gyda phobl eraill'. Dywedodd un unigolyn na fyddai wedi cyfrannu at yr ymchwil hon oni bai am y prosiect: 'fyddech chi ddim wedi cael gair allan o'm ceg'
- gwell hunan-fri a hunan-werth. Dywedodd un unigolyn ei fod 'yn fy ngwerthfawrogi fy hun yn awr, a dydw i ddim wedi fy ngwerthfawrogi fy hun am amser hir'
- gobaith a chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd nifer o unigolion eu bod wedi dod o hyd i ymdeimlad o 'obaith' a bod ganddynt nodau ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Fe wnaeth nifer o unigolion amlygu gwerth y prosiect o ran eu helpu i bennu nodau cyraeddadwy, byrdymor. Meddai un unigolyn, 'am y tro cyntaf mewn blynyddoedd rwyf wedi dechrau edrych i'r dyfodol. Rwy'n sioncach fy ngham'.

3.50 Fe wnaeth nifer o unigolion hefyd amlygu pwysigrwydd ennill sgiliau newydd neu wella'u sgiliau o ganlyniad i'r prosiect boed yn sgiliau gwranddo neu gyfathrebu yn ogystal â sgiliau ymarferol eraill megis TG neu sgiliau chwilio am swydd. Ochr yn ochr â hyn roedd ychydig o unigolion hefyd yn meddwl bod ganddynt bellach wybodaeth well am y farchnad lafur a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'u bod, mewn rhai achosion, wedi ehangu'r meysydd yr oeddent â'u bryd ar weithio ynddynt.

3.51 O'r wyth unigolyn a oedd naill ai mewn gwaith, neu ar fin dechrau gwaith, roeddent i gyd yn meddwl bod y prosiect wedi gwneud cyfraniad pwysig iawn at eu gallu i sicrhau eu swydd. Yn achos y tri unigolyn a ganfu waith gyda darparwr y prosiect, roedd yn amlwg bod eu cymorth a hyfforddiant wedi'u galluogi i ddatblygu'r sgiliau a chymwysterau priodol i gamu ymlaen at y rolau hyn. Mewn achosion eraill, awgrymodd unigolion fod ymgynghorydd y prosiect wedi cyflawni rôl bwysig o ran

adnabod cyfleoedd gwaith iddynt gydag un yn ychwanegu bod yr ymgynghorydd wedi:

‘agor fy meddwl a’m galluogi i ehangu fy chwiliad am swydd. Go brin y byddaf wedi ystyried ymgeisio am swydd ym maes gwerthiant yn [enw’r busnes] heb yr ymyriad hwn’.

- 3.52 Roedd dau unigolyn mewn addysg neu hyfforddiant ac roedd un ar fin dechrau cwrs ar adeg y cyfweliad. Roedd y ddau unigolyn a oedd eisoes mewn addysg yn meddwl bod y prosiect wedi cyfrannu at eu hamgylchiadau cyfredol, yn yr ystyr bod y prosiect wedi rhoi iddynt yr hyder a’r anogaeth i ddilyn eu rhaglen hyfforddi gyfredol. Meddai un unigolyn: ‘Fyddwn i ddim wedi credu ym mis Ionawr pan oeddwn yn teimlo’n gorfforol sâl am dri mis y byddwn bellach yn gwirfoddoli ac yn hyfforddi. Roeddwn yn teimlo bod [enw’r ymgynghorydd] ar fy ochr i, ro’n i’n teimlo fy mod yn cael cefnogaeth...nid dim ond enw a rhif oeddwn i iddo ef’. Yn achos yr ail unigolyn, roedd y prosiect wedi adnabod yr angen i’r cyfranogwr wella’i sgiliau iaith Saesneg cyn ymgeisio am le mewn prifysgol fel bod ei gymwysterau tramor yn cael eu dilysu yn y DU ac roedd wedi ei gynorthwyo i gael mynediad at gwrs iaith IELTS. Roedd yr unigolyn a oedd ar fin dechrau cwrs mewn coleg wedi cofrestru cyn dod yn rhan o’r prosiect ond fe ychwanegodd fod ei brofiad o’r prosiect wedi atgyfnerthu ei benderfyniad, ‘a minnau bellach wedi bod ar hwn...rwy’n gwybod y gallaf ei wneud’.
- 3.53 Roedd unigolion nad oeddent mewn gwaith na hyfforddiant yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â’u rhagolygon yn y dyfodol ac yn rhagweld y byddent yn aros gyda’r prosiect nes eu bod naill ai wedi dod o hyd i swydd neu’n gallu camu ymlaen at addysg neu hyfforddiant. Roedd un yn rhagweld cael ei atgyfeirio at ffynonellau eraill ar gyfer cymorth penodol, e.e. i ddechrau busnes. Roedd nifer yn cydnabod bod y prosiect wedi bod yn allweddol i’w helpu i ddod yn fwy cyflogadwy gan bod y prosiect wedi’u helpu i fynd i’r afael â nifer o’r ffactorau a oedd yn eu dal yn ôl rhag cael gwaith. Pwysleisiodd un fod y prosiect wedi ei helpu i gyrraedd sefyllfa lle’r oedd yn meddu ar wybodaeth well ac mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau ynglŷn â’i ddyfodol.
- 3.54 Pwysleisiodd y mwyafrif llethol o gyfweleion fod y prosiect wedi gwneud cyfraniad hanfodol at eu cynnydd a’u hamgylchiadau cyfredol. Pe na baent wedi bod yn rhan o’r prosiect, roedd nifer o unigolion a gefnogwyd gan Wasanaeth Di-waith Clau yn

meddwl y byddent 'gartref' ac yn 'gwneud dim byd', yn ogystal â wynebu risg uwch o yfed alcohol neu gymryd cyffuriau drachefn.

- 3.55 Roedd unigolion a oedd yn teimlo'u bod wedi gallu gweddnwied eu bywydau'n priodoli llawer o hyn i Wasanaeth Di-waith ClaW, gan gydnabod bod rôl y prosiect wedi bod yn hollbwysig a'i fod wedi 'taflu rhaff' iddynt. Mewn un achos, awgrymodd cyfwelai 'heb y prosiect hwn byddwn wedi marw...fyddwn i ddim wedi rhoi'r gorau i yfed heb y cymorth hwn'.
- 3.56 Roedd unigolion a gafodd gymorth gan Cynhwysiant Gweithredol yn meddwl bod rôl y cymorth wedi bod yn allweddol i'r newidiadau yr oeddent wedi'u profi, gan ychwanegu 'Fyddwn i ddim wedi cyrraedd ble'r ydw i heddiw'. Yn yr un modd, roedd cyfranogwyr ACE yn meddwl bod y ddarpariaeth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at eu hamgylchiadau cyfredol, yn enwedig o ran gwella'u cyflogadwyedd a (lle nad oeddent eisoes mewn gwaith) gwella'u siawns o ddod o hyd i waith.

Defnyddio darparwyr cymorth eraill

- 3.57 Soniodd unigolion eu bod wedi cael mynediad at gymorth, cefnogaeth neu hyfforddiant gan ystod o ddarparwyr cymorth eraill dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At ei gilydd, roedd cyfweleion yn meddwl bod y cymorth yr oeddent wedi'i gael trwy'r prosiectau'n dda iawn o'i gymharu â chymorth arall a gafwyd.
- 3.58 Y ddarpariaeth a enwyd fynyachaf gan gyfweleion fel un yr oeddent wedi'i chael oedd:
- cymorth meddygol e.e. meddygon teulu, seiciatrydd
 - Canolfan Byd Gwaith
 - elusennau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig cymorth sy'n gysylltiedig â chaethiwed i sylweddau, e.e. Alcoholigion Anhysbys (AA), Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, Byddin yr Iachawdwriaeth, Cymorth i Fenywod, Cyngor Ffoaduriaid Cymru
 - asiantaethau cyflogaeth ac asiantaethau lleoliad gwaith, e.e. Remploy, Pertemps
 - darparwyr gyrfa a hyfforddiant, e.e. Gyrfa Cymru, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Sefydliadau Addysg Bellach (SAB)

- darpariaeth statudol, e.e. Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAHMS)
- gweithrediadau ESF eraill, e.e. Pontydd i Waith, Cymunedau am Waith.

Y dyfodol

- 3.59 O ran cynlluniau ar gyfer y dyfodol, roedd cyfranogwyr cyfredol yn rhagweld y byddent yn parhau â'r prosiect, gan ychwanegu eu bod yn cael yr holl gymorth y mae ei angen arnynt ar hyn o bryd. Nid oedd rhai cyfranogwyr cyfredol yn meddwl eu bod yn barod ar gyfer gwaith eto tra bo eraill â'u golygon ar yrfaedd penodol a rhagolygon gwaith penodol ar gyfer y dyfodol. Roedd eraill yn ymwybodol bod angen iddynt wneud penderfyniadau ynglŷn â pha gyfeiriad i fynd ynddo, e.e. roedd un yn ystyried a ddylai ailgydio yn ei addysg ynteu ceisio cyflogaeth ar adeg y cyfweliad.
- 3.60 Roedd gan y rhai mewn cyflogaeth ffocws ar wneud llwyddiant o hynny – gyda'r rhai mewn rolau mwy dros dro'n awyddus i ddod o hyd i swyddi mwy parhaol â chyflog gwell yn y dyfodol. Roedd unigolion yn rhagweld y gallai fod arnynt angen cymorth gyda'r broses bontio hon ac yn dweud y byddent yn gwerthfawrogi cymorth o'r fath gan y prosiectau pe bai angen.
- 3.61 O ran mathau eraill o gymorth y byddai eu hangen yn y dyfodol, fe wnaeth unigolion amlygu'r canlynol:
- byddai cyfweleion a oedd o'r farn eu bod yn symud ymlaen o ran gwaith neu hyfforddiant yn gwerthfawrogi bod â rhywun i droi atynt pe bai materion yn codi yn y dyfodol
 - byddai rhai'n gwerthfawrogi bod â mentor ar gael yn barhaus, hyd yn oed pan ydynt mewn gwaith.

4. Canfyddiadau – gweithrediadau Echel Blaenoriaeth 3

- 4.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y canfyddiadau ansoddol ar gyfer 96 o unigolion a gefnogwyd ar draws pum gweithrediad Echel Blaenoriaeth 3: STEM Cymru (35 o unigolion), Cynhwysiant Gweithredol leuenctid (chwe unigolyn), Cynnydd (22 o unigolion), TRAC 11-12 (22 o unigolion) a Go Wales (11 o unigolion). Caiff y canfyddiadau eu hystyried ar gyfer pob gweithrediad, fel y bo'n briodol.
- 4.2 Mae'n tynnu ar adborth a gasglwyd gan gyfanswm o 96 o unigolion. O'r rhain, cafodd 25 eu cyfweld yn unigol ac fe gyfranogodd 71 mewn trafodaethau grwpiau ffocws. Cafodd y rhai y cyfwelwyd â hwy yn unigol eu cefnogi gan dri gweithrediad (Cynhwysiant Gweithredol leuenctid, Cyflawni trwy Brofiad Gwaith Go Wales a TRAC) er bod adborth wedi cael ei gasglu trwy'r rhai a ddaeth i grwpiau ffocws ar gyfer dau o'r gweithrediadau hyn hefyd. Roedd y mwyafrif llethol o gyfranwyr (83 o unigolion) yn gyfranogwyr cyfredol ac roedd lleiafrif (13 o unigolion) yn ymadawyr. Roedd yr holl unigolion a ddaeth i grwpiau ffocws yn gyfranogwyr cyfredol, er eu bod, mewn nifer o achosion, yn nesáu at ddiwedd eu cwrs academiaidd oherwydd amseriad y gwaith maes.

Proffil unigolion

- 4.3 Roedd ychydig dros hanner (53 o unigolion) y rhai a gyfrannodd at yr ymchwil yn fenywod a 43 o unigolion yn ddynion. Roedd cyfran uwch o gyfweleion yn fenywod (19 allan o 25 o gyfweleion) a chwarter (chwe chyfwelai) yn ddynion. Mewn cyferbyniad, cyfrannodd nifer fwy o ddynion (37 o unigolion) at drafodaethau grwpiau ffocws o'i gymharu â menywod (34 o unigolion).
- 4.4 Roedd oedran cyfranwyr yn amrywio o 12 i 23. Roedd oedran cyfartalog y 25 o gyfweleion ychydig o dan 18 oed. Roedd oedran y rhai a ddaeth i grwpiau ffocws yn amrywio: er enghraifft, roedd unigolion a gefnogwyd gan STEM Cymru naill ai ym mlwyddyn 12 (pobl ifanc 16 – 17 oed, 24 o ddisgyblion a oedd wedi bod yn rhan o fenter Cynllun Addysg Beirianeg Cymru (CABC)) neu ym mlwyddyn 7 neu 9 (pobl ifanc 11 – 12 oed neu 13 – 14 oed, 19 o ddisgyblion a oedd wedi bod yn rhan o'r fenter Fformiwlâ 1 (F1)). Roedd oedrannau'r disgyblion ysgol a gefnogwyd gan brosiectau Cynnydd a TRAC yn amrywio o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 (11 i 16 oed), gyda'r rhai yr ymgysylltwyd â hwy ar draws lleoliadau addysg bellach (AB) yn nodweddiadol yn 17 neu 18 oed. Roedd cyfranwyr a gefnogwyd gan Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales i gyd yn fyfyrwyr addysg uwch, a hwythau rhwng 18 ac

20 oed tra bo cyfranwyr a gefnogwyr gan Cynhwysiant Gweithredol leuenctid yr un oed, sef rhwng 18 ac 20 oed.

- 4.5 Roedd y mwyafrif o'r cyfweleion (18 allan o 25 o gyfweleion) yn eu hystyried eu hunain naill ai'n Gymreig neu Brydeinig arall tra bo tri'n ystyried eu bod yn dod o gefndir gwyn arall. Roedd lleiafrif (chwe chywelai) yn ystyried eu bod o grŵp ethnig arall. Cynhaliwyd tair sesiwn grŵp ffocws yn Gymraeg ac roedd y rhain i gyd yn ymwneud â'r prosiect STEM Cymru.
- 4.6 Roedd tri chwarter y cyfweleion (19 allan o 25 o gyfweleion) yn ystyried mai Saesneg oedd eu hiaith gyntaf. Roedd un yn ystyried mai Cymraeg oedd ei iaith gyntaf a thri'n ystyried mai iaith arall oedd eu hiaith gyntaf.
- 4.7 Roedd gan draean o'r cyfweleion (naw cyfwelai) afiechyd neu broblem iechyd hirdymor neu anabledd. Mewn saith achos roeddent o'r farn bod hyn yn effeithio ar faint o waith neu'r math o waith y gallent ei wneud.
- 4.8 Roedd traean o'r cyfweleion (wyth allan o 25 o gyfweleion) yn ymwybodol bod ESF wedi helpu i dalu am y ddarpariaeth.

Cefndir

- 4.9 Roedd y mwyafrif o unigolion y cyfwelwyd â hwy neu a gyfranogodd yn nhrafodaethau grwpiau ffocws yn dal mewn, neu'n nesáu at ddiwedd, addysg neu hyfforddiant (89 o unigolion). O'r rhain, roedd 66 o unigolion yn yr ysgol, roedd 12 yn y coleg ac roedd 11 yn y brifysgol. Roedd ychydig (saith unigolyn) yn ddi-waith ac yn chwilio am waith ac roedd pob un o'r chwe chyfranogwr a gefnogwyd gan Cynhwysiant Gweithredol leuenctid yn perthyn i'r categori hwn.

STEM Cymru

- 4.10 Roedd yr holl rai a gefnogwyd gan CABC ac F1 a ddaeth i'r grwpiau ffocws mewn ysgolion uwchradd prif ffrwd. Roedd y cyfranogwyr a gefnogwyd gan CABC i gyd yn ddisgyblion Blwyddyn 12 tra bo'r disgyblion a gefnogwyd gan F1 yn amrywio o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 9. Roedd y mwyafrif o'r rhai a gefnogwyd gan F1 a ddaeth i'r grwpiau ffocws (11 allan o 13) a chwarter y rhai a gefnogwyd gan CABC a ddaeth i'r grwpiau ffocws (chwech allan o 24 o gyfranwyr) yn fenywaidd.

Cynnydd a TRAC

- 4.11 Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC yn mynychu ysgol brif ffrwd. Roedd nifer fach yn mynychu unedau ymddygiad neu gymorth

disgyblion naill ai mewn ysgol brif ffrwd neu mewn uned cyfeirio disgyblion (UCD). Mewn rhai achosion, roedd disgyblion wedi cael eu hatgyfeirio at yr unedau hynny oherwydd problemau ymddygiad yn eu hysgol brif ffrwd flaenorol.

- 4.12 Roedd yr holl gyfranogwyr o AB a gefnogwyd gan Cynnydd yn fyfyrwyr blwyddyn gyntaf a hwythau wedi pontio'n ddiweddar o ysgolion uwchradd lleol. Roedd cyfranogwyr o AB a gefnogwyd gan TRAC yn astudio ystod o gymwysterau o gymwysterau BTEC Lefel 1 i Lefel 3, ac roedd rhai wedi camu ymlaen at hyfforddeiaeth wrth gael y cymorth. Roedd dysgwyr yn cofio iddynt gael profiadau negyddol o addysg yn yr ysgol ac yn ystyried eu bod wedi gadael ag ychydig iawn o gymwysterau TGAU. Nododd cwpl eu bod wedi ei chael yn anodd yn yr ysgol oherwydd materion ymddygiadol a materion iechyd meddwl. Roedd nifer yn teimlo'u bod wedi mynd gyda'r llif i'r coleg gan mai dyna oedd y cam amlwg nesaf, ond nid oedd ganddynt gynllun amlwg o ran yr hyn yr oedd arnynt eisiau ei wneud ar ôl gadael yr ysgol.
- 4.13 Roedd un cyfwelai a gefnogwyd gan TRAC, a oedd yn ddisgybl cofrestredig gyda gwasanaeth cynhwysiant yr awdurdod lleol ac yn cael gwersi gartref, yn cael ei gynorthwyo i ddod o hyd i swydd ar adeg y gwaith maes. Roedd y disgybl hwn wedi gadael addysg brif ffrwd yn ystod Blwyddyn 8 ac wedi dod i gysylltiad â'r prosiect o ganlyniad i atgyfeiriad gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- 4.14 Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC nad oeddent yn mwynhau'r ysgol a'u bod wedi cael trafferth gyda'u pynciau academiaidd. Dywedodd ychydig o ddisgyblion iau eu bod wedi ei chael yn anodd pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Roedd dynaid o ddisgyblion wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'u hysgol flaenorol neu wedi cael eu symud i ysgol arall. Roedd nifer o ddisgyblion hefyd yn cydnabod eu bod wedi'u cael eu hunain i drafferth a'u bod mewn perygl o gael eu gwahardd.
- 4.15 Dywedodd nifer o ddisgyblion eu bod wedi profi anawsterau yn yr ysgol a'u bod yn cael trafferth gyda'u hastudiaethau:
- 'mae'n gas gen i'r ysgol'
- 'mae'r athrawon yn mynd ar fy nerfau a dydyn nhw byth yn gwrando'.

Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales

- 4.16 O'r 11 cyfwelai a gefnogwyd gan Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales, roedd saith yn gyfranogwyr cyfredol a phedwar yn ymadawyr. Roeddent yn amrywio o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf i fyfyrwyr blwyddyn olaf. Roedd un yn fyfyrwr ôl-raddedig. Roeddent mewn pedair prifysgol: Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.
- 4.17 Roedd bron pob unigolyn wedi mynychu'r brifysgol yn syth ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg ac yn dweud eu bod wedi ennill cymwysterau Safon Uwch. Dywedodd ychydig eu bod wedi ennill cymwysterau eraill megis Diploma Estynedig neu gymhwyster cyfwerth gan Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) neu ddyfarniad tramor arall.
- 4.18 Dim ond un o'r rhai y cyfwelwyd â hwy oedd wedi cael unrhyw brofiad gwaith blaenorol cyn dod yn rhan o'r prosiect ac roedd hyn yn cynnwys gwaith rhan-amser i ategu incwm myfyriwr. Yn wir, cafodd diffyg profiad gwaith blaenorol o unrhyw fath ei enwi fel prif ffactor a oedd wedi cymhell pobl i fod yn rhan o'r prosiect GO Wales.
- 4.19 Nododd y rhan fwyaf o gyfranwyr eu bod wedi dioddef rhyw fath o faterion personol a materion a oedd yn gysylltiedig ag iechyd, megis agoraffobia, iselder, anorecsia, gorbryder, swildod a hyder isel. Roedd ychydig yn cael eu cwrs yn her ac yn un sy'n gofyn llawer ac roeddent yn cael trafferth mewn rhai achosion gyda gofynion gwaith cwrs ac arholiadau. Er gwaethaf hyn, roedd cyfweleion yn mwynhau eu cyrsiau gan mwyaf ac mewn nifer o achosion roeddent yn bwriadu mynd ymlaen i ennill gradd Meistr mewn maes cysylltiedig.

Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid

- 4.20 Roedd pob un o'r chwe chyfranogwyr a gefnogwyd gan Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid yn ddi-waith pan ddaethant yn rhan o'r prosiect. Roeddent wedi gadael yr ysgol neu'r coleg ar wahanol adegau, a hwythau wedi ennill cymysgedd o gymwysterau a oedd yn amrywio o 'gymysgedd da o gymwysterau TGAU' i 'ddim cymwysterau TGAU'. Roedd pedwar wedi mynd ymlaen i astudio Safon Uwch yn wreiddiol ond heb barhau â'r llwybr hwn am wahanol resymau – mewn dau achos, dewisodd unigolion ddilyn cyrsiau yn y coleg AB lleol ond nid oedd hyn wedi gweithio iddynt. Mewn un achos, gofynnwyd i unigolyn adael y coleg oherwydd presenoldeb gwael. Ar y cyfan, nid oedd cyfranwyr wedi mwynhau eu hamser yn yr ysgol na'r coleg:

‘Fe ges i amser ofnadwy; ro’n i wir yn ei gasáu’

‘Ro’n i wir yn casáu rhai o’r pynciau a doeddwn i ddim yn gweld diben mynychu bob dydd. Roedd yn boenus’

‘Roedd y coleg yn uffern i mi ac roeddwn i mewn lle gwael ar ôl hynny’.

- 4.21 Nid oedd yr un o’r cyfranwyr wedi gweithio’n flaenorol ac roeddent yn ei chael yn anodd sicrhau gwaith oherwydd ffactorau megis diffyg profiad, diffyg hyder a diffyg cymwysterau:

‘Doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i unrhyw swyddi yr oeddwn yn gymwys i’w gwneud gan nad oes cymwysterau TGAU gen i o gwbl na phrofiad o weithio – doedd gen i ddim syniad sut i gael swydd â CV mor wag. Roedd yn ddiflas’.

- 4.22 Roedd rhai unigolion yn wynebu heriau ychwanegol hefyd megis byw mewn llety gwarchodol a bod heb gymorth teuluol o’u cwrmpas. Soniodd rhai unigolion am rwystrau a oedd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael, gorbryder ac awtistiaeth. Er enghraifft, meddai un:

‘Prin yr oeddwn yn gadael fy fflat...roeddwn i wedi fy ynysu ac yn methu â wynebu’r byd’.

Dod yn rhan o’r prosiect

STEM Cymru

- 4.23 Roedd pawb a gefnogwyd gan STEM Cymru a ddaeth i’r grwpiau ffocws wedi clywed am y prosiect trwy eu hysgolion, naill ai’n uniongyrchol gan eu hathrawon neu o ganlyniad i ddisgyblion blaenorol a oedd wedi bod yn rhan o’r prosiect. Roedd disgyblion a oedd yn rhan o’r elfen CABC o Stem Cymru wedi dod yn rhan ohoni mewn ffyrdd ychydig yn wahanol – mewn un ysgol roedd y prosiect wedi cael ei wreiddio yng ngwaith cwrs Ffiseg Blwyddyn 12 tra bo ysgolion eraill wedi cynnig y prosiect i unrhyw ddisgybl oedd â diddordeb. Mewn un achos, roedd yr ysgol wedi dethol cyfranogwyr yn dilyn proses gyfweld. Ym mhob achos, roedd y prosiect wedi cael ei dargedu at ddisgyblion galluog a diwyd, yn bennaf oherwydd yr ymrwymiad ychwanegol o ran amser a gwaith yr oedd yn ei olygu.
- 4.24 Ar gyfer y prosiect F1, roedd disgyblion blwyddyn 7 wedi cael eu cyflwyno i’r prosiect yn gynnar yn nhymor y gaeaf. Roedd rhai disgyblion hŷn, megis y rhai ym

Mlwyddyn 9, wedi bod yn rhan o'r prosiect mewn blynyddoedd blaenorol – mewn rhai achosion yn ystod eu hamser yn yr ysgol gynradd.

- 4.25 Roedd gan athrawon Dylunio a Thechnoleg rôl allweddol o ran hysbysu disgyblion ynghylch y prosiect F1 ond roedd gan ddisgyblion hŷn, a oedd wedi bod yn rhan ohono'n flaenorol, rôl hefyd. Mewn un achos, roedd disgyblion yn cofio cael cyflwyniad gan ymwelydd allanol am y prosiect. Mae ysgolion yn mabwysiadu dulliau gwahanol o ddethol disgyblion ar gyfer y prosiect – mewn un ysgol roedd disgyblion mewn un dosbarth wedi cael eu dethol ar hap ac wedi cael dewis a oeddent am gyfranogi ai peidio. Mewn ysgol arall, roedd pob disgybl ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 wedi cael eu hannog i fod yn rhan o gamau cychwynnol y prosiect, gan ei fod wedi cael ei ymgorffori mewn gwersi Dylunio a Thechnoleg, gyda dim ond rhai grwpiau'n mynd ymlaen i'r cam cystadleuol. Mewn ysgol arall, roedd yr un grŵp o ddisgyblion wedi bod yn rhan o'r prosiect dros nifer o flynyddoedd, gydag aelodau newydd o'r tîm yn cael eu tynnu i mewn yn ôl y gofyn.
- 4.26 Dywedodd unigolion a oedd yn rhan o'r elfen CABC o'r prosiect STEM Cymru mai un o'r ffactorau pwysig a wnaeth eu cymell i fod yn rhan ohoni oedd y cyfle yr oedd yn ei gynnig i ddangos, trwy eu cais UCAS⁶, y profiadau ychwanegol yr oeddent wedi'u cael wrth ymgeisio am le mewn prifysgol. I eraill, roedd y prosiect yn cynnig cyfle cyffrous i ymwneud â pheirianeg, yn enwedig y rhai a oedd yn ystyried gwneud gradd yn y pwnc tra bo eraill wedi cael eu denu gan y cyfle yr oedd y prosiect yn ei gynnig i weithio gyda diwydiant.
- 4.27 Dywedodd disgyblion a oedd wedi bod yn rhan o'r elfennau F1 o'r prosiect STEM Cymru eu bod wedi dod yn rhan o'r prosiect am eu bod yn meddwl ei fod yn 'brosiect cŵl iawn' a'i fod yn brofiad yr oeddent yn disgwyl ei fwynhau. Daeth rhai disgyblion yn rhan o'r prosiect am eu bod yn awyddus i wneud gweithgareddau allgyrsiol. Dywedodd eraill eu bod am brofi a dysgu am dechnoleg a pheirianeg: roedd cyfranwyr benywaidd yn enwedig yn ystyried bod hwn yn faes newydd iddynt ei archwilio.
- 4.28 Nid oedd yr un o'r disgyblion a oedd wedi ymgysylltu â'r naill elfen neu'r llall o'r prosiect STEM Cymru wedi disgwyl i'r prosiect fynd i'r afael ag unrhyw faterion personol yr oeddent yn eu hwynebu. Yn wir, roedd adborth gan staff addysgu'n

⁶ Y Gwasanaeth Derbyn i Brifysgolion a Cholegau.

awgrymu bod y rhai a oedd yn dod yn rhan o'r prosiect yn tueddu i fod y rhai mwyaf galluog a thalentog o'u blwyddyn ysgol.

- 4.29 Ar gyfer y rhan CABC o'r prosiect STEM Cymru, gall unigolion ddisgwyl gweithio gyda pheirianwyr proffesiynol mewn lleoliad diwydiannol, er mwyn cael profiad o yrfa ym maes STEM. Mae timau o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn cael problem go iawn ac mae disgwyl iddynt ymchwilio a dylunio datrysiad, prototeip neu fodel priodol. Fel rhan o'u profiad maent yn mynd i ddigwyddiad croeso cychwynnol, sesiwn weithdy ac mae disgwyl iddynt gyflwyno adroddiad ar eu prosiect dros un flwyddyn academiaidd. Maent hefyd yn mynd i ddigwyddiad gwobrwyo ar y diwedd.
- 4.30 Mae natur prosiectau ymchwil CABC yn amrywio, a dywedodd disgyblion eu bod wedi gweithio ar brosiectau megis sut y gallai cwmni peirianeg sifil leihau ei allyriadau carbon deuocsid, sut y gallai cwmni morol gasglu ynni'r tonnau a sut y gallai cwmni gweithgynhyrchu ddatblygu teil a allai drosglwyddo ynni sain ac ynni dirgrynol yn ynni y gellid ei storio trwy ddyfeisiau megis ffonau a batris.
- 4.31 Roedd y prosiect F1 fel rhan o'r cynllun STEM Cymru yn golygu dylunio a gweithgynhyrchu ceir rasio model gan ddefnyddio meddalwedd Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD). Roedd disgyblion yn dehongli'r amcan hwn fel 'adeiladu car model a gwneud iddo fynd mor gyflym â phosibl'. Roedd hyn yn golygu dylunio, adeiladu a phrofi natur aerodynamig y car cyn cystadlu yn erbyn timau o ysgolion eraill. Fel rhan o'r cam cystadleuol roedd yn ofynnol i ddisgyblion ddatblygu portffolio llawn o wybodaeth a chyflwyno'u prosiect i banel o feirniaid. Roedd aelodau o dimau'n aml yn cymryd cyfrifoldeb am wahanol elfennau o'r prosiect, gan dynnu ar gryfderau penodol megis dylunio, celfwaith neu sgiliau cyfathrebu. Nodwyd fod cystadlaethau'n cael eu cynnal yn rhanbarthol cyn bod timau llwyddiannus yn mynd ymlaen i ddigwyddiadau cenedlaethol ac yna rhyngwladol.
- 4.32 Bu rhai disgyblion a gymerodd ran ym mhrosiect F1 STEM Cymru yn gweithio ar y prosiect yn ystod eu gwersi Dylunio a Thechnoleg tra bo eraill wedi gwneud hynny yn ystod amser cinio. Amcangyfrifwyd fod disgyblion yn treulio 60 awr ar y cyfan dros flwyddyn academiaidd yn gweithio ar y prosiect.

Cynnydd a TRAC

- 4.33 Yn achos y prosiectau Cynnydd a TRAC, roedd disgyblion ysgol wedi dechrau gweithio gyda'u gweithiwr Cynnydd tra'u bod mewn ysgol brif ffrwd neu wedi'u cyfeirio at uned ymddygiadol benodol mewn ysgol arall. Roeddent yn aml wedi cael eu hatgyfeirio at y prosiect gan athro/athrawes neu wedi cwrdd â'r gweithiwr prosiect tra'r oeddent yn treulio amser 'ar wahân' yn ardal bwrpasol yr ysgol ar gyfer amser allan:

'Fe ddechreuais i siarad gyda'r bobl pan oeddwn i lawr yma yn treulio amser ar wahân...roedd i lawr yma gryn dipyn...ac maen nhw wedi bod yn wych'.

'Siaradodd athro gyda mi am ei fod yn gallu gweld bod gen i broblem. Awgrymodd fy mod yn ymweld â'r ganolfan am sgwrs, ac yna fe symudodd pethau ymlaen o'r fan honno.

- 4.34 Yn achos disgyblion AB, roedd unigolion wedi dod yn rhan o Cynnydd neu TRAC trwy ystod o lwybrau – mewn rhai achosion roeddent wedi dod yn rhan o'r prosiect o ganlyniad i fynd i drafferth, mewn achosion eraill ar ôl cael eu hatgyfeirio gan diwtor ac mewn achosion eraill wedi i weithiwr Cynnydd neu TRAC fynd atynt yn uniongyrchol.

- 4.35 Ym mhob achos, roedd disgyblion a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC yn ymdrin ag ystod eang o faterion personol neu ymddygiadol a oedd yn effeithio ar eu gallu i fynychu ac ymgysylltu â'r ysgol neu'r coleg. Roedd y materion cyffredin a enwyd gan ddisgyblion yn cynnwys gorbryder, straen, hyder isel, bwlio, paranoia, dicter, pyliau o banig, hunan-fri isel, anawsterau a oedd yn gysylltiedig ag anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD), ymgysylltiad gwael yn yr ysgol ac anawsterau gartref. Siaradodd ychydig o ddisgyblion hefyd am anawsterau 'bod yn rhan o'r criw' yn yr ysgol a soniodd nifer o ddisgyblion eu bod wedi 'bod mewn trafferth' yn yr ysgol, boed trwy ymladd gyda disgyblion eraill neu ffraeo gydag athrawon:

'Ers Blwyddyn 7 mae fy agwedd tuag at athrawon wedi bod yn wael iawn a doeddwn i'n syml ddim am fod yma'

'Doeddwn i ddim yn gallu ymgodymu â rhai o'r athrawon ac mi fyddwn i'n syml yn achosi llawer o broblemau yn y dosbarth.'

- 4.36 Roedd disgyblion a gefnogwyd gan TRAC sydd mewn AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi dod yn rhan o'r prosiect am bod arnynt angen help gyda'u hastudiaethau, er bod llawer yn cydnabod bod hyn wedi cael ei sbarduno gan faterion ac amgylchiadau personol. Er enghraifft, dywedodd cyfranogwyr:
- 'Ro'n i wedi cael fy nghicio allan o'm tŷ, ro'n i'n ddigartref, felly doedd dysgu ddim ar frig fy rhestr a dweud y gwir'
- 'roedd fy mam wedi marw, ond doeddwn i ddim yn chwilio am gymorth cwnsela, dim ond rhywun i siarad gyda nhw a chymorth i ddod o hyd i'r trywydd cywir gyda fy ngwaith.
- 4.37 Roedd disgyblion wedi profi ystod o weithgareddau strwythuredig fel rhan o'r prosiectau Cynnydd a TRAC. Ar rai achlysuron, roedd amserlenni disgyblion wedi cael eu haddasu i wneud lle i'r gweithgareddau hyn. Yn achos disgyblion ysgol, roedd gweithgareddau'n amrywio o weithgareddau awyr agored fel beicio mynydd, cyfeiriannu, dringo creigiau, crwydro, gwersylla a chaiacio, i amryw weithgareddau crefft, goroesi a chymorth cyntaf mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol. Roedd y darpariaethau hyn yn aml yn cael eu darparu gan ddarparwyr allanol ac roeddent wedi'u teilwra i ddiddordebau'r disgybl i ryw raddau. Yn achos myfyrwyr colegau, roedd y prosiect wedi cynnig y cyfle iddynt gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol, cyrsiau megis ymwybyddiaeth ofalgar a sesiynau lles, yn ogystal â mynediad at gwnselwyr i gael cymorth gyda materion megis rheoli dicter.
- 4.38 Fe wnaeth disgyblion ysgol a gefnogwyd gan TRAC grybwyll hefyd eu bod wedi gallu ymweld â choleg AB ar gyfer sesiynau blas ar waith mewn meysydd pwnc megis gwallt a harddwch neu ofal am anifeiliaid.
- 4.39 Roedd un disgybl a gefnogwyd gan Cynnydd wedi dilyn rhaglen hyfforddi strategol a oedd ar gael trwy'r Coleg Paratoi Milwrol (CPM) dros gyfnod o 18 mis a arweiniodd at gymwysterau. Roedd gan y disgybl hwn ddiddordeb mewn ymuno â'r fyddin ac ar ôl sicrhau pedwar cymhwyster TGAU trwy'r ddarpariaeth roedd wedi sicrhau lle hyfforddi ar gwrs milwrol. Meddai'r disgybl, 'heb Cynnydd dydw i ddim yn meddwl y byddwn wedi sylweddoli cymaint yr oedd arnaf eisiau ymuno â'r fyddin'.
- 4.40 Roedd nifer o ddisgyblion wedi mynychu sesiynau grŵp a gafodd eu rhedeg gan weithwyr Cynnydd a TRAC. Roedd y rhain yn rhoi sylw i faterion megis perthnasoedd cadarnhaol, bwyta'n iach, cyffuriau ac alcohol a rheoli dicter. Dywedodd disgyblion ysgol a gefnogwyd gan TRAC eu bod wedi mynychu ystod

eang o sesiynau cymorth ar gyfer grwpiau a oedd yn rhoi sylw o les cyffredinol, ymlacio, meithrin hyder, hunan-fri, rheoli dicter, delwedd y corff, y cyfryngau cymdeithasol a gemau electronig.

4.41 Dywedodd dyrnaid o ddisgyblion eu bod hefyd wedi cael profiad gwaith a drefnwyd gan y prosiect. Soniodd un disgybl a gefnogwyd gan Cynnydd am gael profiad gwaith mewn crèche ac roedd yn bwriadu mynychu'r lleoliad hwn am un diwrnod yr wythnos. Dywedodd dau ddisgybl a gefnogwyd gan TRAC eu bod wedi cael sesiynau profiad gwaith mewn salon gwallt.

4.42 Hefyd, roedd disgyblion mewn ysgolion a cholegau yn gallu cael mynediad at gymorth emosiynol, bugeiliol gan eu gweithiwr Cynnydd a TRAC. Yn y coleg, roedd disgyblion mewn cyswllt rheolaidd â thîm Cynnydd, a hwythau'n aml yn 'galw heibio i'w gweld bob dydd'. Roedd y cymorth bugeiliol yn rhoi cyfle i ddisgyblion drafod materion a chael mynediad at le diogel i 'fwrw bol'. Yn yr un modd, soniodd disgyblion ysgol yn rheolaidd iddynt gael cyfleoedd i siarad gyda gweithwyr Cynnydd a TRAC i drafod problemau, leihau sefyllfaoedd a dysgu technegau ymdopi i ymdrin â heriau yn y dyfodol:

'Fe siaradais gyda [enw'r ymgynghorydd] am bethau oedd yn digwydd gartref a oedd yn peri loes i mi. Roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell wedyn ac rwy'n gallu ymdopi'n well â hwy yn awr'

'Fe allwn i siarad gyda hi am unrhyw beth, rwy'n ymddiried ynddi. Fi oedd yn penderfynu am beth oeddem ni'n siarad. Nid oedd yn ddiflas. Roedd yn hwyl. Fe helpodd [Enw'r ymgynghorydd] fi orau y gallai'.

4.43 Yn achos y prosiect TRAC, soniodd myfyrwyr AB a disgyblion ysgol fel ei gilydd fod ganddynt slot wythnosol wedi'i neilltuo ar gyfer cwrdd â gweithiwr TRAC i drafod materion ac, yn achos y lleoliad AB, i gael cymorth gydag astudiaethau, e.e. help gydag aseiniadau. Roedd rhai disgyblion AB wedi dilyn cwrs 'Kickstart' lefel Mynediad hefyd a ddisgrifiwyd fel cwrs tridiau yr wythnos a oedd yn cynnwys gwersi academiaidd (e.e. Saesneg a Mathemateg) yn ogystal â sesiynau blas ar alwedigaeth.

Cyflawni trwy brofiad gwaith GO Wales

4.44 Roedd cyfweleion wedi clywed am y prosiect trwy ystod o ddulliau gan gynnwys e-gylchlythyrau, gwybodaeth ar wefannau prifysgolion, arddangosfeydd hyrwyddo a sgysiau gyda thiworiaid a staff cymorth i fyfyrwyr.

- 4.45 Ym mhob achos roedd unigolion wedi cwrdd â'u priod swyddog prosiect i drafod eu diddordebau a meysydd posibl ar gyfer profiad gwaith ar y dechrau. Roedd y prosiect yn cynnwys gwahanol fathau o leoliadau, gan gynnwys cysgodi gwaith (hyd at dridiau o brofiad gwaith di-dâl), blas ar waith (hyd at bedair wythnos o brofiad gwaith di-dâl) a lleoliad gwaith (pedair i chwe wythnos o brofiad gwaith â thâl).
- 4.46 Roedd unigolion wedi cael ystod eang o brofiadau cysgodi a phrofiadau gwaith megis:
- cynorthwyo clwb nofio lleol â gwaith dadansoddi data nofio
 - cysgodi therapydd galwedigaethol mewn prifysgol leol
 - profiad gwaith mewn llyfrgell leol
 - profiad gwaith mewn siop lyfrau leol
 - profiad gwaith yn adran cynllunio tref awdurdod lleol
 - profiad gwaith mewn cwmni dylunio graffigol
 - profiad gwaith mewn mudiad elusennol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau corfforol a meddyliol
 - profiad gwaith mewn cymdeithas dai ac elusen iechyd meddwl.
- 4.47 Dywedodd unigolion fod yr amser a dreuliwyd ar brofiad cysgodi a phrofiad gwaith trwy'r prosiect yn amrywio o ychydig ddiwrnodau i 'unwaith yr wythnos am chwe wythnos' a '24 diwrnod' mewn achos arall. Roedd rhai unigolion wedi cael y profiad cysgodi gwaith cychwynnol ond heb gamu ymlaen at yr ail na'r trydydd camau a oedd ar gael trwy'r prosiect, yn bennaf oherwydd y ffaith mai dim ond yn ystod eu blwyddyn astudio olaf yr oeddent wedi ymgysylltu â'r gweithrediad a bod diffyg amser i wneud profiad gwaith pellach. Cynigiwyd rhesymau eraill gan ddau gyfrannwr: awgrymodd un mai'r rheswm dros hyn oedd eu bod 'heb estyn allan' am fwy o brofiadau tra bo un arall wedi dweud bod y profiad gwaith wedi cael ei derfynu oherwydd newidiadau staffio yn y sefydliad lletyol.
- 4.48 Roedd unigolion yn ymwybodol mai un o'r prif heriau wrth geisio dod o hyd i gyfleoedd profiad gwaith addas oedd yr angen i'r prosiect ddod o hyd i gyfleoedd cymharol leol i leihau'r angen i deithio. Y prosiect oedd yn talu costau cludiant ac roedd hyn yn cael ei werthfawrogi.

Cynhwysiant Gweithredol Ieuencid

- 4.49 Roedd y rhan fwyaf o unigolion wedi clywed am eu prosiect Cynhwysiant Gweithredol leuencid trwy eu Hanogwr Gwaith yn y Ganolfan Waith leol tra bo eraill wedi clywed amdano trwy eu gweithiwr cymdeithasol neu eu ffrindiau. Un o'r ffactorau pwysig a oedd wedi cymhell pobl i fod yn rhan o'r prosiect oedd y byddai'n eu paratoi ar gyfer gwaith ac, yn y pen draw, yn eu helpu i ddod o hyd i waith. Roedd nifer o unigolion yn cydnabod bod angen help arnynt i wella eu sgiliau bywyd ac roedd cyfranogwyr yn ymwybodol hefyd eu bod yn cael trafferth gyda hyder personol ac iechyd meddwl gwael. Roedd yr amgylchedd anffurfiol, hamddenol yn lleoliadau darparwyr yn apelio at gyfranogwyr ac roeddent yn ystyried bod cyferbyniad cryf rhwng hyn a'r amgylchedd 'amhersonol' a 'brysiog' Canolfannau Byd Gwaith.
- 4.50 Roedd y ddarpariaeth a gafodd unigolion yn amrywio o un darparwr i'r llall. Er enghraifft, mewn un achos, roedd unigolion wedi cyfranogi mewn cwrs cyfansoddi cerddoriaeth wythnos o hyd tra bo cyfranogwyr mewn achos arall wedi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau megis celf a chrefft, yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi.
- 4.51 Cafodd unigolion gymorth gyda'u datblygiad personol i ddatblygu sgiliau bywyd a gwneud ffrindiau newydd. Cafodd unigolion gymorth i chwilio am waith hefyd, gan gynnwys datblygu CV, chwilio am swydd, ymgeisio am waith a pharatoi ar gyfer cyfweiliad. Yn achos un darparwr, cafodd unigolion wybodaeth am amrywiaeth a chydraddoldeb yn y gweithle hefyd.
- 4.52 Roedd ychydig o unigolion wedi cael cyfleoedd hyfforddi dwys iawn fel rhan o'r prosiect. Er enghraifft, roedd un cyfranogwr wedi cwblhau cwrs tri mis mewn canolfan sgiliau awyr agored a oedd wedi ei alluogi i ddatblygu ystod o sgiliau gwaith coed ac adeiladu. Roedd eraill wedi gwneud gwaith gwirfoddoli gwerthfawr.

Bodlonrwydd ar y prosiect

STEM Cymru

- 4.53 Ar gyfer yr elfen CABC o'r prosiect STEM Cymru, roedd unigolion yn meddwl bod eu profiad wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd unigolion yn cydnabod bod y prosiect wedi rhoi 'galwadau mawr' ar eu hamser a'u galluoedd ond serch hynny roedd wedi rhoi profiadau newydd a gwahanol iddynt. Roedd rhai unigolion yn amlwg yn fwy brwdfrydig ynghylch gwerth y prosiect na'i gilydd. Prif gryfderau'r prosiect yn eu tyb hwy oedd natur ymarferol y gwaith a'r cyfle i ddylunio, creu a

phrofi cynhyrchion newydd. Roedd rhai unigolion wedi mwynhau a gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymweld â phrifysgolion a busnesau allanol, yn enwedig gallu gwneud hynny ar adeg pan oeddent yn ystyried eu hopsiynau ar gyfer y dyfodol.

- 4.54 Hefyd, yn achos yr elfen CABC o'r prosiect STEM Cymru, roedd unigolion yn meddwl eu bod wedi gallu datblygu sgiliau rheoli prosiectau. Roedd hefyd yn wir bod unigolion yn meddwl bod y prosiect yn gyfle da i ddangos eu bod yn bodloni Her Menter a Chyflogadwyedd Bagloriaeth Cymru, o ystyried bod y prosiect wedi cael ei gymeradwyo gan CBAC⁷ fel gweithgaredd cymwys.
- 4.55 Roedd disgyblion a fu'n rhan o'r elfen F1 o'r prosiect STEM Cymru wedi mwynhau'r profiad yn aruthrol ac wedi'i gael yn un boddhaus.
- 'mae'n brofiad anhygoel i ni i gyd. Rydym yn ei fwynhau shwt gymaint. Mae'n llawer o waith i'w wneud ond weithiau nid yw'n teimlo fel llawer o faith gan ei fod yn bleserus.'
- 4.56 Nid oedd un grŵp wedi deall faint o ymdrech fyddai ei angen er mwyn llwyddo yn ystod cam cystadleuol y prosiect ac roedd y gystadleuaeth gref yn y digwyddiad beirniadu rhanbarthol wedi bod braidd yn annisgwyl. Er gwaethaf hyn, roedd y disgyblion i gyd wedi mwynhau'r digwyddiadau cystadleuol a oedd yn cynnwys cyflwyniad i'r panel beirniadu ac arddangos eu portffolio.
- 4.57 Roedd unigolion yn meddwl mai cryfder allweddol y prosiect F1 oedd y cysylltiadau a grëwyd â'r diwydiant a sefydliadau AB, megis gweithio gyda chwmni i helpu gyda'r brandio. Roedd y brif broblem gyda bod yn rhan o'r prosiect, yn ôl dau grŵp ffocws, yn ymwneud â'u camddehongliad o reoliadau'r prosiect o ran y pwysau gofynnol ar gyfer ceir a ddyluniwyd, yr oedd unigolion yn meddwl mewn un achos ei fod wedi arwain at gyflymder ac amser arafach. Anfantais arall, ym marn un grŵp ffocws, oedd yr angen i daro cydbwysedd rhwng y prosiect a gofynion gwersi eraill, gan eu bod wedi datblygu eu prosiect yn ystod gwersi pwnc technoleg.
- 4.58 Dywedodd disgyblion a fu'n rhan o'r prosiect F1 eu bod wedi cael tystysgrifau cyflawniad ar y diwedd a'u bod o'r farn bod hyn yn bwysig er mwyn iddynt fod â chofnod o'u hymwneud a'u cyflawniad. Soniodd disgyblion hyn y byddai hyn yn bwysig iddynt ei gynnwys ar eu ffurflenni UCAS wrth ymgeisio am le i astudio mewn prifysgol.

⁷ Cydbwyllgor Addysg Cymru.

Cynnydd a TRAC

- 4.59 Roedd disgyblion yn fodlon iawn ar eu profiadau o'r prosiectau TRAC a Cynnydd ac yn y rhan fwyaf o achosion roeddent yn credu eu bod wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau a'u haddysg. Siaradodd disgyblion ysgol yn frwdfrydig am y gwahanol gyfleoedd a gweithgareddau yr oeddent wedi'u profi fel rhan o'r prosiect, gyda'r rhain yn aml yn digwydd oddi ar safle'r ysgol.
- 4.60 Roedd disgyblion ysgol yn arbennig yn gwerthfawrogi bod â lle diogel y gallent gilioddo pan oeddent yn wynebu anawsterau a materion yn yr ysgol. Roedd hefyd yn wir bod disgyblion yn gwerthfawrogi gallu datrys eu materion yn breifat, yn hytrach na chael yr un drafodaeth gydag athro/athrawes o flaen y dosbarth.
- 'Mae'n amgylchedd braf, tawel, heddychlon, ac rydych chi'n gwybod, beth bynnag fo'r broblem, gallwch ddod lan yma, ymlacio a siarad am bethau gyda rhywun a fydd yn gwranddo'.
- 4.61 Fodd bynnag, nid oedd mynediad at gyfleusterau preifat ar gael ar bob safle a chafodd hyn ei amlygu fel anfantais yn un lleoliad. Siaradodd disgyblion AB a gefnogwyd gan TRAC am y diffyg ystafell breifat lle gallent gwrdd â'u gweithiwr cymorth ar gyfer eu sesiwn unigol ac am deimlo'n anghysurus yn cyfranogi yn eu sesiwn yn llyfrgell y coleg.
- 4.62 Fodd bynnag, prif gryfder y prosiect oedd y mewnbwn a oedd ar gael trwy weithwyr Cynnydd a TRAC. Cafodd gweithwyr prosiect eu canmol am eu dull ac fe wnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion sylwadau am y perthnasoedd agos a llawn ymddiriedaeth yr oeddent wedi'u sefydlu. Fe wnaeth myfyrwyr coleg yn benodol bwysleisio sut yr oeddent yn teimlo'u bod yn gallu ymddiried mewn staff, ac roedd hyn yn eu galluogi i siarad yn agored am eu gofidiau a'u problemau. Dywedodd disgyblion yn aml fod gweithwyr prosiect yn barod i wrando a chynnig cyngor:
- 'I ddechrau doeddwn i ddim am siarad am bethau; ond trwy ddod i adnabod y bobl rwyf wedi gallu agor allan a dechrau siarad am bob math o bethau. Mae wir wedi fy helpu'n fawr'
- 'Doeddwn i ddim yn siŵr ynglŷn â chwnsela i ddechrau...dydw i ddim yn dda am agor allan, ond wedyn fe ddechreuais i agor allan ac fe weithiodd rywfaint.'
- 4.63 Roedd y perthnasoedd parhaus a oedd yn bodoli rhwng disgyblion a gweithwyr yn dystiolaeth o'r clymau cryf a oedd wedi'u ffurfio. Roedd y perthnasoedd cadarnhaol hyn yn gwbl groes i'r perthnasoedd gwael oedd gan ddisgyblion ag athrawon:

'Rwy'n dwlu ar [enw'r ymgynghorydd]; roedd hi'n gwybod beth i'w ddweud wrthyf o'r eiliad gyntaf i ni gwrdd. Mae hi â'i thraed ar y ddaear ac mae hi wir yn deall yr hyn rwy'n mynd drwyddo'

'Rwy'n meddwl eu bod nhw'n wych. Mae [Enw'r ymgynghorydd] fel ffrind gorau i mi ac rwy'n dweud popeth wrthi'.

- 4.64 Roedd unigolion yn aml yn dadlau bod gan weithwyr Cynnydd a TRAC fel ei gilydd ddealltwriaeth well am faterion a heriau personol disgyblion na staff addysgu eraill:

'Mae'r gweithiwr Cynnydd yn fy helpu i drafod pethau, ac mae hynny'n llawer gwell nag oedd yn yr ysgol brif ffrwd, lle'r oedd yr athrawon yn llawer rhy brysur a lle byddent yn syml yn fy anfon adref'.

- 4.65 Roedd disgyblion hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith y gallent 'alw heibio' i weld eu gweithiwr cymorth ar unrhyw adeg, ac roeddent yn gwerthfawrogi mynediad rhwydd at staff:

'Rwyf wastad yn galw heibio ac os oes arnaf angen pwylllo neu lefain, byddant yn fy helpu i ymdawelu a thrafod pethau'.

- 4.66 Dywedodd disgyblion AB a gefnogwyd gan TRAC eu bod yn weddol fodlon ar y cymorth yr oeddent wedi'i gael gan eu gweithwyr TRAC. Y prif gryfder oedd cael cyswllt cyson â'r un gweithiwr TRAC. Roedd eu hadborth ychydig yn llai cadarnhaol, o'i gymharu â Cynnydd, o bosibl oherwydd ffocws cryfach y prosiect ar gymorth astudio y byddai myfyrwyr o bosibl yn llai brwdfrydig yn ei gylch beth bynnag. Ymhlith y sylwadau roedd:

'roedd yn iawn'

'os ydw i'n onest, cefais fy ngorfodi i fynd gan fy mam a nhad...[ond] fe ddechreuodd weithio i mi'.

- 4.67 Roedd yn achos pryder i nifer fach o ddisgyblion na fyddai ganddynt fynediad at gymorth Cynnydd a TRAC dros gyfnod yr haf, gyda un yn dweud:

'gall llawer ddigwydd dros y cyfnod hwnnw a byddai'n dda pe gallech ddal i fod â rhywun i siarad gyda nhw pe bai angen hynny arnoch'.

- 4.68 Roedd nifer fach o ddisgyblion a gefnogwyd gan TRAC a Cynnydd yn ymwybodol bod eu cyfranogiad yn y prosiect, a'u presenoldeb mewn 'canolfan', yn eu gwneud yn gyff gwawd ymhlith eu cyfoedion ac roedd hyn yn aml yn anodd i'w oddef. Siaradodd disgyblion a gefnogwyd gan TRAC hefyd am y 'gwarthnod' a oedd yn

gysylltiedig â'u grŵp yn y lleoliad AB, yr oeddent yn meddwl ei fod 'braidd yn nawddoglyd'.

Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales

- 4.69 Roedd y rhan fwyaf o unigolion yn meddwl bod eu profiad o GO Wales yn ardderchog ac roeddent wedi bod yn 'fodlon iawn' arno tra bo nifer fach yn meddwl ei fod wedi bod yn weddol dda:
- 'Fe gefais lawer o gymorth. Cefais lawer o wybodaeth trwy negeseuon e-bost ac roeddwn yn gallu trafod y cyfleoedd a fyddai wedi bod o ddiddordeb. Mae hynny'n eich helpu i adnabod yr hyn yr ydych ac nad ydych am ei wneud am y gwn i'.
- 4.70 Roedd unigolion o'r farn mai prif gryfderau'r ddarpariaeth oedd y cyfle i fyfyrion ynghylch posibiladau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol a thrafod y rhain yn ogystal â chael profiad gwaith ymarferol uniongyrchol mewn sefydliad lleol perthnasol. Roedd unigolion yn ymwybodol o'u diffyg profiad gwaith blaenorol, yn enwedig mewn sectorau sy'n berthnasol i'w pwnc gradd. Fe wnaeth nifer o unigolion sylwadau cadarnhaol am y ffaith bod ymgynghorwyr prosiect wedi cymryd amser i drafod eu diddordebau ac ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer profiad gwaith o'r dechrau un. Yn wir, cafodd ymgynghorwyr eu canmol am fod yn 'hawdd iawn mynd atynt', 'yn gyfeillgar', 'yn barod i helpu' ac 'yn llawn empathi' yn hyn o beth ac roeddent yn llwyddo i greu amgylchedd cysurus i drafod unrhyw faterion a oedd yn gysylltiedig ag iechedd ac astudio gyda chyfranogwyr.
- 4.71 Un arall o gryfderau'r dull yn ôl unigolion oedd y cysylltiadau a oedd gan swyddogion prosiect â darpar sefydliadau lleol. Roedd hyn yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gyfryngu cysylltiadau rhwng israddedigion nad oeddent yn gyfarwydd â'r ardal a chyfleoedd lleol. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod swyddog prosiect yn mynd â chyfranogwyr i gwrdd â chynrychiolydd o sefydliad lleol ac ar adegau, trafod unrhyw fater a oedd yn gysylltiedig ag iechedd ac a allai effeithio ar allu cyfranogwyr i gyflawni dyletswyddau penodol.
- 4.72 Prif anfantais y prosiect oedd bod profiad rhai cyfranogwyr wedi bod yn gyfyngedig i gyfleoedd cysgodi gwaith yn unig, yn bennaf am mai dim ond tan yr haf ar ôl graddio y gallent gael eu cefnogi. Mewn achosion eraill, ffactorau allanol oedd yn gyfrifol am hyn. Er enghraifft, bu ar un cyfranogwyr eisiau cael profiad gwaith a fyddai wedi golygu gweithio gyda phobl â dementia, ond nid oedd y prosiect wedi gallu sicrhau profiad gwaith penodol. Roedd profiad gwaith cyfranogwr arall wedi

cael ei ddirwyn i ben yn gynnar oherwydd materion staffio yn y sefydliad lletyol, tra bo trydydd cyfranogwyr yn cydnabod eu bod wedi'i chael yn anodd parhau i fod yn rhan o'r prosiect oherwydd materion iechyd.

Cynhwysiant Gweithredol leuenctid

- 4.73 Roedd unigolion a gyfrannodd at yr ymchwil yn fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd trwy'r prosiect Cynhwysiant Gweithredol leuenctid, gan ychwanegu ei fod wedi canolbwyntio ar eu hanghenion a'u hamcanion. Wrth fyfyr, dywedodd y rhai a ddaeth i'r grwpiau ffocws:

'allan o 10, byddwn i'n rhoi 10 iddynt oherwydd pa mor galed y maent yn gweithio i'n helpu. Maen nhw wedi fy helpu i fwy nag y byddwn wedi dychmygu ei fod yn bosibl'.

- 4.74 Cafodd swyddogion prosiect eu henwi'n benodol fel un o gryfderau'r ddarpariaeth yn yr ystyr eu bod yn llwyddo i greu amgylchedd hamddenol a chefnogol i gyfranogwyr ac yn cael eu hystyried yn llawn cydymdeimlad, yn hygyrch a'u bod yn ymddiddori o ddifrif yn eu hachos. Fe bwysleisiodd nifer o unigolion werth 'pobl yn gwrandao arnynt'. Roedd hyn yn groes i'w profiad yn y Ganolfan Waith lle 'mae a wnelo'n llwyr â dod o hyd i waith i chi, ond yma maen nhw'n siarad gyda chi fel person ac yna'n ceisio gwneud yr hyn sydd orau i chi'.

- 4.75 Roedd cyfranogwyr yn meddwl mai cryfder arall y prosiect oedd y cyfle i ryngweithio ag eraill a oedd yn profi materion tebyg:

'mae'n eich helpu i sylweddoli nad ydych ar eich pen eich hun, a bod gan bobl eraill broblemau tebyg'

'rhannu ein storïau a'n hemosiynau gyda'n gilydd...mae wedi bod yn wirioneddol gathartig'.

Y sefyllfa gyfredol

- 4.76 Ni fu unrhyw newid yn amgylchiadau unigolion a gefnogwyd gan y prosiect STEM Cymru ac roedd pawb a ddaeth i'r grwpiau ffocws yn parhau â'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd ers dod yn rhan o'r gweithrediad.
- 4.77 Yn yr un modd, ni fu unrhyw newid mawr yn amgylchiadau'r rhan fwyaf o unigolion a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC ers ymuno â'r prosiect, er bod llawer o gyfranwyr a oedd ym Mlwyddyn 11 neu mewn lleoliadau AB ac yn nesáu at ddiwedd eu blwyddyn academiaidd yn rhagweld y byddai eu sefyllfa'n newid yn fuan. Er

gwaethaf hyn, dywedodd rhai disgyblion fod eu hymgysylltiad â'r prosiect wedi arwain at amserlen ysgol ddiwygiedig i adlewyrchu eu gweithgareddau fel rhan o'r prosiect a dywedodd un disgybl AB a gefnogwyd gan TRAC ei fod wedi newid ei opsiynau astudio ers dod i gysylltiad â'r prosiect:

'Fe benderfynais i fynd yn ôl i wneud Safon Uwch gan bod arnaf eisiau mynd i'r brifysgol...Fe roddodd i mi'r hyder a'r gred ynof fi fy hun fy mod i'n ddigon da i wneud Safon Uwch.'

- 4.78 Roedd cyfranogwyr a gefnogwyd gan Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales yn nesáu at ddiwedd y flwyddyn academiaidd ar adeg y cyfweiliad felly roedd rhai'n disgwyl am ganlyniadau eu hastudiaethau israddedig yn y flwyddyn olaf tra bo eraill yn disgwyl i ddychwelyd i'w hail neu drydedd flwyddyn astudio. Cafodd y rhai a oedd ar fin gadael y brifysgol gynnig cyfle i gwrdd ag ymgynghorydd GO Wales i drafod rhagolygon gyrfa a gwaith posibl.
- 4.79 Dywedodd rhai cyfranogwyr a gefnogwyr gan Cynhwysiant Gweithredol leuenctid fod newidiadau wedi bod i'w hamgylchiadau ers iddynt ddod i gysylltiad â'r prosiect. Dywedodd un unigolyn ei fod wedi ennill cymhwyster Lefel 2 o ganlyniad i'r hyfforddiant a gafodd gyda'r prosiect, ar ôl gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau o gwbl. Roedd un arall wedi dod o hyd i gyflogaeth â thâl mewn canolfan fanwerthu o ganlyniad i'r prosiect. Roedd tri yn bwriadu dychwelyd i'r coleg yn yr hydref i astudio cyrsiau megis cyfrifyddiaeth a harddwch. Roedd eraill yn rhagweld y byddent yn parhau â'r prosiect nes iddynt ddod o hyd i waith.

Manteision y prosiect

STEM Cymru

- 4.80 Dywedodd unigolion a fu'n rhan o'r elfen CABC o'r prosiect STEM Cymru eu bod wedi cael budd mewn nifer o ffyrdd. Un o'r manteision allweddol oedd y cyfle i ddatblygu sgiliau gwyddonol newydd a oedd yn ehangach na'r rhai y byddent wedi'u datblygu yn yr ystafell ddosbarth. Fe wnaeth sawl un ennill profiad o sgiliau rheoli prosiectau a dirprwyo, yn ogystal â gwella'u sgiliau cyfathrebu o ganlyniad i gyflwyno canfyddiadau i'r diwydiant a phanel beirniaid. Roedd bod yn rhan o'r prosiect wedi cryfhau diddordeb disgyblion mewn peirianeg ac wedi ehangu eu gorwelion ynglŷn â gyrfaedd posibl yn y sector.
- 4.81 Dywedodd disgyblion a oedd yn rhan o'r prosiect F1 STEM Cymru eu bod wedi profi manteision megis mwy o hyder personol o ganlyniad i gyflwyno'u portffolio i banel

beirniadu. Fe wnaethant hefyd nodi'n fynych bod ganddynt fwy o wybodaeth sy'n gysylltiedig â thechnoleg a mwy o ddiddordeb mewn pynciau sy'n gysylltiedig â thechnoleg. Roedd hon yn fantais benodol a nodwyd gan gyfranwyr benywaidd a ddywedodd fod y prosiect wedi rhoi profiad ymarferol iddynt o dechnoleg. O ran sgiliau, soniodd disgyblion eu bod wedi datblygu sgiliau megis gweithio fel rhan o dîm, datrys problemau, gweithio i derfynau amser, cadw amser, cyfathrebu, cyflwyno a sgiliau dylunio â meddalwedd dylunio gyda chymorth cyfrifiadur. Soniodd un grŵp fod y prosiect, o ystyried ei ddull cystadleuol, wedi bod yn bwysig i'w helpu i ddygymod â methiant. Roedd grŵp arall wedi cael bod y prosiect yn ddefnyddiol i gael cyfle i weld sut yr oedd technoleg yn cael ei defnyddio ar draws diwydiant, mewn cymhwyster proffesiynol, ac roedd hyn wedi bod o werth i ddeall yr ystod o swyddi a oedd ar gael ym maes peirianeg.

- 4.82 At ei gilydd, nid oedd disgyblion iau wedi ystyried rhyw lawer sut y byddai'r prosiect o fudd iddynt hwy o ran y CV neu eu gyrfa yn y dyfodol ac roeddent yn fwy tueddol o nodi gwerth y prosiect o ran hybu eu gwybodaeth ymarferol ym maes technoleg a pheirianeg.
- 4.83 Fe wnaeth disgyblion benywaidd hŷn yn arbennig gydnabod bod eu profiad o'r prosiect F1 STEM Cymru wedi gwneud iddynt ystyried eu gyrfaedd yn y dyfodol. Er enghraifft, dywedodd un disgybl ei bod wedi 'dechrau meddwl am fynd i faes peirianeg' a hithau wedi bod yn rhan o'r prosiect am dair blynedd. Roedd merched eraill yn llai pendant ynglŷn â'u gyrfaedd yn y dyfodol ond yn cydnabod bod y prosiect wedi arwain at 'agor llwybr arall' ac, mewn un achos 'wedi rhoi syniad gwell i ni am yr hyn y mae a wnelo Dylunio a Thechnoleg ag ef'.

Cynnydd

- 4.84 Un fantais bwysig a nodwyd gan ddisgyblion ysgol a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC oedd ymddygiad gwell yn yr ysgol, yr oedd disgwyl yn aml iddo arwain at ddeilliannau addysgol gwell. Roedd y rhai a oedd newydd gwblhau eu harholiadau TGAU ar adeg y cyfweiliad yn meddwl y byddai wedi bod yn annhebygol iddynt fod wedi cwblhau eu cwrs neu wneud yn dda yn eu harholiadau heb fod wedi cael cymorth. Roedd sylwadau a gynigiwyd yn cynnwys:

'Dydw i ddim yn dadlau gydag athrawon gymaint'

'mae'r pethau yr wyf wedi'u gwneud gyda Cynnydd wedi fy helpu i roi fy meddwl ar waith yn yr ysgol, ac rwyf wedi bod yn gwneud yn dda gyda'm hastudiaethau'.

4.85 Roedd hefyd yn wir bod nifer o ddisgyblion wedi dweud bod ganddynt lai o orbryder a phryderon ynglŷn â dod i'r ysgol, a oedd wedi arwain at well presenoldeb ac ymgysylltiad â'u hastudiaethau. Mewn un achos dywedodd disgybl fod eu presenoldeb wedi cynyddu o oddeutu 50 y cant i dros 90 y cant. Dywedodd cwpl eu bod yn gwneud mwy o ymdrech i gwblhau eu gwaith cartref a'u bod yn canolbwyntio'n fwy mewn gwersi nag o'r blaen. Dywedodd nifer o ddisgyblion eu bod yn hapusach nag oeddent yn arfer bod.

'Dydw i ddim yn poeni am ddod i'r ysgol mwyach – rwy'n syml yn codi ac yn neidio ar y bws'.

4.86 Dywedodd nifer o ddisgyblion bod ganddynt fwy o allu i ymdopi â sefyllfaoedd yn yr ysgol o ganlyniad i'w hymwneud â'r prosiect, gan eu bod yn gallu trafod eu pryderon yn uniongyrchol gyda gweithwyr prosiect. Roedd nifer o ddisgyblion wedi dysgu technegau ymdopi ac anadlu newydd yr oeddent bellach yn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd anodd. Roedd ychydig yn meddwl bod ganddynt bellach fwy o allu i reoli eu dicter a'u tymer, a hwythau wedi cael strategaethau i'w rheoli. Er enghraifft, mewn un ysgol, dywedodd disgyblion eu bod wedi cael cymorth i adeiladu blwch lles, y gwnaethant ei lenwi wedyn ag eitemau i'w tawelu pan oeddent yn cael diwrnod anodd:

'Rwy'n cadw fy mhen lawer yn fwy nag oeddwn yn arfer ei wneud a dydw i ddim yn gwylltio cymaint. Dydw i ddim yn or-hoff o'r ysgol o hyd, ond mae Cynnydd wedi ei gwneud yn llawer mwy goddefadwy.

4.87 Roedd nifer o ddisgyblion yn meddwl bod eu hyder wedi gwella ac fe wnaethant sylwadau cadarnhaol am ryngweithiadau cymdeithasol gwell â ffrindiau newydd. Wrth fyfyrrio, dywedodd nifer fach o ddisgyblion fod eu profiad gyda'r prosiect wedi helpu i fynd i'r afael â materion o ran perthynas oedd ganddynt gyda rhieni neu siblingiaid. Meddai un disgybl o'r fath, 'gan fy mod yn mynd i'r ysgol ac yn mwynhau pethau'n fwy, mae llai o ddadleuon'. Roedd nifer yn meddwl hefyd bod eu hunan-fri wedi cynyddu a'u bod yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn â'u hamgylchiadau yn awr ac yn y dyfodol.

4.88 Roedd disgyblion AB a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC yn meddwl bod eu hymwneud â'r prosiect wedi eu helpu i barhau â'u hastudiaethau dros y flwyddyn. ac felly eu helpu yn y pen draw i ennill eu cymwysterau ar y diwedd. Fe wnaethant nodi manteision cadarnhaol personol eraill hefyd, yn enwedig mwy o allu i ymdopi â bywyd a chan hynny fe ddwedon nhw eu bod yn fwy digynnwrf, yn fwy hyderus, yn

llai dig a bod ganddynt fwy o allu i ymdopi â straen. Roedd disgyblion AB a gefnogwyd gan TRAC yn meddwl eu bod wedi gallu perfformio'n well ar y cwrs o ganlyniad i'r ffaith bod y prosiect wedi'u cynorthwyo gyda'u hastudiaethau a'u haseiniadau. Yn wir, roedd disgyblion a gefnogwyd gan TRAC yn meddwl eu bod wedi gallu ennill ystod o sgiliau o ganlyniad i gyfranogi ac fe wnaethant nodi gwelliannau i sgiliau megis sgiliau astudio a chyfathrebu.

- 4.89 Roedd hefyd yn wir bod rhai disgyblion a gefnogwyd gan TRAC a Cynnydd wedi sicrhau tystysgrifau cyflawniad ar gyfer amryw weithgareddau grŵp a lleoliadau gwaith yr oeddent wedi'u cwblhau.
- 4.90 Pe na baent wedi bod yn rhan o'r prosiect dywedodd nifer o ddisgyblion a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC y byddent mwy na thebyg wedi cael eu 'cicio allan o'r ysgol' yn llwyr tra bo myfyrwyr coleg yn meddwl y byddent wedi 'rhoi'r gorau i'r coleg'. Dywedodd ychydig o ddisgyblion hefyd na fyddent wedi bod yn mynychu'r ysgol neu'r coleg mor aml neu, pe baent wedi, na fyddent wedi bod â chymaint o ffocws:

'Fyddwn i ddim yma oni bai am y prosiect. Fe aeth fy ymddygiad allan o reolaeth...fe helpodd hi fi drwy hynny'

'Fyddwn i ddim wedi bod yn dod i'r ysgol mor aml o bell ffordd'

'heb hwn, rwy'n amau a fyddwn yn mynd i wersi, neu pe bawn i, dim ond gwastraffu fy amser fyddwn i'.

- 4.91 Efallai fod achos cwpl o ddisgyblion yn dangos i ba raddau y mae Cynnydd wedi helpu pobl ifanc i weddnewid eu bywydau:

'Rwy'n amau a fyddwn i'n fyw a bod yn onest. Roeddwn i'n anhapus iawn a doeddwn i ddim yn gallu gweld rhyw lawer o ddyfodol i mi fy hun, roedd yn weddol frawychus. Maen nhw wedi fy helpu'n fawr'

'pe na bawn i wedi cael y cymorth, byddai fy mywyd union yr un fath. Byddwn i'n anhapus, yn grac, yn isel fy ysbryd ac yn cwmpo mas gyda phawb. Dydw i ddim hyd yn oed yn hoffi meddwl amdano a bod yn onest. Mae fy mywyd wedi cael ei weddnewid.

4.92 Roedd unigolion yn meddwl bod manteision bod yn rhan o'r prosiect yn cynnwys:

- sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu gwell o ganlyniad i gael eu lleoli gyda sefydliadau sy'n cyflogi: "mae wedi gwneud i mi feddwl am y ffordd yr wyf yn cyflwyno fy hun ac yn cyfathrebu gyda phobl"
- gwell hyder personol, yn enwedig mewn amgylchiadau proffesiynol wrth ymdrin â chydweithwyr a chleientiaid/cleifion. Meddai un unigolyn, 'Rwy'n llawer mwy hyderus wrth siarad gyda phobl ac mae gen i well synnwyr sut i gyfleu pwyntiau allweddol i bobl' ac meddai un arall, 'Rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn mynd i wahanol sefyllfaoedd yn awr. Byddaf yn mynegi fy marn yn fwy o lawer hefyd. Doeddwn i byth wir yn gwneud hyn o'r blaen. Byddwn yn ofni rhannu fy marn a cael pethau'n anghywir'
- gwell sgiliau cyflogadwyedd, megis sgiliau cadw amser gwell, sgiliau trefnu gwell, trefn ddyddiol sefydledig, gweithio i derfynau amser, datrys problemau a gweithio o dan bwysau
- mynd i'r afael ag amheuan a allent gael eu cyflogi: 'Ro'n i'n teimlo'n dda i ddim o'r blaen...ond wedyn ro'n i'n teimlo'n llawer mwy hyderus...dydw i erioed wedi gweithio rhyw lawer o'r blaen ac fe roddodd hyder i mi y gallwn i fynd mor bell â bod mewn swydd'
- dod o hyd i ffyrdd o oresgyn materion personol yn y gweithle megis ymdrin â rhwystrau syn gysylltiedig ag iechyd ac anableddau megis dyslecsia tra'r oeddent ar brofiad gwaith: 'mae wedi bod yn hwb enfawr i'm hyder bod dyslecsia ddim yn cael ei ystyried yn wendid'
- meddu ar wybodaeth well am opsiynau gyrfaol a bod â syniad gwell o ran gyrfa bosibl yn y dyfodol 'i wneud i chi feddwl am y pethau yr ydych ac nad ydych yn eu hoffi'
- bod â CV gwell o ganlyniad i allu enwi'r profiadau cysgodi a phrofiadau gwaith, yn ogystal â bod â chyflogwr priodol fel canolwr i'w enwi ar geisiadau am swyddi yn y dyfodol. Ymhlith y sylwadau a gynigiwyd roedd 'bydd ei gael ar fy CV o fudd' ac 'Rwy'n gobeithio y bydd yn dda ar gyfer fy CV ac yn rhoi mantais i mi'.

- 4.93 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o unigolion yn realistig nad oeddent yn disgwyl i'w profiad gyda GO Wales arwain yn uniongyrchol at unrhyw gyfleoedd cyflogaeth gan nad oedd hyn yn un o amcanion y prosiect. Fodd bynnag, roedd un unigolyn yn meddwl bod y prosiect wedi bod yn 'allweddol bwysig' i'w sefyllfa gyfredol, gan ei bod wedi sicrhau rôl lanhau ran-amser ers hynny ac na fyddai wedi bod yn ddigon hyderus i ymgeisio am hon heb fod ag unrhyw brofiad gwaith blaenorol. Roedd unigolion yn meddwl bod elfennau eraill, fel bod â chymhwyster gradd a CV a chais am swydd wedi'u hysgrifennu'n gryf, yn bwysicach i sicrhau gwaith yn y dyfodol mewn cymhariaeth.

Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid

- 4.94 Nododd cyfranogwyr nifer o fanteision a oedd wedi deillio o fod yn rhan o'r prosiect Cynhwysiant Gweithredol Ieuenctid. Roedd y rhain yn cynnwys manteision personol megis teimlo'n fwy cadarnhaol ynglŷn â'r dyfodol, bod ag ymdeimlad newydd o gyfeiriad a mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn y maent am ei wneud yn y dyfodol a sut i fynd o'i chwmpas. Er enghraifft:

'Mae wedi gwneud i mi ymfalchïo ynof fi fy hun eto. Cyn i mi ddod yma, doedd dim cynllun gen i ac roeddwn i braidd yn isel'.

'Rwy'n gallu fy nychmygu fy hun yn gwneud swydd yn awr'.

- 4.95 Roedd nifer o gyfranogwyr wedi datblygu sgiliau newydd yn ystod eu hamser gyda'r prosiect gan gynnwys gwell sgiliau cyfathrebu, sgiliau ymdopi a sgiliau chwilio am swydd.

- 4.96 Roedd un cyfranogwr wedi cael trafferth gyda gorbryder ac yn ei chael yn anodd rhyngweithio â phobl newydd. Roedd yr unigolyn dan sylw hefyd yn nerfus yng ngŵydd grwpiau mawr ac wrth wynebu sefyllfaoedd newydd. Fe wnaeth y gwaith grŵp o fewn y prosiect helpu'r cyfranogwr i oresgyn ei hofn ynghylch gweithio gydag eraill:

'mae rhyngweithio â grwpiau llai wedi fy helpu i oresgyn yr ofn hwnnw, ac rwyf wedi dod yn dipyn o berson pobl yn awr'.

- 4.97 Yn niffyg cymorth, roedd unigolion yn meddwl na fyddai eu sefyllfaoedd wedi gwella na newid. Roedd y rhai a oedd yn dal i chwilio am waith yn meddwl y byddent yn dal i wneud hynny mewn ffordd anadeiladol:

‘Pe na bawn i wedi dod yma, byddwn yn sownd...Byddwn yn mynd rownd mewn cylchoedd yn y Ganolfan Waith’

‘Byddwn wrthi’n ddiddiwedd yn chwilio am swyddi ar 13 o wahanol wefannau’.

- 4.98 Fe awgrymodd un cyfranogwr a oedd wedi sicrhau gwaith, er eu bod wedi dod o hyd i’r cyfle ar gyfer swydd eu hunain, fod y prosiect wedi gwneud gwahaniaeth o ran eu helpu i sicrhau’r rôl, gan ychwanegu ‘na fyddai wedi digwydd heb yr anogaeth a’r hyfforddiant a gefais gan y bobl hyn’.
- 4.99 Roedd un arall a oedd yn bwriadu ailgydio yn ei addysg yn yr hydref yn meddwl y byddai, heb y prosiect, wedi cilio’n ôl i arwahanrwydd a ‘mwy na thebyg wedi rhoi’r gorau i adael y fflat yn gyfan gwbl’. Roedd yr unigolyn yn meddwl ei bod yn annhebygol iawn y byddent wedi cofrestru ar gwrs AB.

Defnyddio darparwyr cymorth eraill

- 4.100 Ar y cyfan, cyfranogwyr a gefnogwyd gan STEM Cymru a Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales oedd leiaf tebygol o fod wedi cael unrhyw fath arall o gymorth, er bod cyfranogwyr GO Wales wedi cael mynediad at gymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau cwnsela ar adegau tra’r oeddent yn y brifysgol.
- 4.101 Dywedodd cyfranogwyr a oedd yn rhan o brosiectau Cynnydd a TRAC eu bod wedi cael cymorth megis gan CAMHS, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cwnsela proffesiynol eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol. Yn yr un modd, roedd cyfranogwyr Cynhwysiant Gweithredol Ieuencid wedi defnyddio ystod o wasanaethau cymorth eraill gan gynnwys darpariaeth Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru.

Y Dyfodol

STEM Cymru

- 4.102 Roedd nifer fach o ddisgyblion a gefnogwyd gan CABC STEM Cymru y cyfwelwyd â hwy bellach yn ystyried gyrfa ym maes peirianeg ac roedd eu hymwneud â’r prosiect wedi cyfrannu at eu penderfyniadau. Roedd dau’n ystyried dilyn llwybr prentisiaeth i faes peirianeg tra bo’r trydydd wedi penderfynu astudio peirianeg yn y brifysgol, ar ôl bod yn awyddus i astudio meddygaeth cyn hynny. Meddai’r disgybl hwn, ‘Bu arnaf eisiau bod yn feddyg am y rhan fwyaf o’m bywyd ond, o ganlyniad i’r profiad hwn, yn awr mae arnaf eisiau mynd i faes peirianeg. Mae’r profiad wedi bod mor bleserus a boddhaus’. Yn ddiddorol ddigon, roedd rhai disgyblion yn fwy

agored i'r posibilrwydd o wneud prentisiaeth o ganlyniad i'w hymwneud â'r prosiect, yn hytrach na gradd prifysgol.

- 4.103 Roedd nifer o ddisgyblion a gefnogwyd gan F1 STEM Cymru yn rhagweld y byddent yn rhan o'r prosiect yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf neu byddent yn croesawu bod yn rhan ohono, gyda nifer yn awyddus i berfformio'n well a dysgu o'u profiadau. Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig merched, fod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn technoleg a pheirianeg nag yn flaenorol ac roeddent yn meddwl bod rôl y prosiect wedi bod yn allweddol o ran eu hannog i ymwneud â'r maes hwn, er enghraifft:

'cyn i mi wneud hyn, doeddwn i ddim yn meddwl am wneud technoleg rhyw lawer. Ond ar ôl y profiad, rwy'n fwy o blaid ei wneud' (benyw a ddaeth i un o'r grwpiau ffocws)

'Dydw i ddim yn siŵr a fyddwn i wedi bod mor frwdfrydig dros beirianeg achos rwy'n dwlu arni o ganlyniad i'r prosiect hwn' (benyw a ddaeth i un o'r grwpiau ffocws).

- 4.104 Roedd eraill, yn enwedig bechgyn, yn meddwl bod eu profiad wedi atgyfnerthu eu diddordeb blaenorol yn y maes hwn ac yn rhagweld y byddent yn dilyn gyrfa ym maes peirianeg neu dechnoleg:

'pan fyddaf yn hŷn, roeddwn i wastad yn gwybod y byddwn yn gwneud technoleg a phethau felly gan bod fy Nhad yn gweithio mewn garej'

Cynnydd a TRAC

- 4.105 Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC yn rhagweld y byddent yn parhau yn yr ysgol tan ddiwedd Blwyddyn 11 i ennill cymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth. Mewn rhai achosion, roedd disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn bwriadu astudio ystod gulach o gymwysterau TGAU gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol megis gwallt a harddwch a chymwysterau a gynigir gan y [Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu](#) (ASDAN⁸). Roedd gan y rhan fwyaf o'r rhai ym Mlwyddyn 11 gynlluniau i fynychu addysg bellach yn y flwyddyn academiaidd sydd i ddod i astudio cyrsiau amrywiol. Roedd gan rai gynlluniau eraill, megis ymuno â'r fyddin, astudio yn y brifysgol neu ddod o hyd i

⁸ Sefydliad Datblygu'r Cwricwlwm a Chorff Dyfarnu.

waith neu gyfleoedd gwirfoddoli. Roedd cwpl yn llai sicr ynglŷn â'r hyn y byddent yn ei wneud ar ôl gadael yr ysgol:

‘Does dim brys arnaf ond rwy’n dal yn teimlo mor ddryslyd ynglŷn â'r hyn yr wyf am ei wneud...mae wedi fy helpu’n emosiynol ac ati...[ond] nid yw wedi fy helpu mewn ffordd lle gallaf yn syml fynd allan a dod o hyd i swydd’.

- 4.106 Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion AB yn bwriadu dychwelyd yn y flwyddyn academaidd ganlynol naill ai i fynd ymlaen i astudio cwrs ar y lefel nesaf neu i gwblhau eu cwrs dwy flynedd cyfredol.

Cyflawni trwy Brofiad Gwaith GO Wales

- 4.107 Gan mai myfyrwyr israddedig oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr GO Wales, roeddent yn rhagweld dychwelyd i'r brifysgol i gwblhau eu gradd yn y lle cyntaf.
- 4.108 O'r pump a oedd yn gwneud eu hastudiaethau israddedig terfynol yn y brifysgol, roedd un yn gweithio, ac roedd un arall yn bwriadu gweithio mewn swyddi â chyflog isel (un ym maes manwerthu ac un arall yn y sector lletygarwch) tra'r oeddent yn ystyried opsiynau posibl ar gyfer eu gyrfa. Roedd dau yn bwriadu cychwyn ar gwrs Meistr ac roedd y pumed wedi cofrestru i astudio cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) yn Lloegr.
- 4.109 Ar y cyfan, roedd wyth o'r 11 unigolyn naill ai'n bwriadu neu'n ystyried astudio cwrs ôl-raddedig, boed yn gymhwyster TAR, Meistr neu PhD yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o achosion dywedodd yr unigolion hyn eu bod yn ystyried y llwybr hwn hyd yn oed pe na baent wedi bod yn rhan o'r prosiect ond roeddent yn cydnabod serch hynny y byddai'r profiadau a gafwyd yn ddefnyddiol i gryfhau eu cais am gwrs ôl-raddedig.

Cynhwysiant Gweithredol Ieuencid

- 4.110 O'r chwe unigolyn a gyfrannodd at yr ymchwil roedd un yn gweithio a thri'n bwriadu ailgydio yn eu haddysg. Roedd y ddau gyfranogwyr a oedd yn weddill yn rhagweld y byddent yn parhau gyda'r prosiect nes y byddent wedi sicrhau deilliant cadarnhaol. Cafodd gwaith gwirfoddol ei enwi fel maes yr oeddent yn bwriadu canlyn arni ag ef gyda'r prosiect.

5. Casgliadau

- 5.1 I gloi, rydym yn mynd yn ôl i ystyried nod cyffredinol yr ymchwil hon, sef casglu barn cyfranogwyr a allai fod heb gynrychiolaeth ddigonol fel arall yn yr arolwg ffôn ar raddfa fawr gyda Chyfranogwyr ESF.
- 5.2 Mae'r gwaith maes ansoddol a wnaed gyda chyfranogwyr a gefnogwyd ar draws dau o Amcanion Penodol rhaglen bresennol y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi esgor ar beth dealltwriaeth benodol a manwl am brofiadau nifer fach o gyfranogwyr sydd wedi ymgysylltu ag wyth o weithrediadau ESF a oedd wedi'u bwriadu i gefnogi pobl ifanc a grwpiau agored i niwed.
- 5.3 Ceir nifer o ystyriaethau methodolegol sy'n cyfyngu ar werth a defnyddioldeb y data a'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r dull hwn.
- 5.4 I ddechrau, bwriad gwreiddiol y dull hwn oedd casglu adborth gan gohortau penodol o gyfranogwyr nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr arolwg ar raddfa fawr gyda'r amcan o ychwanegu at ddata'r arolwg meintiol ESF. Fodd bynnag, oherwydd nifer o ffactorau, nid oedd yn ymarferol defnyddio'r un holiadur arolwg ar sail wyneb yn wyneb gyda'r grwpiau hyn ac fe fabwysiadwyd dull mwy ansoddol yn lle hynny a oedd yn golygu bod angen adroddiad ar wahân. Mae cyfle i gymharu a gwrthgyferbynnu canfyddiadau'r cyfweiliadau ansoddol a'r grwpiau ffocws â data'r arolwg meintiol ESF pan gaiff hwn ei ddadansoddi a'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Dylai hyn fod yn bosibl gan bod yr offerynnau ymchwil a ddefnyddir o fewn yr astudiaeth ansoddol yr un fath â'r themâu a gwmpesir gan yr holiadur arolwg. Fodd bynnag, er y byddai budd i gymharu'r data ar gyfer y cyfranogwyr hynny a gefnogwyd trwy weithrediadau Echel Blaenoriaeth 1 ychydig o werth fyddai i wneud hynny ar gyfer cyfranogwyr Echel Blaenoriaeth 3 ar y sail bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr hyn yn dal mewn addysg ar adeg y cyfweiliad a bod ganddynt broffil unigryw o'i gymharu â gweddill y cyfranogwyr a gefnogwyd trwy weithrediadau ESF.
- 5.5 Yn ail, roedd y sampl o gyfranogwyr y cyfwelewyd â hwy'n sylweddol is nag a gynlluniwyd (129 o'i gymharu â thua 400 o gyfweiliadau) am bod y gwaith maes wedi'i gyfyngu i gyfnod o flwyddyn yn unig (o'i gymharu â'r bwriad gwreiddiol i'w gynnal dros gyfnod o bedair blynedd) a'i fod yn ansoddol o ran ei natur. Gan hynny dim ond ciplun o brofiadau cyfranogwyr y gall y canfyddiadau ei roi ac ni ellir ystyried eu bod yn cynnig canfyddiadau ar gyfer sampl gadarn a chynrychiadol o'r rhai a gefnogwyd ar draws yr wyth gweithrediad a ddetholwyd.

- 5.6 Yn drydydd, wrth ystyried yr wybodaeth a'r data a gafodd eu cywain o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws daeth yn amlwg ei bod yn anodd iawn dadansoddi'r canfyddiadau ar lefel rhaglenni, o ystyried bod natur y cymorth a'r profiadau a gafwyd mor wahanol o un gweithrediad i'r llall. Er ei bod yn bosibl dadansoddi profiadau cyfranogwyr a gefnogwyd gan weithrediadau oedd ag amcanion tebyg (megis y rhai a nodwyd gan gyfranogwyr a gefnogwyd gan Cynnydd a TRAC er enghraifft), ychydig o werth fyddai mewn ceisio dadansoddi'r deilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr ar gyfer ystod ehangach o ymyriadau.
- 5.7 Ar ôl ystyried y cyfyngiadau hyn, mae felly'n amheus a fyddai'n werth ailadrodd y maeth hwn o ymarfer ymchwil eto yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried dulliau eraill megis defnyddio tystiolaeth werthuso gweithrediadau eu hunain lle mae gwerthusiad annibynnol, sydd wedi cynnwys gwaith maes gyda chyfranogwyr, wedi cael ei gomisiynu. Er enghraifft, byddai'n ddichonadwy cynnal adolygiad ar lefel macro o dystiolaeth cyfranogwyr a gyflwynir mewn adroddiadau gwerthuso ar draws Amcanion Penodol arbennig gyda golwg ar ddwyn ynghyd brofiadau a deilliannau cyffredin a gyflawnwyd. Gallai tystiolaeth werthuso gweithrediadau a ariannwyd eu hunain ddarparu tystiolaeth debyg, ac wedi'i thriongli'n fwy o bosibl, o'r gwahaniaeth a wnaed i gyfranogwyr.
- 5.8 Er gwaethaf cyfyngiadau'r astudiaeth hon, mae'r adborth a gafodd ei gywain gan gyfranwyr yn awgrymu ar y cyfan bod eu profiad o'u gweithrediad ESF wedi arwain at brofiad cadarnhaol iawn a bod eu hymwneud wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol.
- 5.9 Roedd cyfranwyr Echel Blaenoriaeth 1 yn byw bywydau anhrefnus iawn ac wedi'i chael yn anodd cadw swyddi dros dro â chyflog gweddol isel cyn ymgysylltu â'u hymyriad. Er bod y mwyafrif yn chwilio am waith pan ymunon nhw â'r prosiect, nid oedd cyfranwyr yn gallu dod o hyd i gyflogaeth a'i chynnal ac felly roedd arnyn angen arweiniad a chymorth sylweddol i fynd i'r afael â materion cyn cyflogaeth. Canfu'r gwaith maes fod gweithrediadau wedi bod yn effeithiol o ran darparu datrysiadau pwrpasol i fynd i'r afael â materion ac anghenion personol. Agweddau allweddol eraill ar ymyriadau llwyddiannus a nodwyd oedd rhyngweithio â chleientiaid eraill ac ansawdd mentor neu ymgynghorydd wedi'i neilltuo a'r dull a ddefnyddiwyd ganddynt. Dywedodd cyfranwyr eu bod yn fodlon iawn ar y cymorth a gafwyd, er bod rhai arfer rhywfaint o bwyll o ystyried rôl darparwyr o ran adnabod a recriwtio cyfranwyr at yr ymchwil.

- 5.10 O ran y deilliannau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr Echel Blaenoriaeth 1, nid yw'n annisgwyl bod cyfranwyr yn dal ddim yn barod ar gyfer gwaith ar adeg y cyfweliad, o ystyried difrifoldeb y materion personol yr oeddent yn eu hwynebu. Er gwaethaf hyn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyriadau'n gallu gweddnewid bywydau cyfranogwyr a soniodd cyfranwyr yn rheolaidd am fod wedi cyflawni deilliannau meddal megis trefn ddyddiol well, perthynas well ag eraill, mwy o ryngweithiadau cymdeithasol, hunan-fri a hyder gwell a oedd yn eu gwneud yn fwy cyflogadwy. Roedd y mwyafrif llethol o unigolion yn meddwl bod y prosiect wedi gwneud cyfraniad hanfodol at wella'u bywydau a'u hamgylchiadau personol.
- 5.11 Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr Echel Blaenoriaeth 3 mewn addysg pan ymunon nhw â'u gweithrediad ac ychydig o newid a fu yn eu hamgylchiadau cyflogaeth neu addysgol, yn anad dim am bod y mwyafrif yn dal yn yr ysgol, neu mewn addysg bellach neu uwch. Dylanwadwyd yn gryf ar broffil yr ymarferwyr gan amcan y gweithrediad. Roedd rhai gweithrediadau wedi'u hanelu'n uniongyrchol at gefnogi'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd neu wedi ymddieithrio oddi wrth addysg, megis Cynnydd a TRAC, tra bo eraill yn canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd penodol a gwell ar gyfer dysgwyr neu fyfyrwyr. Roedd ymwneud cyfranogwyr â gweithrediadau'n amrywio o rai byr â chyffyrddiad cymharol ysgafn i ymwneud mwy dwys, hirdymor ac o ganlyniad, roedd yr ystod o ddeilliannau a nodwyd gan gyfranogwyr yn amrywio.
- 5.12 Roedd natur y deilliannau a nodwyd gan gyfranwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar amcanion y gweithrediad. Ar draws y pum gweithrediad a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil roedd y rhain yn cynnwys ennill sgiliau newydd, datblygu neu gryfhau diddordeb mewn gyrfa neu sector arbennig, CVs gwell, hyder gwell yn ogystal ag ymddygiad a phresenoldeb gwell yn yr ysgol. Canfuwyd fod cyfranogwyr a oedd wedi bod yn rhan o fentrau a oedd wedi'u targedu at y rhai a oedd yn ei chael yn anodd neu a oedd wedi ymddieithrio oddi wrth addysg wedi goresgyn ystod eang o faterion personol ac ymddygiadol hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys mynd i'r afael â materion megis gorbryder, straen, hyder isel, ymdrin â bwlio, hunan-fri isel ac ymgysylltiad gwael ag addysg.

Atodiad I: Canllaw trafod ar gyfer cyfweiliadau ansoddol

I'w ddefnyddio ar draws wyth prosiect a ariannwyd â chyllid ESF dan EB1 ac EB3

ADRAN A: CEFNDIR Y CYFWELAI A'R HYN YR OEDD YN EI WNEUD YN FLAENOROL

A1 I ddechrau, dywedwch ychydig wrthyf amdanoch chi eich hun? Gofynnwch fel y bo'n briodol gwestiynau torri'r ias ynglŷn â ble y maent yn byw, teulu, yr hyn yr oeddent yn ei wneud cyn dod yn rhan o'r prosiect;

A2 Beth oeddech chi'n ei wneud pan ddaethoch yn rhan o'r prosiect? CODIWCH YR HYN YR OEDDENT YN EI WNEUD YN BENNAF YN YSTOD YR WYTHNOS CYN DECHRAU'R DDARPARIAETH:

Yn gyflogedig, gan gynnwys gan aelod o'r teulu neu'n hunangyflogedig	1	
Ar brentisiaeth	2	
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	3	
Mewn addysg neu hyfforddiant (OS IE: pa gwrs neu hyfforddiant oedd hwn?)	4	
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl neu interniaeth	5	
Ddim mewn nac yn chwilio am waith â thâl (e.e. yn gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol)	6	
(PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL) Methu â chofio	X	

A3 (Ar gyfer y rhai nad oeddent mewn addysg ysgol orfodol cyn 16) Ai dyma'r hyn yr ydych wedi bod yn ei wneud yn bennaf ers i chi adael yr ysgol? Os na, beth ydych wedi bod yn ei wneud yn bennaf? CODIWCH ba un o'r canlynol sy'n disgrifio eu sefyllfa orau:

Yn bennaf yn gyflogedig, gan gynnwys gan aelod o'r teulu neu'n hunangyflogedig	1	
Ar brentisiaeth	2	
Yn bennaf yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	3	
Yn bennaf mewn addysg neu hyfforddiant (OS IE: pa gwrs neu hyfforddiant oedd hwn?)	4	
Yn bennaf yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl neu interniaeth	5	
Yn bennaf ddim mewn nac yn chwilio am waith â thâl (e.e. yn gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol)	6	
(PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL) Methu â chofio	X	

A4 (Ar gyfer y rhai a oedd mewn addysg ysgol orfodol cyn 16) Dywedwch ychydig wrthyf am y math o bethau yr ydych wedi'u gwneud ers gadael addysg lawn-amser pan oeddech yn 16? [Efallai y bydd yr ymatebydd yn dymuno amlygu unrhyw faterion blaenorol y maent wedi'u profi megis afiechyd a.y.b.]

- Holwch ynglŷn â gwaith
- Holwch ynglŷn â hyfforddiant neu gyrsiau y maent wedi'u mynychu o'r blaen
- Holwch ynglŷn â gwirfoddoli

A5 Cyn i chi ymuno â'r prosiect beth oedd y cymhwyster uchaf yr oeddech wedi'i ennill?

- Holwch ynglŷn â'r math o gymhwyster
- Holwch ynglŷn â'r lefel a'r radd

CYFWELYDD I NODI'R CANLYNOL

- *Dylai TGAU â graddau 3,2,1 neu raddau D,E,F,G gael eu hystyried yn Lefel 1*
- *Dylai TGAU â graddau 9,8,7,6,5,4 neu A*, A, B, C gael eu hystyried yn Lefel 2*
- *Dylai Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol gael eu hystyried yn Lefel 3*
- *Dylai Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNC) gael eu hystyried yn Lefel 4*
- *Dylai Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HND) gael eu hystyried yn Lefel 5*
- *Dylai graddau (heb gynnwys graddau sylfaenol a meistr) gael eu hystyried yn Lefel 6*
- *Mae graddau sylfaen yn Lefel 5*
- *Mae graddau meistr yn Lefel 7*
- *Mae doethuriaethau'n Lefel 8*

Lefel Mynediad	1	
Lefel 1	2	
Lefel 2	3	
Lefel 3	4	
Lefel 4	5	
Lefel 5	6	
Lefel 6	7	
Lefel 7	8	
Lefel 8	9	
Arall (RHOWCH FANYLION)	10	
Ddim yn gwybod	11	

A6 **[Os nad oeddent yn gweithio cyn dod yn rhan o'r prosiect]:** Dywedwch ychydig wrthyf am eich amser gweithio:

- Am faint oeddech chi wedi bod yn ddi-waith?
- A fu gennych waith â thâl erioed? Os felly, beth oedd natur eich swydd flaenorol?
- A oeddech chi wrthi'n chwilio am waith pan ymunoch chi â'r prosiect? [OS OEDD: pa fath o swyddi?]

- A7 **[Os nad oeddent mewn gwaith cyn dod yn rhan o'r prosiect]** A oeddech chi ddim yn chwilio am waith am unrhyw rai o'r rhesymau canlynol? **CODIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL:**

Yn gofalu am y teulu, cartref neu'n gofalu am ddibynyddion	1	
Problemau iechyd neu anaf dros dro (gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol)	2	
Problemau iechyd hirdymor neu anabledd (gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol)	3	
Wedi ymddeol	4	
Yn gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl	5	
Ddim angen neu ddim eisiau cyflogaeth	6	
Ddim yn chwilio am waith am nad oedd swyddi ar gael	7	
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	8	
Neu a oedd rhyw reswm arall pam nad oeddech yn chwilio am swydd (RHOWCH FANYLION)	9	
(PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL): Methu â chofio	10	

- A8 **[Os nad oeddent mewn gwaith cyn dod yn rhan o'r prosiect]** Gan feddwl am yr adeg cyn i chi ddod yn rhan o'r prosiect, a wnaeth unrhyw bethau o blith y canlynol hi'n anodd i chi ddod o hyd i waith? **CODIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL:**

Peidio â bod â'r cymwysterau cywir	1	
Peidio â bod â'r sgiliau cywir	2	
Peidio â bod â phrofiad gwaith perthnasol	3	
Ddim yn gallu fforddio gofal plant	4	
Bod â chyfrifoldebau gofalu	5	
Problemau iechyd (gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol)	6	
Eich oedran	7	
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	8	
Bod â chofnod troseddol	9	
Dim swyddi priodol lle'r ydych yn byw	10	
Anodd cyrraedd gwaith priodol	11	
Bod arnoch eisiau gweithio'n rhan-amser yn unig	12	
Credu na fydddech yn well eich byd pe baech mewn gwaith	13	
A oedd unrhyw resymau eraill pam ei bod yn anodd i chi ddod o hyd i waith (RHOWCH FANYLION)	14	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn gwybod	15	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Dim o'r rhain	16	

- A9 [Os oeddent mewn gwaith/yn hunangyflogedig pan ddaethant yn rhan o'r prosiect NEU os oedd ganddynt ryw brofiad gwaith diweddar blaenorol cyn dod yn rhan o'r prosiect]: Dywedwch ychydig wrthyf am y swydd oedd gennych NAILL AI pan ddaethoch yn rhan o'r prosiect NEU yn y gorffennol:
- Beth oedd y swydd yn ei olygu – gofynnwch am deitl a chyfrifoldebau'r swydd
 - A oedd y swydd: yn un barhaol, am gyfnod penodedig, yn un achlysurol/dros dro neu â contract dim oriau
 - Oeddech chi'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig
 - Oeddech chi ar brentisiaeth?
 - Faint o oriau'r wythnos oeddech chi'n eu gweithio fel arfer?
 - Am faint oeddech chi wedi bod yn y swydd hon?
 - Yn fras, beth oedd eich cyflog am wneud y swydd hon?
 - [Os yn briodol] Pam ddaeth y swydd hon i ben?
- A10 [Os oeddent mewn addysg neu hyfforddiant pan ddaethant yn rhan o'r prosiect] Dywedwch ychydig wrthyf am yr addysg neu hyfforddiant yr oeddech yn ei g/chael cyn dechrau'r cwrs.
- Oeddech chi yn yr ysgol, y coleg, ar hyfforddeiaeth neu gwrs tra'r oeddech yn gweithio?
 - Pa bwnc/gwrs oeddech chi'n ei astudio?
 - [Prosiectau AP 3.3 yn unig] Oeddech chi'n astudio unrhyw bynciau STEM?
 - Pa mor fodlon oeddech chi ar yr addysg neu hyfforddiant yr oeddech yn ei g/chael ar y pryd?
 - Beth oeddech chi'n ei fwynhau fwyaf/leiaf am yr addysg neu hyfforddiant?
 - Pa heriau, os o gwbl, oeddech chi'n eu hwynebu yn eich addysg/hyfforddiant ar y pryd?
 - Pa gynlluniau, os o gwbl, oedd gennych ar gyfer yr adeg y byddech yn cwblhau eich addysg neu hyfforddiant?
 - [Prosiectau AP 3.3 yn unig] Oeddech chi wedi ystyried gyrfa ym maes STEM o gwbl? Os felly, pa gynlluniau neu syniadau oedd gennych?
- A11 [Ar gyfer y rhai 21 oed ac iau nad oeddent mewn addysg pan ddaethant yn rhan o'r prosiect] Dywedwch wrthyf pam y penderfynoch chi adael addysg pan wnaethoch hynny?
- Ar ba adeg wnaethoch chi adael addysg?
 - Beth oeddech chi'n ei astudio ar y pryd e.e. TGAU, Safon Uwch a.y.b.
 - Wnaethoch chi orffen cyn ynteu ar ôl cwblhau eich astudiaethau?
 - Wnaethoch chi orffen oherwydd unrhyw resymau personol? Os felly, gofynnwch a oedd y rhain yn cynnwys:
 - Problemau iechyd personol
 - Rhesymau ariannol
 - Cyfrifoldebau gofalu am eich plentyn eich hun

- Cyfrifoldebau gofalu am eraill (e.e. rhieni, siblingiaid)
 - Ffactorau personol eraill (rhowch fanylion)
- A wnaethoch chi orffen oherwydd rhesymau eraill megis?
 - Bod y cwrs/addysg yn rhy ddiflas
 - Bod y cwrs/addysg yn rhy anodd
 - Eich bod yn ei chael yn anodd mynychu
 - Eich bod wedi cael eich gwahardd
 - Rhesymau eraill (rhowch fanylion)

ADRAN B DOD YN RHAN O'R PROSIECT

B1 Sut glywoch chi am y prosiect gyntaf?

- A gawsoch chi eich atgyfeirio at y prosiect gan sefydliad arall? Os felly, gan bwy?
- A gawsoch chi eich hysbysu amdano gan athro/athrawes neu diwtor?

B2 Beth oedd y cwrs/hyfforddiant/prosiect yn ei gynnwys?

- Holwch ynglŷn â ble y darparwyd cymorth
- Holwch ynglŷn â'r nifer o oriau yr wythnos yr oeddent yn ei dreulio ar y cwrs fel rheol
- Holwch ynglŷn â pha mor hir yr oeddent ar y cwrs/y mae disgwyl iddynt fod ar y cwrs
- Holwch ynglŷn â chynnwys eu cwrs(cyrsiau)/cymorth
- Archwiliwch a ydynt wedi bod ar nifer o wahanol gyrsiau a beth oedd pob un yn ei gynnwys

B3a [AR GYFER Y RHAI SY'N DAL MEWN ADDYSG LAWN-AMSER] Pam ddaethoch chi'n rhan o'r cwrs/prosiect? CYNORTHWYWCH A CHODIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

Athro neu athrawes / tiwtor / ymgynghorydd wedi dweud y byddai'n syniad da	1	
I ddysgu rhywbeth newydd	2	
I'ch helpu i benderfynu pa bwnc i'w astudio yn y dyfodol	3	
I'ch helpu i benderfynu pa yrfa i'w dilyn	4	
I gael rhywbeth i'w roi ar eich CV / ceisiadau am swyddi	5	
I gael profiad gwaith	6	
I'ch paratoi ar gyfer byd gwaith	7	
I'ch helpu i aros mewn addysg / i barhau â'ch astudiaethau	8	
I'ch helpu i wneud rhywbeth cadarnhaol â'ch bywyd	9	
Neu a oedd rheswm arall (RHOWCH FANYLION)	10	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Methu â chofio	11	

B3b [AR GYFER Y RHAI NAD YDYNT MEWN ADDYSG LAWN-AMSER] Pam ddaethoch chi'n rhan o'r prosiect a beth oeddech yn gobeithio ei gael allan ohono?

- Cynorthwywch trwy awgrymu gwella sgiliau, cael swydd, cael cymhwyster, ailgydio yn eich dysgu, bod rhywun wedi argymhell eich bod yn ei wneud
- Pa mor bwysig ydoedd bod y cwrs/cyrsiau yn arwain at gymhwyster a fyddai'n uwch na'r hyn a oedd gennych yn barod?

B4 A oedd gennych unrhyw faterion personol yr oeddech yn gobeithio y byddai'r prosiect yn eich helpu gyda hwy? Beth oedd natur y materion hyn?

ADRAN C: BODLONRWYDD AR Y PROSIECT

C1 Pa mor fodlon ydych/fuoch chi ar y cymorth a'r cyrsiau yr ydych wedi bod yn gysylltiedig â hwy? Pam ydych chi'n dweud hynny?

C2 A yw'r prosiect yn cwrdd/a wnaeth y prosiect gwrdd â'ch disgwyliadau cychwynnol?

C3 Beth sydd/oedd yn dda am y prosiect?

C4 Beth sydd/oedd ddim cystal am y prosiect? Sut allai'r rhain gael eu gwella?

C5 A wnaethoch gwblhau/a ydych eisoes wedi cwblhau unrhyw gyrsiau a gynigiwyd gan y prosiect? [Ar gyfer ymadawyr, os na]. Os na, pam ddim?

C6 A enilloch chi/a ydych eisoes wedi ennill unrhyw gymwysterau neu dystysgrifau achrededig o ganlyniad i gael cymorth gan y prosiect? Os felly,

- Pa fath o gymhwyster oedd hwn?
- Pa lefel/gradd?
- [Gwiriwch yr ymatebion cynharach a roddwyd] Felly a oedd hwn ar lefel uwch nag unrhyw gymwysterau a oedd gennych yn barod cyn ymuno â'r prosiect?

C7 **[Dysgwyr cyfredol]** Ydych chi'n meddwl y byddwch yn cwblhau unrhyw gyrsiau [pellach] a gynigir gan y prosiect? Os na, pam ddim?

C8 **[Dysgwyr cyfredol]** Ydych chi'n meddwl y byddwch yn ennill unrhyw gymwysterau neu dystysgrifau achrededig [pellach] o ganlyniad i gael cymorth gan y prosiect? Os felly,

- Pa fath o gymhwyster fydd hwn?
- Ar be lefel/gradd fydd hwn?
- [Gwiriwch yr ymatebion cynharach a roddwyd] Felly bydd hwn ar lefel uwch nag unrhyw gymwysterau a oedd gennych yn barod cyn ymuno â'r prosiect?

ADRAN D Y SEFYLLFA BRESENNOL

D1 **[Ar gyfer ymadawyr]** Beth wnaethoch chi yn union ar ôl rhoi'r gorau i fod yn rhan o'r prosiect?

- Wnaethoch chi chwilio am/dod o hyd i waith?
- Wnaethoch chi chwilio am/manteisio ar unrhyw gyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli neu ddysgu eraill?

D2 **[Ar gyfer ymadawyr]** Ers gadael y prosiect ydych chi wedi dechrau unrhyw gyrsiau addysg neu hyfforddiant eraill?

- Beth mae/oedd y cwrs yn ei gynnwys?
- Pa gymhwyster ydych chi'n gweithio tuag ato/wedi ei ennill?
- A fu gan y prosiect unrhyw rôl o ran eich atgyfeirio at y cwrs pellach hwn/eich gwneud yn ymwybodol ohono?
- A fydddech wedi gwneud yr hyfforddiant pellach hwn beth bynnag pe na baech wedi bod yn rhan o'r prosiect?

D3 **[Ar gyfer ymadawyr]** Ers gadael y prosiect, beth ydych chi wedi bod yn ei wneud yn bennaf? **[Codiwch yr opsiwn o blith y canlynol a oedd yn disgrifio eu hamgylchiadau orau]**

Yn gyflogedig, gan gynnwys gan aelod o'r teulu neu'n hunangyflogedig	1	
Ar brentisiaeth	2	
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	3	
Mewn addysg neu hyfforddiant	4	
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl neu interniaeth	5	
Ddim mewn nac yn chwilio am waith â thâl (e.e. yn gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol)	6	
Arall (RHOWCH FANYLION)	7	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Methu â chofio	8	

D4 **[Ar gyfer Ymadawyr]** Beth ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd? **CODIWCH ba un o'r canlynol sy'n adlewyrchu sefyllfa'r cyfwelai orau:**

Yn gyflogedig, gan gynnwys gan aelod o'r teulu neu'n hunangyflogedig	1	
Ar brentisiaeth	2	
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	3	
Mewn addysg neu hyfforddiant	4	
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl neu interniaeth	5	
Ddim mewn nac yn chwilio am waith â thâl (e.e. yn gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol)	6	
Arall (RHOWCH FANYLION)	7	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Methu â chofio	8	

D5 [Ar gyfer y rhai sy'n dal yn y ddarpariaeth] Ar wahân i gyfranogi yn y prosiect, beth arall [os o gwbl] ydych chi'n ei wneud? [CODICH yr ymatebion]

Yn gyflogedig, gan gynnwys gan aelod o'r teulu neu'n hunangyflogedig	1	
Ar brentisiaeth	2	
Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith	3	
Mewn addysg neu hyfforddiant	4	
Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, ddi-dâl neu interniaeth	5	
Ddim mewn nac yn chwilio am waith â thâl (e.e. yn gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol)	6	
Arall (RHOWCH FANYLION)	7	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Methu â chofio	8	

D6 [Os ydynt yn ddi-waith ar hyn o bryd]: Ydych chi'n chwilio am waith?

- [Os ydynt] Holwch ymhellach i ganfod pa fath o waith.
- [Os nad ydynt] Pam nad ydych yn chwilio am waith?
- Pa anawsterau, os o gwbl, ydych chi'n dod ar eu traws wrth chwilio am waith?

[CODIWCH ISOD]

Peidio â bod â'r cymwysterau cywir	1	
Peidio â bod â'r sgiliau cywir	2	
Peidio â bod â phrofiad gwaith perthnasol	3	
Ddim yn gallu fforddio gofal plant	4	
Bod â chyfrifoldebau gofalu	5	
Problemau iechyd (gan gynnwys problemau iechyd corfforol a meddyliol)	6	
Eich oedran	7	
Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau	8	
Bod â chofnod troseddol	9	
Dim swyddi priodol lle'r ydych yn byw	10	
Anodd cyrraedd gwaith priodol	11	
Bod arnoch eisiau gweithio'n rhan-amser yn unig	12	
Credu na fydddech yn well eich byd pe baech mewn gwaith	13	
A oedd unrhyw resymau eraill pam ei bod yn anodd i chi ddod o hyd i waith (RHOWCH FANYLION)	14	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn gwybod	15	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Dim o'r rhain	16	

D7 [Os ydynt mewn gwaith/yn hunangyflogedig] Dywedwch ychydig wrthyf am y swydd sydd gennych:

- Ai'r un swydd ag oedd gennych cyn dod yn rhan o'r prosiect yw hon?
- Beth mae'r swydd yn ei olygu – holwch ynglŷn â theitl a chyfrifoldebau'r swydd

- A yw'r swydd: yn un barhaol, am gyfnod penodedig, yn un achlysurol/dros dro neu â chontract dim oriau
- Oeddech chi'n gyflogedig, yn hunangyflogedig neu ar brentisiaeth?
- Faint o oriau'r wythnos oeddech chi'n eu gweithio fel arfer?
- Am faint ydych chi wedi bod yn y swydd hon?
- Yn fras, beth yw eich cyflog am wneud y swydd hon?
- Pa mor fodlon ydych chi ar y swydd hon? Archwiliwch unrhyw faterion a godir, e.e. cyflog, oriau gwaith, gallu i gyflawni eu potensial

D8 **[Os ydynt mewn gwaith/yn hunangyflogedig]** Pa gyfraniad, os o gwbl, wnaeth y prosiect tuag at gael eich swydd gyfredol?

D9 **[Os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ar hyn o bryd]** Dywedwch ychydig wrthyf am yr addysg neu'r cwrs hyfforddi yr ydych yn ei (g)wneud ar hyn o bryd.

- Pa gwrs/pynciau ydych chi'n eu hastudio?
- **[Prosiectau AP 3.3 yn unig]** Ydych chi'n astudio unrhyw bynciau STEM?
- Pa mor fodlon ydych chi ar yr addysg neu hyfforddiant?
- Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf/leiaf am yr addysg neu hyfforddiant?
- Pa heriau, os o gwbl, ydych chi'n eu hwynebu yn eich addysg/hyfforddiant?
- Pa gynlluniau, os o gwbl, sydd gennych ar gyfer yr adeg y byddwch yn cwblhau eich addysg neu hyfforddiant?
- **[Prosiectau AP 3.3 yn unig]** Ydych chi'n ystyried gyrfa ym maes STEM o gwbl? Os felly, pa gynlluniau neu syniadau sydd gennych?
- **[Os nad oeddent mewn addysg yn flaenorol]** Pa gyfraniad, os o gwbl, wnaeth y cwrs tuag at ailgydio yn eich addysg? Ydych chi'n meddwl eich bod wedi ailgydio yn eich addysg yn uniongyrchol o ganlyniad i'r cwrs, bod y cwrs wedi helpu neu na wnaeth unrhyw wahaniaeth?

ADRAN E: MANTEISION Y PROSIECT

E1 Ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael budd/yn cael budd o fod yn rhan o'r prosiect? Os felly, ym mha ffordd?

- Holwch ynglŷn â hyder personol a sut y maent yn teimlo amdanynt hwy eu hunain
- Holwch ynglŷn ag ymdrin â phroblemau personol neu oresgyn y rhain
- Holwch ynglŷn â newidiadau mewn ymddygiad, e.e. rheoli dicter
- Holwch ynglŷn â gwelliant i'w lles
- Holwch ynglŷn â newidiadau mewn presenoldeb
- Holwch ynglŷn â diddordebau newydd a gwneud ffrindiau
- Holwch ynglŷn ag agweddau tuag at ddysgu a gwaith
- Holwch ynglŷn â rhagolygon swyddi a gyrfa

E2 A fu unrhyw anfantaision i chi o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect? Os felly, beth ydynt/oeddent?

- E3 Allwch chi ddweud wrthyf yn fwy penodol beth ynglŷn â'r prosiect a arweiniodd at y manteision hyn [yn E1]?
- Er enghraifft, ai cwrdd ag eraill, cyngor neu arweiniad penodol a gafwyd, ailafael mewn trefn ddyddiol oedd hyn? Gofynnwch am enghreifftiau.
- E4 Pa fath o sgiliau ydych chi wedi'u hennill neu eu gwella/ydych chi yn eu hennill neu eu gwella o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect yn eich tyb chi?
- E5 A yw'r prosiect wedi eich helpu/Ydych chi'n disgwyl i'r prosiect eich helpu i ddod o hyd i waith neu gamu ymlaen yn eich gwaith o gwbl? Os felly, ym mha ffordd?
- Holwch a oedd y prosiect yn allweddol bwysig neu a wnaeth y prosiect eu helpu i gael swydd/dod yn hunangyflogedig
 - Holwch ynglŷn â newidiadau i fodlonrwydd ar eu swydd
 - Holwch ynglŷn â newidiadau i ddiogelwch swydd
 - Holwch ynglŷn â newidiadau i'w cyflog
- E6 **[Fel y bo'n briodol]** Ydych chi'n meddwl y bydd y ffaith eich bod wedi bod yn rhan o'r prosiect yn eich helpu i ddod o hyd i swydd yn y dyfodol?
- E7 **[Fel y bo'n briodol]** Faint o gyfraniad fydddech chi'n dweud bod y prosiect wedi'i wneud o ran eich helpu i gyflawni'r newidiadau hyn mewn perthynas â gwaith, sgiliau ac amgylchiadau personol? Er enghraifft, a yw cymorth y prosiect wedi bod:
- Yn allweddol bwysig neu'n bwysig iawn
 - Yn weddol bwysig
 - Ddim yn arbennig o bwysig
 - Neu ddim yn bwysig o gwbl i'r newidiadau hyn?
- E8 Pe na baech chi wedi bod yn rhan o'r prosiect, beth fyddai wedi digwydd/beth fydddech wedi'i wneud yn eich tyb chi?

ADRAN F: DEFNYDDIO DARPARWYR CYMORTH ERAILL

- F1 Ydych chi wedi cael unrhyw gymorth, cefnogaeth neu hyfforddiant gan unrhyw ddarparwyr cymorth eraill dros y ddwy flynedd ddiwethaf?
- Holwch ynglŷn â chymorth mewn perthynas â gwella sgiliau neu gymwysterau
 - Holwch ynglŷn â chymorth mewn perthynas â dod o hyd i waith neu addysg neu gamu ymlaen yn y rhain
 - Gan ba sefydliadau ydych chi wedi cael cymorth?
 - Pa fath o gymorth ydych chi wedi'i gael?
 - Pa gymorth, os o gwbl, sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol, a pham?

ADRAN G Y DYFODOL

G1 Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran addysg a/neu gyflogaeth?

G2 Pa gymorth ydych chi'n meddwl y bydd ei angen arnoch er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?

ADRAN DERFYNOL AR DDEMOGRAFFEG

I orffen, yn awr mae gen i ychydig o gwestiynau amdanoch chi eich hun. Dim ond i'n helpu i ddadansoddi'r canlyniadau y mae'r rhain.

1 CODIWCH Y RHYWEDD

Gwryw	1	
Benyw	2	

2 Allwch chi ddweud wrthyf faint yw eich oed ar hyn o bryd os gwelwch yn dda?

Union oedran mewn blynnyddoedd _____

3 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich grŵp ethnig orau? DARLLENWCH Y CATEGORïAU MEWN INC TRWM AC YNA'R CATEGORïAU MWY MANWL OS YN BERTHNASOL. COD SENGL.

Gwyn		
Cymreig	1	
Prydeinig Arall	2	
Gwyddelig	3	
Unrhyw gefndir gwyn arall (RHOWCH FANYLION)	4	
Cymysg		
Gwyn a Du Caribïaidd	5	
Gwyn a Du Affricanaidd	6	
Gwyn ac Asiaidd	7	
Unrhyw gefndir cymysg arall (RHOWCH FANYLION)	8	
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig		
Indiaidd	9	
Pacistanaid	10	
Bangladeshaidd	11	
Tsieineaidd	12	
Unrhyw gefndir Asiaidd arall (RHOWCH FANYLION)	13	
Du neu Ddu Prydeinig		
Caribïaidd	14	
Affricanaidd	15	
Unrhyw gefndir du arall (RHOWCH FANYLION)	16	
Grŵp ethnig arall		
Arabaid	17	
Sipsi / Roma / Teithiwr Gwyddelig	18	
Unrhyw grŵp ethnig arall (RHOWCH FANYLION)	19	
Wedi gwrthod	20	

4 Beth yw eich iaith gyntaf? Cod sengl. Peidiwch â'u darllen yn uchel.

Cymraeg	1	
Saesneg	2	
Iaith arall (gan gynnwys dwyieithog) (RHOWCH FANYLION)	3	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN ALLAN: Ddim yn gwybod	4	
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN ALLAN: Wedi gwrthod	5	

5 A oes gennych unrhyw afiechyd neu broblem iechyd hirdymor neu anabledd – ein diffiniad o hirdymor yw y gallir disgwyl iddo bara am fwy na blwyddyn

Oes	1	
Nac oes	2	
Ddim yn gwybod	3	

5a A yw'r afiechyd neu anabledd hwn yn effeithio ar faint o waith neu'r math o waith y gallwch ei wneud?

Ydy	1	
Nac ydy	2	
Ddim yn gwybod	3	

6 Oeddech chi'n ymwybodol bod Cronfa Gymdeithasol Ewrop (neu ESF) wedi helpu i dalu am y cwrs?

Oeddwn	1	
Nac oeddwn	2	
Ddim yn gwybod	3	

Atodiad II: Canllaw trafod ar gyfer grwpiau ffocws

I'w ddefnyddio ar draws prosiectau a ariannwyd â chyllid ESF dan EB3

ADRAN A: CEFNDIR Y CYFWELAI A'R HYN YR OEDD YN EI WNEUD YN FLAENOROL

- A1 I ddechrau, dywedwch ychydig wrthyf amdanoch chi eich hun a'r hyn yr oeddech yn ei wneud pan ddaethoch yn rhan o'r prosiect? Gofynnwch fel y bo'n briodol
gwestiynau torri'r ias ynglŷn â ble y maent yn byw, eu hanes addysgol, yr hyn yr oeddent yn ei wneud cyn dod yn rhan o'r prosiect, unrhyw gymwysterau yr oeddent wedi'u hennill yn flaenorol ac unrhyw gyflogaeth a fu ganddynt o bosibl
- A2 [Os oeddent mewn addysg neu hyfforddiant pan ddaethant yn rhan o'r prosiect] Dywedwch ychydig wrthyf am yr addysg neu hyfforddiant yr oeddech yn ei g/chael cyn i chi ddod yn rhan o'r prosiect.
- Oeddech chi yn yr ysgol, y coleg, y brifysgol ar hyfforddeiaeth neu gwrs tra'r oeddech yn gweithio?
 - Pa bwnc/gwrs oeddech chi'n ei astudio?
 - [Prosiectau AP 3.3 yn unig] Oeddech chi'n astudio unrhyw bynciau STEM?
 - Pa mor fodlon oeddech chi ar yr addysg neu hyfforddiant yr oeddech yn ei g/chael ar y pryd?
 - Beth oeddech chi'n ei fwynhau fwyaf/leiaf am yr addysg neu hyfforddiant?
 - Pa heriau, os o gwbl, oeddech chi'n eu hwynebu yn eich addysg/hyfforddiant ar y pryd?
 - Pa gynlluniau, os o gwbl, oedd gennych ar gyfer yr adeg y byddech yn cwblhau eich addysg neu hyfforddiant?
 - [Prosiectau AP 3.3 yn unig] Oeddech chi wedi ystyried gyrfa ym maes STEM o gwbl? Os felly, pa gynlluniau neu syniadau oedd gennych?
- A3 [Ar gyfer y rhai 21 oed ac iau nad oeddent mewn addysg pan ddaethant yn rhan o'r prosiect] Dywedwch wrthyf pam y penderfynoch chi adael addysg pan wnaethoch hynny?
- Ar ba adeg wnaethoch chi adael addysg?
 - Beth oeddech chi'n ei astudio ar y pryd e.e. TGAU, Safon Uwch a.y.b.
 - Wnaethoch chi orffen cyn ynteu ar ôl cwblhau eich astudiaethau?
 - Wnaethoch chi orffen oherwydd unrhyw resymau personol? Os felly, gofynnwch a oedd y rhain yn cynnwys:
 - Problemau iechyd personol
 - Rhesymau ariannol
 - Cyfrifoldebau gofalu am eich plentyn eich hun
 - Cyfrifoldebau gofalu am eraill (e.e. rhieni, siblingiaid)
 - Ffactorau personol eraill (rhowch fanylion)
 - A wnaethoch chi orffen oherwydd rhesymau eraill megis?

- Bod y cwrs/addysg yn rhy ddiflas
- Bod y cwrs/addysg yn rhy anodd
- Eich bod yn ei chael yn anodd mynychu
- Eich bod wedi cael eich gwahardd
- Rhesymau eraill (rhowch fanylion)

A4 [Ar gyfer y rhai 21 oed ac iau os oeddent mewn gwaith/yn hunangyflogedig pan ddaethant yn rhan o'r prosiect NEU os oedd ganddynt ryw brofiad gwaith diweddar blaenorol cyn dod yn rhan o'r prosiect]: Dywedwch ychydig wrthyf am y swydd oedd gennych NAILL AI pan ddaethoch yn rhan o'r prosiect NEU yn y gorffennol:

- Beth oedd y swydd yn ei olygu – gofynnwch am deitl a chyfrifoldebau'r swydd
- A oedd y swydd: yn un barhaol, am gyfnod penodedig, yn un achlysurol/dros dro neu â contract dim oriau
- Oeddech chi'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig
- Oeddech chi ar brentisiaeth?
- Faint o oriau'r wythnos oeddech chi'n eu gweithio fel arfer?
- Am faint oeddech chi wedi bod yn y swydd hon?
- Yn fras, beth oedd eich cyflog am wneud y swydd hon?
- [Os yn briodol] Pam ddaeth y swydd hon i ben?

A5 [Ar gyfer y rhai 21 oed ac iau nad oeddent mewn addysg ac sydd heb unrhyw brofiad o fod mewn gwaith/yn hunangyflogedig] Dywedwch ychydig wrthyf am eich ymdrechion i ddod o hyd i waith:

- Am faint oeddech chi wedi bod yn ddi-waith?
- A fu gennych swydd â thâl erioed? Os felly, beth oedd natur eich swydd flaenorol?
- Oeddech chi wrthi'n chwilio am waith pan ymunoch chi â'r prosiect?
 - [OS OEDDENT: pa fath o swyddi?]
 - [OS NAD OEDDENT: Pam nad oeddech yn chwilio am waith?]
- Beth oedd yn ei gwneud yn anodd i chi ddod o hyd i waith?

ADRAN B DOD YN RHAN O'R PROSIECT

B1 Sut glywoch chi am y prosiect gyntaf?

- A gawsoch chi eich atgyfeirio at y prosiect gan sefydliad arall? Os felly, gan bwy?
- A gawsoch chi eich hysbysu amdano gan athro/athrawes neu diwtor?

B2 Beth oedd y cwrs/hyfforddiant/prosiect yn ei gynnwys?

- Holwch ynglŷn â ble y darparwyd cymorth
- Holwch ynglŷn â'r nifer o oriau yr wythnos yr oeddent yn ei dreulio ar y cwrs fel rheol
- Holwch ynglŷn â pha mor hir yr oeddent ar y cwrs/y mae disgwyl iddynt fod ar y cwrs
- Holwch ynglŷn â chynnwys eu cwrs(cyrsiau)/cymorth
- Archwiliwch a ydynt wedi bod ar nifer o wahanol gyrsiau a beth oedd pob un yn ei gynnwys

B3 Pam ddaethoch chi'n rhan o'r cwrs/prosiect?

B4 A oedd gennych unrhyw faterion personol yr oeddech yn gobeithio y byddai'r prosiect yn eich helpu gyda hwy? Beth oedd natur y materion hyn?

ADRAN C: BODLONRWYDD AR Y PROSIECT

- C1 Pa mor fodlon ydych/fuoch chi ar y cymorth a'r cyrsiau yr ydych wedi bod yn gysylltiedig â hwy? Pam ydych chi'n dweud hynny?
- C2 A yw'r prosiect yn cwrdd/a wnaeth y prosiect gwrdd â'ch disgwyliadau cychwynnol?
- C3 Beth sydd/oedd yn dda am y prosiect?
- C4 Beth sydd/oedd ddim cystal am y prosiect? Sut allai'r rhain gael eu gwella?
- C5 A wnaethoch gwblhau/a ydych eisoes wedi cwblhau unrhyw gyrsiau a gynigiwyd gan y prosiect? Os na, pam ddim?
- C6 A enilloch chi/a ydych eisoes wedi ennill unrhyw gymwysterau neu dystysgrifau achrededig o ganlyniad i gael cymorth gan y prosiect? Os felly,
- Pa fath o gymhwyster oedd hwn?
 - Pa lefel/gradd?
 - Felly a oedd hwn ar lefel uwch nag unrhyw gymwysterau a oedd gennych yn barod cyn ymuno â'r prosiect?
- C7 Ydych chi'n meddwl y byddwch yn cwblhau unrhyw gyrsiau [pellach] a gynigir gan y prosiect? Os na, pam ddim?
- C8 Ydych chi'n meddwl y byddwch yn cael unrhyw gymwysterau neu dystysgrifau achrededig [pellach] o ganlyniad i gael cymorth gan y prosiect? Os felly,
- Pa fath o gymhwyster fydd hwn?
 - Ar be lefel/gradd fydd hwn?
 - Felly bydd hwn ar lefel uwch nag unrhyw gymwysterau a oedd gennych yn barod cyn ymuno â'r prosiect?

ADRAN D Y SEFYLLFA BRESENNOL

D1 Ers ymuno â'r prosiect a yw eich amgylchiadau addysg, hyfforddiant neu waith wedi newid o gwbl?

[Nodyn i'r ymchwilydd: Dim ond i gyfranogwyr y mae eu hamgylchiadau addysg neu waith wedi newid tra'u bod yn dal ar y cwrs y mae angen gofyn y cwestiynau sy'n weddill yn yr adran hon. Fel arall ewch ymlaen at Adran E]

D6 **[Os ydynt wedi dod yn ddi-waith]:** Ydych chi'n chwilio am waith?

- [Os ydynt] Holwch ymhellach i ganfod pa fath o waith.
- [Os nad ydynt] Pam nad ydych yn chwilio am waith?
- Pa anawsterau, os o gwbl, ydych chi'n dod ar eu traws wrth chwilio am waith?

D7 **[Os ydynt wedi symud i mewn i waith/dod yn hunangyflogedig]** Dywedwch ychydig wrthyf am y swydd sydd gennych:

- Ai'r un swydd ag oedd gennych cyn dod yn rhan o'r prosiect yw hon?
- Beth mae'r swydd yn ei olygu – holwch ynglŷn â theitl a chyfrifoldebau'r swydd
- A yw'r swydd: yn un barhaol, am gyfnod penodedig, yn un achlysurol/dros dro neu â chontract dim oriau
- Oeddech chi'n gyflogedig, yn hunangyflogedig neu ar brentisiaeth?
- Faint o oriau'r wythnos oeddech chi'n eu gweithio fel arfer?
- Am faint ydych chi wedi bod yn y swydd hon?
- Yn fras, beth yw eich cyflog am wneud y swydd hon?
- Pa mor fodlon ydych chi ar y swydd hon? Archwiliwch unrhyw faterion a godir, e.e. cyflog, oriau gwaith, gallu i gyflawni eu potensial

D8 **[Os ydynt wedi symud i mewn i waith/dod yn hunangyflogedig]** Pa gyfraniad, os o gwbl, wnaeth y prosiect tuag at gael eich swydd gyfredol?

D9 **[Os ydynt wedi mynd i mewn i addysg neu hyfforddiant]** Dywedwch ychydig wrthyf am yr addysg neu'r cwrs hyfforddi yr ydych yn ei (g)wneud ar hyn o bryd.

- Pa gwrs/pynciau ydych chi'n eu hastudio?
- **[Prosiectau AP 3.3 yn unig]** Ydych chi'n astudio unrhyw bynciau STEM?
- Pa mor fodlon ydych chi ar yr addysg neu hyfforddiant?
- Beth ydych chi'n ei fwynhau fwyaf/leiaf am yr addysg neu hyfforddiant?
- Pa heriau, os o gwbl, ydych chi'n eu hwynebu yn eich addysg/hyfforddiant?
- Pa gynlluniau, os o gwbl, sydd gennych ar gyfer yr adeg y byddwch yn cwblhau eich addysg neu hyfforddiant?
- **[Prosiectau AP 3.3 yn unig]** Ydych chi'n ystyried gyrfa ym maes STEM o gwbl? Os felly, pa gynlluniau neu syniadau sydd gennych?
- **[Os nad oeddent mewn addysg yn flaenorol]** Pa gyfraniad, os o gwbl, wnaeth y cwrs tuag at ailgydio yn eich addysg? Ydych chi'n meddwl eich bod wedi ailgydio yn eich addysg yn uniongyrchol o ganlyniad i'r cwrs, bod y cwrs wedi helpu neu na wnaeth unrhyw wahaniaeth?

ADRAN E: MANTEISION Y PROSIECT

E1 Ydych chi'n meddwl eich bod wedi cael budd/yn cael budd o fod yn rhan o'r prosiect? Os felly, ym mha ffordd?

- Holwch ynglŷn â hyder personol a sut y maent yn teimlo amdanynt hwy eu hunain
- Holwch ynglŷn ag ymdrin â phroblemau personol neu oresgyn y rhain
- Holwch ynglŷn â newidiadau mewn ymddygiad, e.e. rheoli dicter
- Holwch ynglŷn â gwelliant i'w lles
- Holwch ynglŷn â newidiadau mewn presenoldeb
- Holwch ynglŷn â diddordebau newydd a gwneud ffrindiau
- Holwch ynglŷn ag agweddau tuag at ddysgu a gwaith
- Holwch ynglŷn â rhagolygon swyddi a gyrfa

E2 A fu unrhyw anfanteision i chi o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect? Os felly, beth ydynt/oeddent?

E3 Allwch chi ddweud wrthyf yn fwy penodol beth ynglŷn â'r prosiect a arweiniodd at y manteision hyn [yn E1]?

- Er enghraifft, ai cwrdd ag eraill, cyngor neu arweiniad penodol a gafwyd, ailafael mewn trefn ddyddiol oedd hyn? Gofynnwch am enghreifftiau.

E4 Pa fath o sgiliau ydych chi wedi'u hennill neu eu gwella/ydych chi yn eu hennill neu eu gwella o ganlyniad i fod yn rhan o'r prosiect yn eich tyb chi?

E5 Sut fydd y fydd y ffaith eich bod wedi bod yn rhan o'r prosiect yn eich helpu yn y dyfodol o ran addysg a gwaith yn eich tyb chi?

E6 Pe na baech chi wedi bod yn rhan o'r prosiect, beth fyddai wedi digwydd/beth fydddech wedi'i wneud yn eich tyb chi?

ADRAN F: DEFNYDDIO DARPARWYR CYMORTH ERAILL

F1 Ydych chi wedi cael unrhyw gymorth, cefnogaeth neu hyfforddiant gan unrhyw ddarparwyr cymorth eraill dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

- Holwch ynglŷn â chymorth mewn perthynas â gwella sgiliau neu gymwysterau
- Holwch ynglŷn â chymorth mewn perthynas â dod o hyd i waith neu addysg neu gamu ymlaen yn y rhain
- Gan ba sefydliadau ydych chi wedi cael cymorth?
- Pa fath o gymorth ydych chi wedi'i gael?
- Pa gymorth, os o gwbl, sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol, a pham?

ADRAN G Y DYFODOL

G1 Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol o ran addysg a/neu gyflogaeth?

G2 Pa gymorth ydych chi'n meddwl y bydd ei angen arnoch er mwyn cyflawni'r cynlluniau hyn?